# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 12 MEDI 2018 am 10:00 y. b. | | WEDNESDAY, 12 SEPTEMBER, 2018 at 10:00 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales).

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitme o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL - 4 MEHEFIN, 2018** (Tudalennau 1 - 58)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 4 Mehefin, 2018
- 5 Gorffennaf, 2018 (arbennig)
- 13 Gorffennaf, 2018 (arbennig)
- 2 Awst, 2018 (galw i fewn)
- 6 Awst, 2018 (galw i fewn)

3 **ADRODDIAD CYNNYDD - PANEL SGRIWTINI CYLLID** (Tudalennau 59 - 64)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

4 **ADRODDIAD CYNNYDD - CYNLLUN GWELLA GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 65 - 90)

Cyflwyno'r canlynol –

- Adroddiad cynnydd gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant.
- Adroddiad cynnydd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant.

5 **MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2018/19** (Tudalennau 91 - 108)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Trawsnewid ac Adnoddau Dynol.

6 **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 109 - 116)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

7 **EITEM ER GWYBODAETH - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18 : GWRANDO AR GWYNION A DYSGU ODDI WRTHYNT** (Tudalennau 117 - 138)

Cyflwyno er gwybodaeth y Pwyllgor, Adroddiad Blynyddol Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol am 2017/18.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Bryan Owen, Nicola Roberts<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a'r Ieuenctid), y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol), y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Rhaglen Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU** : | Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, Richard O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Llinos Medi Huws (Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Erin Bilsborrow, Gweithiwr Prosiect Denu Talent |

---

Croesawodd y Cadeirydd yr holl Aelodau a Swyddogion i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Bryan Owen i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol; i Mr Arwyn Williams fel y Pennaeth Dysgu newydd, ac i Mrs Carys Edwards yn ei rôl newydd fel Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lwyddiant Mr Gruffydd Wyn Roberts o Amlwch ar gyrraedd rownd derfynol y sioe dalent ar y teledu - Britain's Got Talent, a llongyfarchodd Mr Roberts ar ei

DRAFT

gyflawniad. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i dref a chymuned Amlwch ac yn arbennig i Mr Arwel Hughes am drefnu sgrîn awyr agored arbennig o'r rownd derfynol. Roedd y ffocws ar Amlwch a'r cyhoeddusrwydd cadarnhaol mewn perthynas â’r digwyddiad a llwyddiant Mr Roberts wedi bod yn ardderchog i'r ardal.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 21 TACHWEDD, 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Ebrill a 15 Mai, 2018 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

**3 MONITRO PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL AR GYFER CHWARTER 4 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid) yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol 2017/18 er ystyriaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ei weithgareddau busnes fel arfer tra'n cyfeirio’n benodol hefyd at ddatblygiadau trawsnewidiol eraill a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol, er bod y flwyddyn wedi bod yn un heriol eto i'r sector cyhoeddus, roedd yn galonogol gallu adrodd bod y mwyafrif o’r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau, ac y dylid cydnabod y cyflawniad hwn pan fydd Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn cael ei ddrafftio yn yr hydref. Nid yw canlyniadau’r chwarter olaf wedi amlygu unrhyw bethau annisgwyl gyda rhai meysydd perfformiad yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu yn heriol. Serch hynny, mae'r Gwasanaethau Plant yn trawsnewid a bydd yn parhau i flaenoriaethu'r meysydd hynny lle mae perfformiad wedi bod yn is na’r targed - gwelwyd gwelliant mewn 4 o'r 5 dangosydd a oedd yn tanberfformio yn enwedig yn ystod hanner olaf y flwyddyn ariannol yn dilyn ymarfer ailstrwythuro a adolygu polisïau a phrosesau. Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn parhau i weithredu'r mesurau lliniaru yr adroddwyd arnynt ar ddiwedd Chwarter 3 a'u crynhoi ym mharagraff 2.2.5 a dylai hynny sicrhau parhad yng ngwelliant y perfformiad yn y flwyddyn i ddod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, o ran Rheoli Pobl, bod perfformiad cyfraddau salwch y Cyngor ar ddiwedd 2017/18 yn 9.96 diwrnod o salwch fesul CALl gyda hynny’n is o drwch blewyn na’r targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul CALl. Er bod y perfformiad o ran absenoldeb oherwydd salwch yn Chwarteri 1, 2 a 3 yn uwch na’r targed, roedd y cyfraddau salwch uwch na'r arferol yn ystod Chwarter 4 wedi effeithio ar 6 o'r 9 Gwasanaeth yn y Cyngor gyda hynny i bob pwrpas yn sgiwio canlyniadau’r perfformiad diwedd blwyddyn ac yn golygu nad oedd modd cyflawni’r targed corfforaethol. Mae'r canlyniad hwn yn adlewyrchiad o’r sefyllfa yn genedlaethol.

Gwelwyd gwelliannau o ran Gwasanaeth Cwsmer yn enwedig mewn perthynas â’r defnydd o Wasanaethau Digidol, gyda nifer gynyddol o'r cyhoedd yn awr yn defnyddio technoleg App Môn a gwefan y Cyngor i gyfathrebu â'r Awdurdod ac i adrodd ar faterion. Mae presenoldeb y Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol a’i ddilynwyr hefyd wedi cynyddu a rhagwelir y bydd llif y wybodaeth a rennir ac a dderbynnir trwy gyfrwng sianeli cyfryngau cymdeithasol yn parhau i dyfu gydag amser. Roedd canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen yn 78% ar ddiwedd 2017/18 o'i gymharu â 77% ar ddiwedd 2016/17. Er nad yw'n

DRAFT

taro'r targed corfforaethol o 80% , mae'r canlyniad yn galonogol o ystyried y ffaith bod 7,527 o geisiadau wedi cael sylw yn ystod 2017/18 o gymharu â 5,700 yn ystod 2016/17.

Gorffennodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol trwy ddweud bod angen i'r Cyngor gynnal y momentwm o ran cynnydd ac y bydd raid i wasanaethau weithio gyda'i gilydd er mwyn gyrru gwelliant yn barhaus.

O ran y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, tynnodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at y ffaith bod perfformiad y gwasanaeth wedi gwella yn ystod y cyfnod ac yn arbennig yn dilyn yr ailstrwythuro ac nad yw'r gwelliant yn cael ei adlewyrchu gan un ffigwr diwedd blwyddyn ond bod y data manwl yn cynnwys tystiolaeth well a chliriach.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor y sylwadau a wnaed gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dylan Rees trwy'r Cadeirydd yn cyfeirio at Fwletin Cymdeithas Llywodraeth Leol yn tynnu sylw at erthygl yn 'The Times' am bobl ifanc sy'n cael eu gadael i lawr gan y system gofal maeth. Dywed yr erthygl bod y Comisiynydd Plant wedi rhybuddio bod pobl ifanc yn cael eu symud o gwmpas y system ofal yn aml yn ystod eu llencyndod a bod bron i 20% o bobl 12 i 15 oed yn cael eu symud o leiaf ddwywaith y flwyddyn gan olygu eu bod yn byw mewn 3 chartref maeth dros gyfnod o 12 mis. Dyfynnir Cadeirydd Bwrdd Pobl Ifanc yr LGA a ddywedodd "Aeth 90 o blant y dydd i ofal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gwelodd cynghorau y cynnydd blynyddol mwyaf yn nifer y plant mewn gofal ers 2010. Mae hyn yn erbyn cefndir o doriadau digyffelyb i gyllidebau awdurdodau lleol." Awgrymodd y Cynghorydd Dylan Rees, er bod yr erthygl yn cyfeirio at y sefyllfa yn Lloegr yn gyffredinol, mae yna bryder hefyd yn Ynys Môn gyda'r Dangosydd Perfformiad PM32 ar y Cerdyn Sgorio Coch yn ymddangos yn Goch *(canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod mewn gofal nad oedd i'w briodoli i drefniadau trosiannol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth)* ac Amber ar gyfer PI PM33 (*canran y plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn).* Er yn cydnabod yr esboniadau o ran camau lliniaru, roedd y Cynghorydd Rees o'r farn bod angen dadansoddiad mwy manwl i geisio deall y rhesymau pam fod plant sy'n derbyn gofal yn profi ansefydlogrwydd o ran ysgolion, ffactor a all amharu ar eu haddysg.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, er bod yr Awdurdod yn ceisio lleihau i'r eithaf ar unrhyw fath o ansefydlogrwydd i'r plant yn ei ofal, mae newid lleoliad ac ysgolion yn anochel weithiau, e.e. mewn achosion lle mae lleoliad wedi torri i lawr neu lle mae plentyn / person ifanc yn cael ei roi mewn lleoliad brys tra'n chwilio am leoliad mwy addas. Gall newid lleoliad hefyd fod yn rhan o'r broses ofal a'u gwneud er budd yr unigolyn e.e. mewn amgylchiadau lle mae angen therapi ar y plentyn / person ifanc sy'n golygu bod angen newid lleoliad am gyfnod y therapi hwnnw. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y gall newid ysgol hefyd ddigwydd pan fydd plant yn dychwelyd adref i fyw gyda'u teuluoedd, yn dilyn cyfnod mewn gofal.

- Nododd y Pwyllgor fod Atodiad B yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar statws y prosiectau sy'n adrodd i'r ddau brif Fwrdd Rhaglenni Trawsnewid. Nododd y Pwyllgor, dan y thema Atal, nad oedd y Strategaeth Ymyrraeth Gynnar a'r Strategaeth Gwrth-dlodi wedi cychwyn eto a phetaent wedi cychwyn, awgrymodd y gallai cynnydd gyda'r strategaethau hyn fod wedi lleddfu'r pwysau sydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar hyn o bryd. Nododd

DRAFT

y Pwyllgor hefyd nad yw'r wybodaeth ddiweddaraf yn cynnig unrhyw amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiectau a restrir.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwaith ar y Strategaeth Ymyrraeth Gynnar wedi dechrau a bod tîm wedi cael ei sefydlu a strategaeth wedi ei chreu - mae'r arian grant ar hyn o bryd mewn cyfnod trosiannol. Dywedodd y Pennaeth Tai fod y broses ymgynghori ar y Strategaeth Gwrth-dlodi ar fin dechrau a disgwylir adroddiad yn ôl arno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Rhagfyr.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) fod gwybodaeth am amserlenni a ran cyflawni prosiectau ar gael ac mai mater o roi'r wybodaeth i mewn yn y tabl ydyw.

- Nododd y Pwyllgor mewn perthynas â Rheoli Pobl fod y perfformiad mewn perthynas â chynnal cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith wedi gostwng o ran nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd o fewn yr amserlen (73% ar gyfer 2017/18 o'i gymharu â 78% ar gyfer 2016/17) ac o ran cyfanswm nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd sydd, ar 85%, yn isel o gymharu â'r targed o 95%. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd y bydd camau'n cael eu cymryd i ddod â'r perfformiad yn ôl i lefel dderbyniol.

  Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol a Thrawsnewid) nad oes un rheswm penodol am y dirywiad mewn perfformiad, ond yn hytrach gyfuniad o resymau y mae angen ymchwilio iddynt ac a fydd yn cael sylw gan y Penaethiaid Gwasanaeth.

- Nododd y Pwyllgor sylwadau a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) am y diffyg eglurder o ran Dangosyddion Perfformiad 30, 31 a 31 mewn perthynas a nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gliriwyd, y gwastraff sirol a gasglwyd ac a baratowyd ar gyfer ei ailddefnyddio a / neu ei ailgylchu, a'r gwastraff sirol a anfonir i safleoedd tirlenwi lle mae saethau coch ac ambr at i lawr yn arwydd o ddirywiad mewn perfformiad er bod y ffigurau canrannol yn dangos fel arall. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r dynodiadau er mwyn osgoi unrhyw gamddehongliad.

  Dywedodd y Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Busnes fod y saethau coch ac ambr at i lawr yn dangos dirywiad o gymharu â pherfformiad yn Chwarter 3.Mae'r saethau gwyrdd at i fyny i'r dde o'r tabl yn dangos gwelliant o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer Dangosyddion Perfformiad 30, 31 a 32 gyda hynny'n cael ei gefnogi a'i atgyfnerthu yn y sylwebaeth naratif ym mharagraff 2.2.6 yr adroddiad.

  Nododd y Pwyllgor yr eglurhad a ddarparwyd ond nodwyd hefyd fod y Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo o'r farn nad yw cymharu perfformiad rhwng gwahanol chwarteri yn arbennig o ddefnyddiol nac yn deg mewn perthynas â gwasanaethau megis casglu gwastraff sirol oherwydd gall lefel y gwastraff gwyrdd a gynhyrchir amrywio ac roedd yn is yn Chwarter 4, gan golygu nad yw cymhariaeth tebyg i debyg gyda pherfformiad Chwarter 3 yn bosibl.

  **Ar ôl craffu'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 4 ac wedi cael sicrwydd gan y wybodaeth a gyflwynwyd a'r esboniadau a ddarparwyd yn yr adroddiad a chan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y cânt eu**

DRAFT

**crynhoi ym mharagraffau 1.4.1 i 1.4.5 yr adroddiad ac i dderbyn ac i argymell y mesurau lliniaru fel y'u hamlinellwyd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 4 MONITRO CYNNYDD - RHAGLEN WELLA GWASANAETHAU CHILDREN A THEULUOEDD

**4.1** Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth er ystyriaeth y Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaeth wedi bod yn ymwneud â rhoi cyfres o newidiadau pwysig yn eu lle ers arolygiad AGC, newidiadau a fydd, fe ystyrir, yn cyflawni'n well yn unol â deddfwriaeth. Mae'r prif feysydd newid yr ymhelaethir arnynt yn yr adroddiad yn ymwneud â'r canlynol -

- Ailstrwythuro'r gwasanaeth fel bod y ffocws ar ymyrraeth gynnar ac atal ac ymyrraeth ddwys dan reolwyr gwasanaeth sy'n arwain ar, ac sy'n gyfrifol am yr adnoddau ar gyfer pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn. Mae wedi cynyddu'n sylweddol yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer goruchwylio, trosolwg rheolwyr, cyfeiriad achosion ac wedi gwella'r broses cynllunio gofal gyda Grwpiau Ymarfer bach dan arweiniad Arweinwyr Ymarfer sy'n ceisio gwella ansawdd ymarfer proffesiynol.
- Datblygu strategaeth atal gyda'r amcan o leihau angen ar bob lefel a thrwy hynny ostwng yr angen am wasanaethau dwys. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnoddau i sefydlu tîm ymyrraeth ddwys, sef y Tîm Teuluoedd Gwydn, i ymateb yn rhagweithiol i blant ag anghenion lefel uchel / sydd ar drothwy gofal a hefyd i weithio gyda'r gweithiwr cymdeithasol enwebedig i gynorthwyo i symud plant allan o ofal a'u dychwelyd i ofal ffrindiau neu deulu yn nes at eu cartrefi.
- Gwella'r systemau sydd ar waith i gefnogi ymyrraeth ddwys trwy adolygu achosion i sicrhau bod yr achosion cywir yn cael sylw ar y lefel hon a bod prosesau'r Gwasanaeth mor effeithiol â phosibl.
- Gwella ansawdd a chysondeb ymarfer. Datblygwyd prosesau ac arweiniad gwell ac mae adnoddau ychwanegol wedi'u hymrwymo i wella'r swyddogaeth Sicrhau Ansawdd a Gwella.

Dywedodd y Swyddog fod y Gwasanaeth yn cydnabod mai dim ond yn ddiweddar y cafodd y camau hyn eu gweithredu, gyda'r mwyafrif wedi dwyn ffrwyth ers i'r adroddiad ar yr arolygiad gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth, 2017 a'u bod yn dibynnu ar weithredu swyddogaeth yr Arweinwyr Ymarfer yn llwyddiannus. Bydd yn cymryd amser i gyflawni'r hyn a ddisgwylir ohono ond fe welir manteision gwneud hynny'n effeithiol mewn ymarfer o ansawdd da ar draws yr holl Wasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae ffocws y gwaith yn y chwarter diwethaf wedi bod ar atgyfnerthu trefniadau recriwtio a chadw staff. Oherwydd y prinder cenedlaethol o Weithwyr Cymdeithasol profiadol, mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu cynllun wrth gefn (cyllid wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith) sef recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol newydd (NQSW) i swyddi gwag ac i gyflogi gweithwyr cymdeithasol asiantaeth profiadol ychwanegol dros gyfnod o flwyddyn a all gefnogi'r gweithwyr cymdeithasol newydd drwy gydol eu blwyddyn gyntaf yn y Fframwaith Ymarfer. Mae gweithredu'r 21 o gamau gweithredu yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth hefyd yn mynd rhagddo. Ar ôl 12 mis o weithio ar y CGG, mae'r gwasanaeth wedi datblygu system sgorio RAG i fesur cynnydd - mae'r tabl yn yr adroddiad yn dangos bod 6 maes wedi eu cwblhau (Gwyrdd), mae 10 maes bron wedi eu cwblhau (Melyn) a 5 o feysydd yn ymwneud â gwaith sy'n mynd rhagddo ar ymarfer Gwaith Cymdeithasol yn



DRAFT

Ambr. Nid oes unrhyw feysydd Coch lle nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud. Bydd y meysydd Ambr yn cael blaenoriaeth yn ystod 2018.

Mae'r cynnydd dros y pedair blynedd diwethaf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod wedi arwain at gost ariannol gyfatebol i'r Gwasanaethau Plant o ran staffio ac o ran trefnu a chyllido gofal maeth a / neu leoliadau preswyl. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm â mwy o blant a phobl ifanc yn dod i mewn i'r system ofal a'r buddsoddiad ychwanegol a wnaed yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd dros y tair blynedd ers 2016 i gwrdd â'r pwysau cynyddol ar y gwasanaeth. Yn 2017/18, gwariodd y Gwasanaeth £ 1.78 miliwn o'i gyllideb oherwydd y cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal lle gall lleoliadau unigol olygu cost sylweddol. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio lleihau nifer y plant sy'n cyrraedd y cam hwn yn ogystal â chynyddu'r dewisiadau o leoliadau ar yr Ynys. Fodd bynnag, bydd hyn yn cymryd amser ac mae risg o hyd y bydd y Gwasanaeth yn gorwario eto yn 2018/19.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant ers 2016. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch maint y buddsoddiad a'r defnydd a wnaed ohono.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod dros £803k o arian parhaol ychwanegol wedi ei ychwanegu at gyllideb y Gwasanaeth dros y tair blynedd gyda £240k pellach (cyllid 2 flynedd) ar gyfer tîm ymyrraeth gynnar. Ym mis Mai 2018, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith swm unwaith ac am byth o £ 268k i gyllido costau staff asiantaeth i lenwi'r swyddi gwag presennol, i gefnogi Gweithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso ac i ddelio ag achosion Etifeddiaeth lle nad oedd yr Awdurdod efallai wedi ymateb yn briodol i achosion hanesyddol. Defnyddiwyd yr arian ychwanegol hefyd i gwrdd â'r galw am leoliadau preswyl a all gostio hyd at £ 250k fesul person ifanc ar gyfer lleoliad arbenigol. Yn wyneb y ffaith bod gan yr Awdurdod 14 o bobl ifanc mewn lleoedd preswyl yn awr o gymharu ag 8 ddwy flynedd yn ôl, gallai'r cynnydd hwn arwain at gostau ychwanegol oddeutu £ 1.5 miliwn. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio ymyrryd yn gynt er mwyn atal achosion rhag cynyddu i bwynt lle mai lleoliad preswyl yw'r unig opsiwn. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn anelu at ddarparu gwell dewis o leoliadau yn lleol e.e. Cartrefi Grwpiau Bach er mwyn lleihau'r defnydd o leoliadau all-sirol sy'n rhoi baich gynyddol o ran teithio ar weithwyr cymdeithasol y plant ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllideb y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu i raddau ar y lleoliadau sydd ar gael ar yr adeg y mae'r angen yn codi - tra bod trefniadau'n cael eu gwneud i ddod o hyd i leoliadau priodol ar gyfer y tymor hwy sy'n fwy addas i gwrdd ag anghenion yr unigolyn. Gall y lleoliadau hyn fod yn yr ardal leol ond fel arfer, maent ymhellach draw.

- Nododd y Pwyllgor y gall lleoliadau all-sirol fod yn arbennig o ddrud a gallent olygu fod y Gwasanaeth yn mynd dros ei gyllideb. O'r herwydd, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol ac a oes lle i gydweithio mwy ar sail ranbarthol.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod 140 o blant a phobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod ar Ynys Môn ar hyn o bryd. Mae rhai o'r rhain wedi eu lleoli gyda'u teuluoedd ar Ynys Môn yn bennaf ond maent, yn ffurfiol, yn parhau i fod yng ngofal yr Awdurdod. Mae gan yr Awdurdod 25 o'i ofalwyr maeth cofrestredig ei hun sy'n darparu ar gyfer gwahanol fathau o angen ac yn ogystal, mae'n gwneud defnydd o ofalwyr maeth y

DRAFT

sector Annibynnol. Mae dau gwmni preifat yn darparu lleoliadau preswyl ar yr Ynys sy'n cael eu defnyddio'n bennaf gan bobl ifanc o Loegr. Mae lleoliadau therapiwtig ar gael yng Ngwynedd ond mae'r rhain yn fyrdymor ac ar gyfer anghenion gofal penodol sy'n gysylltiedig â thrawma. Mae’r dewis o leoliadau yn cael eu gyrru gan anghenion yr unigolyn ond yn gynyddol, mae'r Awdurdod yn herio cwmnïau ar ansawdd, gwerth ac addasrwydd y ddarpariaeth a gynigir er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a gafwyd yn cyd-fynd â’r hyn y talodd y gwasanaeth amdano. Dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig cofio, er bod nifer y plant yng ngofal yr Awdurdod wedi dyblu bron dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid yw'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cynyddu i’r un graddau. Mae dyblu nifer y plant sy'n derbyn gofal hefyd wedi arwain at ddyblu’r angen am leoliadau sydd, yn ei dro, yn golygu bod angen i Weithwyr Cymdeithasol reoli’r cynnydd yn y baich achosion gyda hynny’n arwain at yr angen am fuddsoddiad ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill yn genedlaethol, gan gynnwys awdurdodau Gogledd Cymru, yn wynebu'r un heriau ag Ynys Môn o ran prinder lleoliadau; fodd bynnag, mae Ynys Môn yn arwain o ran datblygu opsiynau ar gyfer lleoliadau amgen.

- Nododd y Pwyllgor y cafwyd problemau gyda recriwtio a chadw staff Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Plant. Er mwyn ei helpu i ddeall yr effaith y mae ailwampio prosesau gan gynnwys gwella cefnogaeth, goruchwyliaeth ac arweiniad wedi ei gael ar recriwtio a chadw staff yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gofynnodd y Pwyllgor am yr wybodaeth ganlynol - nifer y swyddi gwag cyfredol, nifer y staff gwaith cymdeithasol plant sydd wedi gadael y gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; y gostyngiad yn nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'r nifer sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth; a fu newid yn y duedd yn dilyn ail-werthuso swyddi Gweithwyr Cymdeithasol Plant fel rhan o'r broses Gwerthuso Swyddi ac a yw meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill yn digwydd.

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod yna 7 o swyddi gwag ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Plant, gyda 4 ohonynt newydd eu llenwi a 3 ar ôl i'w llenwi. Cynhelir cyfweliadau pellach yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r pedwar person a benodwyd yn Weithwyr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso a byddant yn derbyn cefnogaeth briodol. Fodd bynnag, yn ogystal â chanolbwyntio ar lenwi swyddi gwag, mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod y personau a bobl a benodir o'r ansawdd priodol.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, er bod cyflog yn ystyriaeth bwysig wrth recriwtio, nid dyma'r unig un; ffactorau eraill sy'n hanfodol i recriwtio staff Gwaith Cymdeithasol yn llwyddiannus yw amgylchedd gwaith diogel a chadarnhaol; llwyth achosion y gellir eu rheoli ac argaeledd cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol. Mae'r elfennau hyn bellach ar gael yn Ynys Môn ac mae'r broses recriwtio wedi gwella o ganlyniad.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a'r sicrwydd a dderbyniwyd, penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon â'r camau a gymerwyd hyd yma i ddatblygu gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant a chyflymder y cynnydd.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL: Y Rheolwr Sgriwtini i ddod o hyd i, a chylchredeg gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â nifer y staff gwaith cymdeithasol plant sydd wedi gadael y gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; y gostyngiad yn nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'r nifer sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth, p'un a fu newid yn y duedd yn dilyn ail-**

**werthuso swyddi gweithwyr Cymdeithasol Plant fel rhan o'r broses Gwerthuso Swyddi ac argaeledd data meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill.**

4.2 Cyflwynwyd adroddiad y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn rhoi diweddariad ar waith y Panel er ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini ar waith y Panel am y cyfnod o fis Chwefror, i fis Ebrill, 2018 pryd rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol dros dri chyfarfod -

- Goruchwyliaeth barhaus o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau i gael ei chyflawni yn unol â'r targed. Fel rhan o'i broses fonitro barhaus, fe wnaeth y Panel ddilyn i fyny bump o faterion penodol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.
- Rhoddodd y Panel ystyriaeth fanwl i ddwy thema yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth sef Thema 4 a Thema 5.
- Ymweliadau Laming
- Gweithio mewn partneriaeth
- Rheoli Perfformiad
- Sesiynau hyfforddi / codi ymwybyddiaeth

Tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith bod y Panel yn ei gyfarfod diwethaf, wedi gwneud trefniadau i ymgymryd â hunan arfarniad o'i effeithiolrwydd ac yn arbennig yr effaith a gafodd y Panel ar y rhaglen wella yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a hefyd i alluogi aelodau'r Panel i neilltuo statws RAG i Thema 1.5 y CGG ar gyfer y Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn ymwneud â'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn erbyn argymhellion yn adroddiad diweddar yr Arolygiaeth Gofal sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl yr Aelodau.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor nodi -**

- **Y cynnydd a wnaed hyd yn hyn â gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant**
- **Bod yr holl ffrydiau gwaith sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn ymddangos fel petaent yn cydymffurfio â'r targed hyd yn hyn a bod Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) wedi cadarnhau hynny'n dilyn yr asesiad o hunan-arfarniad y Cyngor hyd yma.**
- **Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer Aelodau'r Panel gyda llawer o'r gwaith hwn yn cael ei ddarparu'n fewnol.**
- **Bod y Panel wedi uwchgyfeirio i sylw'r rhiant pwyllgor, y ffaith er bod cynnydd da wedi'i wneud ar weithredu'r strwythur staffio diwygiedig, bod rhai swyddi yn parhau i fod wedi eu llenwi gan weithwyr asiantaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod hyn yn cael sylw trwy ddatblygu ein Gweithwyr Cymdeithasol profiadol ein hunain drwy gefnogi Gweithwyr Cymorth profiadol i fod gymhwyso a thrwy recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**5 MONITRO CYNNYDD - PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Cyflwynwyd adroddiad y Panel Sgriwtini Cyllid a oedd yn rhoi diweddariad ar waith y Panel er ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, aelod o'r Panel, ar waith y Panel yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Ebrill, 2018 gan gyfeirio at y canlynol -

DRAFT

- Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i Fonitro’r Gyllideb ar gyfer Chwarter 3 2017/18 gyda’r Panel yn mabwysiadu’r ymagwedd y byddai craffu ymateb y Pwyllgor Gwaith i fonitro'r gyllideb yn fwy defnyddiol o ran cefnogi’r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau gwell.
- Pwysau ariannol 2017/18. Mae'r Panel yn parhau i graffu’r pwysau ariannol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu fel blaenoriaeth allweddol. I'r perwyl hwn, comisiynwyd rhagor o wybodaeth gan y ddau Bennaeth Gwasanaeth i'w hystyried gan y Panel yn ei gyfarfod nesaf ar 28 Mehefin, 2018 .
- Proses gosod cyllideb flynyddol 2019/20. Mae adolygiad o raglen waith y Panel wedi bod yn gatalydd ar gyfer cytuno ar rôl y Panel yn y broses o osod cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
- Strategaeth Effeithlonrwydd y Cyngor. Mae'r Panel wedi rhoi ystyriaeth fanwl i berfformiad yn erbyn pob un o'r cynigion effeithlonrwydd a weithredwyd yn ystod 2017/18 er mwyn ffurfio barn ar y ganran a gyflawnwyd ac i nodi rhwystrau a risgiau ac unrhyw gwersi dilynol i’w dysgu wrth symud ymlaen.

  Mae'r Panel wedi uwch-gyfeirio er sylw'r Pwyllgor, y pwysau presennol ar y gyllideb yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu.

  Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor o gasgliadau'r Panel bod diffyg o £ 399k yn y strategaeth effeithlonrwydd ar gyfer 2017/18 a oedd werth cyfanswm o £ 1.954k, a hynny’n gysylltiedig â'r 3 phrosiect a restrwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r rhesymau pam nad oedd y prosiectau arbedion hyn wedi cael eu cyflawni ar amser.

  Cadarnhaodd y Cynghorydd Dafydd Roberts fod y Panel wedi derbyn adroddiadau ar y mater. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid a chyn aelod o'r Panel ei fod yn hyderus y byddai'r Panel yn parhau i gadw golwg fanwl ar y cynnydd o ran gweithredu cynlluniau arbedion ac effeithlonrwydd.

  Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod prosiect Garreglwyd wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd yn wreiddiol yn rhannol oherwydd yr oedi o ran cyflogi staff Iechyd i gefnogi'r prosiect ac yn rhannol oherwydd bod AGC wedi cymryd mwy o amser na’r disgwyl i dderbyn a chymeradwyo'r model gweithredu. Mae'r cyfleuster bellach ar agor ac yn derbyn nifer gynyddol o unigolion ac mae’r ail adain hefyd yn barod. Ariannwyd y rhan fwyaf o'r gwaith i ddatblygu'r ddwy adain i ddarparu llety ar gyfer unigolion â dementia trwy Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y gwariant ychwanegol nad oedd wedi ei gynllunio a gafodd y Cyngor o ganlyniad i'r llifogydd ym mis Tachwedd, 2017. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y cyfraniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ac a oedd hyn yn ddarostyngedig i unrhyw amodau penodol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) fod yr Awdurdod wedi gofyn am swm o £1.3m ac wedi derbyn oddeutu £ 500k a’r unig amod oedd y byddai’n rhaid gwario’r arian erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2017/18. Gwnaed gwaith yn yr ardaloedd hynny a effeithiwyd gan y llifogydd.

DRAFT

Nododd y Pwyllgor ymhellach y byddai'n ddefnyddiol iddo gael dadansoddiad o'r gwariant yn sgil y llifogydd o ran y swm a wariwyd, ym mhle, beth oedd cyfraniad y Cyngor a beth oedd cyfraniad Llywodraeth Cymru.

- Nododd y Pwyllgor fod y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mewn perthynas â Lleoliadau Preswyl yn effeithio'n sylweddol ar y Gwasanaeth Dysgu sy'n golygu bod y Gwasanaeth yn gwario arian ychwanegol ar ddarpariaeth addysg yr unigolion hynny sy'n cael eu lleoli. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y gost o wneud y ddarpariaeth hon, yn enwedig os yw'r addysg a ddarperir yn annibynnol. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg y gall y costau fod oddeutu £80k fesul person ifanc gan ddibynnu ar yr achos unigol.

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor nodi -**

- **Y cynnydd a wnaed hyd yn hyn â gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid o ran cyflawni ei raglen waith a mesur effaith a gwerth ychwanegol.**
- **Ymddengys bod y prosesau hynny sy'n ymwneud â monitro cyllideb 2017/18 yn addas i'r pwrpas ac ar y trywydd iawn.**
- **Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer o ran craffu ariannol barhaus sy'n cael ei chyflwyno gan CIPFA Cymru.**
- **Bod y Panel wedi uwch-gyfeirio er ei sylw, ei bryder parhaus ynglŷn â phwysau cyllidebol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach fod y Panel yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n fanwl a bod ganddo drefniadau ar waith i sicrhau deialog reolaidd gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Penaethiaid Gwasanaeth i roi esboniad o'r sefyllfa ariannol yn y ddau wasanaeth ac effaith y mesurau lliniaru sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn rheoli'r gorwariant ac y bydd yn parhau i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei ganfyddiadau wrth i'r sefyllfa esblygu.**

**CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL: Y Pwyllgor i gael y wybodaeth ganlynol -**

- **Dadansoddiad o'r gwariant a gafwyd yn sgil y llifogydd ym mis Tachwedd, 2017 fesul ardal i gynnwys cyfraniad y Cyngor a'r cyfraniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru.**
- **Eglurhad o gost darparu addysg gan gynnwys darpariaeth annibynnol lle mae hynny'n angenrheidiol, ar gyfer plant / pobl ifanc mewn lleoliadau gofal preswyl.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2017/18 i 2018/19 ar gyfer sylwadau ac i'w adolygu.

Dygodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y ddau gyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod blaenorol bellach wedi'u cadarnhau ar gyfer 5 a 13 Gorffennaf, 2018 ac y byddant yn ystyried cynigion moderneiddio ysgolion ar gyfer ardaloedd Llangefni a Seiriol yn y drefn honno. Bydd y cyfarfod ar 5 Gorffennaf hefyd yn ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Penderfynwyd derbyn y Rhaglen Waith fel y'i cyflwynwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

DRAFT

**7 EITEM ER GWYBODAETH - CLUDIANT YSGOLION**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i’r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) a'r Pennaeth Dysgu yn rhoi diweddariad ar weithredu'r camau a argymhellir yn dilyn adolygiad Archwilio Mewnol o gludiant ysgol ym Medi, 2017. Mae'r adroddiad yn nodi bod adolygiad dilyn-i-fyny yr Archwiliad Mewnol yn cadarnhau bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at wella trefniadau cludiant Ysgol a mynd i'r afael â'r materion a'r risgiau a godwyd yn yr adroddiad adolygu archwilio gwreiddiol. Yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2018 derbyniwyd bod cynnydd da wedi'i wneud ac nad oedd yn angen iddo gymryd camau pellach.

**Penderfynwyd nodi -**

- **Y cynnydd sylweddol a wnaethpwyd o ran lleihau'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Medi, 2017.**
- **Penderfyniad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2018 i nodi bod cynnydd da wedi'i wneud ac nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Aled M. Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Richard Owain, Alun Roberts, Nicola Roberts.<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau (ar gyfer eitem 3)<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) (ar gyfer eitem 2)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 3)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 2)<br>Rheolwr Gwasanaethau (Anableddau Dysgu (BW)(ar gyfer eitem 2)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr J. Arwel Roberts, Llinos Medi Huws (Arweinydd a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Cynghorydd Dylan Morgan (Cyngor Cymuned Llanddyfnan) a Mr Huw Redvers Jones (Ysgol y Graig) (Siaradwyr Cyhoeddus) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**: Cynghorwyr Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol) Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd), R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff)<br><br>**Swyddogion**: Pennaeth Dysgu, Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad.<br><br>**Siaradwyr Cyhoeddus:** Mr Islwyn Humphreys (Corff Llywodraethu Ysgol Talwrn), Siwan Mathias (Pwyllgor Ymgyrch Ysgol Talwrn), Elwyn a Bethan Wyn Jones (Cymuned Talwrn) |

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnwys Aelodau, Swyddogion a chynrychiolwyr Ysgol Talwrn a chymuned Talwrn.

Talodd y Cynghorydd Lewis Davies deyrnged i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar ben-blwydd y Gwasanaeth yn 70 oed ac i weledigaeth y rhai hynny a'i wnaeth yn bosibl. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor â'r sylwadau gan gytuno bod ein dyled yn fawr i'r GIG a'r gofal iechyd y mae'n ei ddarparu.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Cynghorydd Richard Griffiths ddatganiad o ddiddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda gan fod ei ddarpar ferch yng nghyfraith yn cael ei chyflogi yn Ysgol y Graig.

Gwnaeth y Cynghorydd Nicola Roberts ddatganiad o diddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda gan ei bod yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol y Graig a Chorff Llywodraethu Ysgol Talwrn ac hefyd yn rhiant i blentyn sy'n ddisgybl yn Ysgol y Graig.

**2 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd Adroddiad Drafft Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi newid yn sylfaenol y ffordd y mae Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod yn gweithredu ers ei gyflwyniad. Mae hefyd yn nodi'r fformat y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyfarwyddwyr Statudol pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ei weithredu wrth fynd ati i lunio cynnwys yr adroddiad blynyddol sy'n cynnwys Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Corfforaethol. Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw darparu gwybodaeth am berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol i gynulleidfa eang yn cynnwys Aelodau Etholedig, y cyhoedd yn gyffredinol, defnyddwyr gwasanaeth ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Mae hyn er mwyn sicrhau bod ei gynnwys yn darparu cydbwysedd rhwng bod yn hygyrch ar un llaw a darparu'r Arolygiaeth â digon o fanylion ar y llaw arall. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Blynyddol fe gynhaliwyd sesiwn herio gwasanaeth ym mis Mehefin lle gwahoddwyd amrywiaeth o bartneriaid gyda'r nod o gael eu mewnbwn ar weithgareddau Gwasanaethau Cymdeithasol yn y flwyddyn a aeth heibio ynghyd â chynlluniau'r Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Gan gyfeirio at y Gwasanaethau Oedolion, dywedodd y Swyddog ei bod yn falch â'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn 2017/18, yn enwedig y cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd sy'n bartner allweddol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Garreglwyd yng Nghaergybi ei ail fodelu i ddarparu cymorth arbenigol i bobl hŷn â dementia ac mae'n adnodd lleol gwerthfawr sy'n galluogi'r rhai hynny sy'n dioddef o ddementia i aros ar Ynys Môn yn agosach at eu teuluoedd a'u ffrindiau. Bydd Hafan Cefni, y cyfleuster gofal ychwanegol yn Llangefni yn agor yn hwyrach yn 2018 a bydd yn galluogi mwy o bobl i aros yn eu cymunedau wrth i'w anghenion gofal a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gynyddu. Bydd yr adnodd hefyd yn darparu gofal ar gyfer nifer fechan o gleientiaid dementia. Mae gwaith sylweddol hefyd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaeth iechyd a chymunedau lleol er mwyn cryfhau gwasanaethau dementia ar gyfer pobl yn ei cymunedau eu hunain ac ar draws yr Ynys.

Mae'r cynnydd sylweddol a wnaed er mwyn gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod 2017/18 wedi'i gofnodi'n helaeth mewn nifer o adroddiadau a gyflwynwyd i bwyllgorau'r Cyngor ac hefyd wedi'i gydnabod gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) yn ei lythyr dyddiedig Ionawr, 2018. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn disgrifio nifer o elfennau newydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan gynnwys y Gwasanaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar, y Tîm Teuluoedd Gwydn a Teulu Môn. Ynghyd â'r mentrau newydd, mae'r Gwasanaeth yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau craidd h.y. gofalu am blant mewn gofal a phlant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Er bod llawer iawn wedi'i gyflawni o ran gwella'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd dros y deunaw mis diwethaf, nid yw trawsnewid y Gwasanaeth yn mynd i ddigwydd dros nos ac mae'r Gwasanaeth felly'n parhau i fod ar daith o welliant; rhagwelir y bydd y gwelliannau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd yn cymryd deunaw mis pellach i'w cwblhau a'u cyfnerthu. Cynhelir archwiliad dilynol o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn yr hydref.

Aeth y Swyddog ymlaen i gyfeirio at effaith y gwasanaethau corfforaethol wrth iddynt gefnogi'r ddarpariaeth o Wasanaethau Cymdeithasol rheng flaen effeithiol, er enghraifft mae cynnydd da wedi'i gyflawni yn 2017/18 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gyflogwr diogel a'i fod yn gosod contractau mewn ffordd gyfrifol a diogel sy'n amddiffyn trigolion yr Ynys. Fel rhan o'i gyfrifoldebau corfforaethol, mae'r Gwasanaeth wedi trefnu bod holl staff y Cyngor yn cael hyfforddiant ar gamdriniaeth ddomestig a fydd yn cael ei ddilyn yn ystod y flwyddyn gan hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern, atal cam-drin plant yn rhywiol a Prevent sef rhaglen y Llywodraeth er mwyn atal pobl rhag cael eu radicaleiddio.

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer 2017/18 a gwnaed y sylwadau canlynol er ystyriaeth y Cyfarwyddwr Statudol –

- Roedd y Pwyllgor yn nodi ac yn cydnabod fod y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 yn sylweddol gyda datblygiadau nodedig yn y Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fel ei gilydd.
- Nodwyd hefyd y canolbwyntiwyd ar y gwasanaethau gofal dementia yn ystod y cyfnod adrodd ac yn enwedig ar ddatblygu darpariaeth dementia sy'n fwy cymunedol. Oherwydd y disgwyliad y bydd cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o ddementia yn y dyfodol, yn enwedig pobl ifanc, fe ofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o'r modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu cefnogi unigolion sydd wedi'u heffeithio.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Anableddau Dysgu bod y cyfleuster newydd yn Garreglwyd wedi'i gynllunio er mwyn darparu cymorth i unigolion ag anghenion difrifol; fodd bynnag, nid yw'r cymorth hwn wedi'i gyfyngu i bobl hŷn, gellir ei ymestyn i bobl 'fengach a all fod yn y broses o ddatblygu dementia ac a all orfod mynd y tu allan i'r sir i dderbyn cymorth priodol i'w hanghenion fel arall.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod dementia yn gyflwr sy'n datblygu ac yn newid dros amser. Er mai amcan y Gwasanaeth yw helpu pobl i barhau i fod yn annibynnol yn eu cymunedau cyn hired â phosibl, rhaid iddo hefyd sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i'r rhai hynny sydd ag anghenion mwy difrifol ac sydd angen gofal arbenigol. Mae'r adnodd Garreglwyd a gafodd ei gynllunio, ei ddatblygu a'i staffio ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd yn y cyswllt hwn yn fenter sy'n wir arloesol.

- Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn nodi bod y modd y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio â phartneriaid hefyd wedi gwella, yn enwedig gyda BIPBC, Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid trydydd sector. Croesawodd y Pwyllgor y gwerthusiad hwn a phwysleisiwyd nad oes modd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol weithio ar eu pennau eu hunain a bod parhau i gryfhau gwaith partneriaeth yn bwysig os yw plant ac oedolion i dderbyn y gwasanaethau gorau a mwyaf effeithiol.


DRAFT

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gydnabod y pwynt a wnaed gan gadarnhau bod cydweithio, yn enwedig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wedi gwella'n sylweddol. Ychwanegodd yn yr un modd, bod perthynas y Gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru wedi gwella gyda chyfarfodydd misol yn cael eu cynnal ac wrth iddynt gydweithio'n agos ar nifer o faterion yn strategol ac yn weithredol ar lefel leol. Mae lle i wella o hyd o ran y gwaith o ddydd i ddydd ac mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i weithio â'r Heddlu er mwyn sicrhau bod yr atgyfeiriadau a wneir yn rhai priodol.

- Nododd y Pwyllgor bod nifer o ofynion cyfreithiol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant. Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad o berthynas y Gwasanaeth gyda'r Llysoedd ac effaith prosesau a gweithdrefnau newydd ar y Gwasanaeth.

  Dywedodd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu o fewn system ddeddfwriaethol lle mae gofynion statudol, yn enwedig mewn perthynas â Gwasanaethau Plant. Mae cyflwyniad yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus wedi gosod amserlen o chwe mis ar gyfer cwblhau'r gweithdrefnau gofal gan olygu bod y Gwasanaeth wedi gorfod buddsoddi adnoddau er mwyn bodloni'r gofyniad hwn o ran paratoi asesiadau a dogfennaeth gysylltiedig mewn modd amserol. Ar yr un pryd, mae nifer y plant sy'n mynd i ofal yn genedlaethol wedi cynyddu yn sylweddol ac yn Ynys Môn, mae'r ffigwr hwnnw wedi dyblu dros y bedair blynedd diwethaf o 70 i 150 ar hyn o bryd. Mae'r rhesymau dros y cynnydd hwn yn gymhleth ac amrywiol. Fodd bynnag, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Ynys Môn berthynas dda â'r Llysoedd – mae'r Cyfarwyddwr Statudol a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cynnal cyfarfod â'r Barnwr Llys Teulu er mwyn rhoi diweddariad iddo ar y datblygiadau yma yn Ynys Môn; yn ogystal, bydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru yn cyfarfod â'r barnwyr o bryd i'w gilydd. Cyfeiriodd y Swyddog at CAFCASS fel yr asiantaeth sy'n diogelu'r plentyn ac sy'n sicrhau bod safbwynt y plentyn yn cael ei gyfleu yn y Llysoedd – cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y cynhelir cyfarfodydd chwarterol gyda CAFCASS Cymru.

- Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaethau Plant wedi bod o dan bwysau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a hynny'n rhannol oherwydd ei fod, fel gwasanaeth statudol, wedi gorfod ymateb i'r galw ac yn rhannol gan fod nifer y plant sydd angen gofal wedi cynyddu'n raddol. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd fod y sefyllfa yn gwella a bod modd rheoli'r sefyllfa.

  Dywedodd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyllido'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn her. Mae'r cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r system ofal ac sy'n derbyn gofal yn ffurfiol gan yr Awdurdod, boed hynny mewn lleoliadau lle maent yn aros gyda rhieni, mewn gofal maeth, neu gyda ffrindiau a theuluoedd, wedi rhoi straen ar gyllideb y Gwasanaeth. Tra bo'r Gwasanaeth yn blaenoriaethu'r gwaith o recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol i'r gwasanaeth ar Ynys Môn, mae yna adegau lle mae'n rhaid defnyddio gofalwyr maeth annibynnol neu leoliadau y tu allan i'r sir. Mae gan gyfran fechan o'r bobl sydd yng ngofal yr Awdurdod – tua 10% - anghenion difrifol neu gymhleth sydd ond yn gallu cael eu bodloni drwy leoliadau preswyl arbenigol sy'n golygu costau sylweddol. Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn cryfhau gwasanaethau ataliol ac wedi creu Tîm Teuluoedd Gwydn i weithio â phlant a theuluoedd fel bod plant yn gallu aros gyda'u teuluoedd yn ddiogel. Dywedodd y Swyddog fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud gan y gwasanaeth er mwyn cadw plant sy'n derbyn gofal yn yr ardal leol ac i'w cadw yn ddiogel o fewn sefyllfa deuluol. Mae'r Gwasanaeth yn ystyried sefydlu trefniant Cartrefi Grwpiau Bach ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn am yr adnoddau ariannol ychwanegol a ddyrannwyd i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 15 fod 0.8% (£265k) o'r cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor yn 2018/19 wedi'i glustnodi ar gyfer Gwasanaethau Plant. Ym mis Ebrill 2018, fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith hefyd awdurdodi £300k ychwanegol er mwyn galluogi'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i recriwtio staff asiantaeth ychwanegol i gefnogi'r Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso ac er mwyn delio ag achosion etifeddiaeth. Dywedodd y Swyddog, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, y rhagwelir gorwariant o £1.2 miliwn yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer 2018/19 ond, gan ei bod yn fuan yn y flwyddyn ariannol, y gall y sefyllfa newid yn gyflym.

- Bu'r Pwyllgor gydnabod fod mesurau lliniaru yn cael eu cymryd er mwyn ceisio cyfyngu ar y costau yng nghyllideb y Gwasanaethau Plant ond gan ei fod yn wasanaeth a arweinir gan y galw, dim ond hyn a hyn y gellir ei wneud. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y galw cynyddol am Ofal Cymdeithasol i Blant yn rhywbeth a welir yn genedlaethol hefyd a bod galw tebyg o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, rhywbeth sydd wedi'i ddisgrifio yn y wasg fel "ticking timebomb". Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad a yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy ac os ddim, a oes achos dros ofyn i Llywodraeth Cymru am gyfraniad ariannol uniongyrchol.

  Dywedodd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol mai bwriad y Gwasanaeth yw annog pobl hŷn i barhau i fod mor annibynnol a phosibl o fewn eu cymunedau a hynny am gyn hired â phosibl gyda'r sgwrs "Be sy'n bwysig" yn egwyddor arweiniol wrth geisio gwneud penderfyniadau am y math o ddarpariaeth sydd ei hangen. Dywedodd y Swyddog fod anghenion unigolion yn amrywio ond ei fod wedi'i ddangos ei bod hi'n haws i bobl hŷn barhau i fod yn annibynnol os oes ganddynt rwydwaith o deulu a ffrindiau o'u cwmpas – gan olygu bod angen lefel is o gefnogaeth arnynt gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth felly yn annog pobl i edrych ar ba fathau o gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn barod o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yn cael ei rheoli'n llwyddiannus ar hyn o bryd, nid yw'r pwysau ar y gyllideb mor fawr â'r pwysau ar y gyllideb Plant a Theuluoedd er bod y Gwasanaethau Oedolion yn delio â mwy o unigolion mewn blwyddyn na'r Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, wrth i gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus barhau i leihau flwyddyn ar flwyddyn ac i wasanaethau gael eu gorfodi i wneud arbedion pellach, mae hi'n anoddach rheoli'r pwysau. Er bod Gwasanaethau Plant ac Oedolion wedi eu gwarchod, mae Gwasanaethau Oedolion wedi gorfod dod o hyd i arbedion ac mae'r sefyllfa gyffredinol yn dod yn fwy a mwy heriol. Tra croesawir arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol, mae hefyd angen buddsoddi mewn gofal cymdeithasol gan fod y ddau beth yn cyd-fynd â'i gilydd.

- Nododd y Pwyllgor, o ran demograffeg pobl hŷn, bod rhai ardaloedd e.e. de-ddwyrain yr Ynys, â chanran uwch o bobl hŷn nag ardaloedd eraill yn rhannol oherwydd y nifer uchel o bobl sy'n dod i'r ardal i ymddeol ac a fydd angen cymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol gan nad oes ganddynt deulu yn yr ardal maent wedi ymddeol iddi. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad am a yw dyraniad cyllid Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffaith bod rhai ardaloedd o dan fwy o bwysau nag eraill.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, tra bo'r setliad Llywodraeth leol yn ystyried y nifer o bobl hŷn mewn ardal, nid yw'n dadansoddi'r ffigwr hwn ymhellach er mwyn adlewyrchu'r lefel o gymorth teuluol sydd ar gael iddynt felly ni ddyrennir unrhyw gyllid ychwanegol ar sail hynny.

- Nododd y Pwyllgor y gall rhyddhau pobl hŷn o'r ysbyty mewn modd diogel ac amserol fod yn broblemus oherwydd materion yn ymwneud ag oedi o ran trosglwyddiad gofal. Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodlon â'r trefniadau trosglwyddo gofal ac a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gallu gwneud mwy o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaeth wedi ail dendro'r contract Gofal Cartref yn ddiweddar ac lle yn y gorffennol bod modd i ddarparwyr Gofal Cartref ddewis pecynnau gofal, bod y contract newydd bellach yn seiliedig ar dair "ardal" gyda'r cwmnïau llwyddiannus yn gyfrifol am yr holl anghenion gofal o fewn eu hardal benodol. Tra bydd manteision y model newydd yn cymryd rhai misoedd i ddod i'r amlwg fe ddisgwylir y bydd yn hwyluso'r broses o ryddhau pobl hŷn o'r ysbyty. Hefyd, mae'r adnodd Garreglwyd newydd yn adnodd lleol gwerthfawr ar gyfer pobl sy'n dioddef o ddementia. Bydd y ddwy elfen hon yn gwella'r sefyllfa ac fe ddylent helpu i leddfu'r pwysau sydd ar yr ysbytai.

  Roedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cydnabod graddfa'r gwelliant a'r gwaith datblygu a wnaed yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2017/18 a bod y gwaith hwnnw'n parhau a diolchodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol am ddarparu'r arweiniad a chanllawiau ar gyfer y gwaith.

  **Yn dilyn ystyried y wybodaeth ac ar ôl derbyn sicrwydd am y materion a godwyd, PENDERFYNODD y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dderbyn a nodi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18 ac i argymell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.**

**3 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) yn cynnwys yr adroddiad ar ganlyniad yr Ymgynghoriad Statudol ar ddiwygio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni (Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig) a gynhaliwyd rhwng 1 Mai a 18 Mehefin, 2018 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant fod y broses moderneiddio ysgolion yn cynnwys asesu ac ystyried dyfodol ysgolion a'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar rieni, plant, athrawon, llywodraethwyr ysgol ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill. Mae'n fater cynhennus yn aml ac hefyd yn un o elfennau mwyaf heriol busnes y Cyngor. Roedd yn cydnabod hyn fel y deilydd portffolio ac yn deall pryderon y rhieni a rhanddeiliaid. Ar y llaw arall, yr hyn sy'n cael ei drafod yw dyfodol ysgolion dros yr 50 mlynedd nesaf o bosibl; gwasanaeth ysgolion sy'n gwegian o dan bwysau toriadau ariannol; ôl-groniad cynnal a chadw, gofynion y cwricwlwm ynghyd â nifer o faterion eraill. Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth o ddifri i wneud y system ysgolion yn fwy effeithiol er mwyn creu amgylchedd lle gall disgyblion ac athrawon lwyddo ac hefyd er mwyn ei wneud yn fwy effeithlon fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn effeithiol a bod ysgolion yn cael cyfran deg o'r gyllideb. Er mai Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig a'r materion sy'n effeithio arnynt sydd o dan sylw yn y cyfarfod hwn, mae'r materion hynny yn ffurfio rhan o ddarlun ehangach sy'n edrych ar yr Ynys yn ei chyfanrwydd a'r Gwasanaeth Addysg ynddi. Maent yn cysylltu â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac yn enwedig ei ddyhead bod pob plentyn, person ifanc a phob dysgwr, beth bynnag fo eu cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni i'w potensial llawn.

Tynnodd yr Aelod Portffolio sylw at y ffaith bod cyllideb y Gwasanaeth Addysg yn 40% o gyllideb gyffredinol y Cyngor a bod angen dod o hyd i arbedion o tua £5.2 miliwn yn y Gwasanaeth dros y 3 blynedd nesaf. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi ceisio amddiffyn Addysg rhag y gwaethaf o'r toriadau ariannol; nid yw hynny bellach yn bosibl ac mae



DRAFT

disgwyl i'r Gwasanaeth Addysg gyfrannu ei siâr o'r arbedion y bydd angen i'r Cyngor ddod o hyd iddynt yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn ychwanegol at hyn y mae'r ôl-groniad cynnal a chadw sydd tua £16 miliwn. Mae'r pwysau ariannol a wynebir gan Ynys Môn a chynghorau eraill yn dod yn y pen draw o gyfeiriad Llywodraeth San Steffan a'r agenda o gynni parhaus. Dywedodd yr Aelod Portffolio, er nad ar chwarae bach y gwneir penderfyniad i gau ysgol, nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Mae'r Cyngor yn gweithredu ei raglen moderneiddio ysgolion er mwyn gwella canlyniadau addysgol i blant; er mwyn gwella safonau arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu ac er mwyn sicrhau bod ysgolion sy'n arwain o fewn y sector ym mhob ardal. Mae'r gyrwyr ar gyfer newid yn parhau i fod yr un fath; mae'r rhain wedi eu nodi yn yr adroddiad ac un o'r rhai amlycaf o'r rhain yw gwella safonau addysg a chyrhaeddiad. Rhywbeth sylweddol arall yw'r nod o leihau'r amrywiaeth o wariant y pen ar ddisgyblion er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd cyfartal ar draws ysgolion Ynys Môn. Fe wnaeth yr Aelod Portffolio gydnabod fod gan Aelodau Etholedig rôl ddeuol yn y broses o foderneiddio ysgolion sy'n rhoi dyletswydd arnynt i gynrychioli eu cymunedau unigol ond hefyd i ddarparu cyfeiriad strategol i'r Cyngor drwy arweiniad cadarn a chlir. Diolchodd i bawb a oedd wedi cyfrannu at y broses ymgynghori un ai drwy fynychu'r sesiynau galw heibio neu drwy ddulliau eraill o gyfathrebu.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol at y themâu a'r materion a godwyd gan randdeiliaid yn y ddwy ysgol wrth iddynt ymateb i'r broses ymgynghori ac ymateb yr Awdurdod i'r materion hynny fel a nodwyd yn adran 9 yr adroddiad. Gellir crynhoi'r materion hynny fel a ganlyn –

- Mae nifer o randdeiliaid yn crybwyll canran y disgyblion sy'n cyflawni'r safon yn CA2 yn Ysgol Talwrn fel 100%. Tra bo perfformiad y ddwy ysgol yn CA2 yn debyg (cyfeirir at hyn yn yr ail dabl ym mharagraff 9.1) mae perfformiad Ysgol Talwrn yn y Cyfnod Sylfaen yn is nag ar gyfer ysgolion tebyg ar Ynys Môn ac yn genedlaethol ac mae wedi bod yn y chwartel isaf am y dair blynedd diwethaf. Ar gyfer Ysgol y Graig, mae'r perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio dros yr un cyfnod gyda'r ysgol yn y chwartel uchaf yn 2014/15; y canolrif isaf yn 2015/16 a'r canolrif uchaf yn 2016/17.
- Mae'r ddwy ysgol wedi eu harchwilio gan Estyn yn ddiweddar gydag Ysgol Talwrn wedi ei hasesu fel Rhagorol yn erbyn un dangosydd, Da yn erbyn 12 a Digonol yn erbyn 2. Cafodd Ysgol y Graig ei hasesu fel bod yn Rhagorol yn erbyn 4 dangosydd a Da yn erbyn gweddill yr 11 dangosydd ac o ganlyniad rhoddwyd proffil arolygu cryfach i Ysgol y Graig o gymharu ag Ysgol Talwrn.
- Golyga maint Ysgol Talwrn fod gan yr ysgol ddosbarthiadau oedran cymysg. Mae hyn, ynghyd â'r disgwyliad bod gwaith addas yn cael ei baratoi ar gyfer yr amrywiaeth o alluoedd mewn dosbarth yn rhoi lefel uwch o her i athrawon mewn ysgolion llai.
- Does dim cyfeiriad at gostau fesul disgybl yn ymateb y rhanddeiliaid. Mae cost y pen disgyblion Ysgol Talwrn ar gyfer 2017/18 yn £4,447 sydd yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (£3,960) a'r cyfartaledd ym Môn (£3,972). Gellid dweud fod pob lle yn Ysgol Talwrn £475 yn ddrutach fesul disgybl a bod yr ysgol felly'n derbyn £22,325 yn ychwanegol. Mae'r gwariant fesul disgybl yn Ysgol y Graig yn £3,395 ac felly yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn. Lleihau'r amrywiaeth mewn gwariant rhwng ysgolion yr Ynys yw un o'r prif yrwyr dros newid.
- Mae gan y ddwy ysgol ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer gwaith sydd angen ei wneud er mwyn dod â safon yr ysgol i fyny i'r hyn a ddisgwylir er mwyn sicrhau diogelwch holl ddefnyddwyr yr ysgol. Ar gyfer Ysgol Talwrn, cost yr ôl-groniad cynnal a chadw yw £82.5k yn ogystal â £250k ar gyfer dosbarth symudol newydd (pris wedi'i roi gan brisiwr proffesiynol, manylion yn yr adroddiad) ac ar gyfer Ysgol y Graig, mae'r gost yn £36.5k. Nid oes gan yr Awdurdod yr adnoddau i fedru cwrdd â'r ôl-groniad cynnal a chadw yn Ysgol Talwrn.
- Ym mis Medi, 2017 roedd gan Ysgol Talwrn 12% o lefydd gwag, mae hyn er gwaethaf y ffaith bod canran y disgyblion sy'n dod o du allan i'r dalgylch yn gymharol uchel ar

45% gan wneud sefyllfa'r llefydd gweigion yn fwy bregus. Yn Ysgol y Graig, roedd nifer y llefydd gwag yn 1% ym Medi 2017.

- Mae rhai ymatebion gan Ysgol Talwrn yn cyfeirio at y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig ac er ei fod yn nodi rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, nid yw'n nodi na ddylid cau ysgolion gwledig. Mae'r Cod yn ei gwneud hi'n glir bod blaenoriaeth i ddarparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig ac fe gydnabyddir mai addysg yw'r brif ystyriaeth. Er bod Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn perfformio'n dda o ran lefelau disgwyliedig, mae Ysgol y Graig yn llwyddo i gyflawni canrannau uwch ar lefel 5+ sy'n awgrymu ei bod yn llwyddo i ymestyn disgyblion yn dda a chyflawni lefelau sy'n well na'r cyfartaledd ym Môn a Chymru gyfan. Yn ogystal, nid yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ddogfen gyfreithiol ar hyn o bryd ond mae'r Awdurdod wedi ceisio mynd i'r afael â chynnwys y Cod yn ystod y broses ymgynghori hon.
- Mae ymatebion yn codi pryderon am y sefyllfa draffig ger Ysgol y Graig ac y byddai cerdded i'r ysgol o Talwrn yn beryglus. Mae'r pryder hwn yn cael ei gydnabod a, phetai argymhellion yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, byddai'n rhaid cynnal asesiad effaith traffig a fyddai'n cynnwys y daith gerdded i Ysgol y Graig. Er bod lefel y traffig sy'n pasio Ysgol y Graig wedi lleihau ers agor ffordd Gyswllt Llangefni, fel a gadarnhawyd gan asesiad traffig a gynhaliwyd yn dilyn cwblhau'r ffordd gyswllt, mae'r sefyllfa o ran parcio yn parhau i fod yn broblemus a bydd yn cael sylw yn yr asesiad effaith traffig.
- Mae nifer o sylwadau gan randdeiliaid Ysgol Talwrn yn pwysleisio pwysigrwydd yr ysgol i'r pentref a mynegwyd pryderon am yr effaith y byddai cau'r ysgol yn ei gael ar fywyd a gweithgareddau'r gymuned. Tra'n derbyn fod hyn yn her, mae enghreifftiau lle mae ysgol newydd wedi creu cymuned ehangach ac mae enghreifftiau lle mae cymunedau wedi parhau i ffynnu er fod yr ysgol bentref wedi cau e.e. Marianglas.
- Roedd rhai o'r sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd yn awgrymu bod maint yr ysgol yn effeithio ar yr Iaith Gymraeg a bod ysgolion mwy yn llai effeithiol wrth greu ymdeimlad o deulu ac wrth roi cyfle i'r holl ddisgyblion gymryd rhan. Does dim tystiolaeth bod y naill beth na'r llall yn wir. Mae'r Cyngor yn disgwyl bod ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen moderneiddio yn parhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg. Mewn perthynas a chyfleoedd, mae trefniadau mewn ysgolion cynradd sy'n sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol e.e. côr a thimau blwyddyn.
- Mae'r arbedion refeniw sy'n cael eu creu wrth redeg un ysgol fwy (costau cynnal a chadw'r adeilad, costau ynni a chostau rheoli) yn ystyriaethau pwysig yn yr asesiad ariannol. Er y byddai adeiladu estyniad i Ysgol y Graig yn lle Ysgol Talwrn yn ddrutach, byddai'r gost ychwanegol yn cael ei thalu'n rhannol drwy gynnydd yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru a'r arian cyfalaf a fyddai'n cael ei dderbyn yn dilyn gwerthu safle Ysgol Talwrn.
- Mae Adran 12 yr adroddiad yn crynhoi'r materion allweddol mewn perthynas â'r argymhelliad bod capasiti Ysgol y Graig yn cynyddu er mwyn lletya disgyblion Ysgol Talwrn ac y dylid cau Ysgol Talwrn. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy weithredu'r 3 cam a nodir ym mharagraffau 12.3 o'r adroddiad.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gofynnwyd am gadarnhad gan y Swyddog mewn perthynas â'r materion canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod tystiolaeth ar draws yr Ynys y gall ysgolion llai ddarparu safonau addysg gwych a'u bod yn gwneud hynny mewn nifer o leoliadau.

  Fe wnaeth y Prif Weithredwr Cynorthwyol gydnabod y pwynt ac fe gadarnhaodd nad yw'r Awdurdod wedi nodi fel arall. Mae yna ysgolion bach ar yr Ynys sy'n perfformio'n dda ond mae yna ysgolion mwy sydd hefyd yn perfformio'r un mor dda.

- Nododd y Pwyllgor hefyd fod yna deimlad bod y broses foderneiddio mewn perthynas ag ysgolion Llangefni ac Ardal Seiriol yn cael ei rhuthro cyn gweithrediad y Cod Trefniadaeth ysgolion.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod y gwaith o ymgynghori ar foderneiddio ysgolion yn ardaloedd Llangefni a Seiriol wedi dechrau rhai blynyddoedd yn ôl a gan mai dyma'r diweddaraf o dri ymgynghoriad yn ardal Llangefni, ni ellir dweud bod yr Awdurdod yn gweithredu ar frys.

- Nodwyd nad yw'r adroddiad ar ganlyniad y broses ymgynghori mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn cynnwys data ar drafnidiaeth ysgolion. Nododd y Pwyllgor ymhellach y byddai cael data o'r fath yn ddefnyddiol er mwyn adeiladu darlun cyflawn o'r ystyriaethau perthnasol ynghlwm â moderneiddio ysgolion yn yr ardal hon ac ardaloedd eraill.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y bydd manylion mewn perthynas â thrafnidiaeth ysgol ar gael unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud. Er enghraifft, mae 45% o ddisgyblion Ysgol Talwrn yn dod o du allan i'r dalgylch felly yn dilyn penderfyniad ar ffurf derfynol ysgolion yn yr ardal hon a chan ystyried yr asesiad effaith traffig, bydd yn rhaid cyfrifo faint o blant fydd angen cludiant i'r ysgol.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y byddai cyflawni cam cyntaf y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 21ain Ganrif sef Band A yn dod i ben ym Mawrth, 2019, felly mae angen i brosiectau moderneiddio ysgolion ar gyfer y cyfnod hwn gael eu cadarnhau a bydd angen rhoi cynlluniau at ei gilydd erbyn hynny. Bydd unrhyw lithriant i'r ail gyfnod sef Band B yn golygu y bydd cyllid Band A yn cael ei golli a fydd yn ei dro yn effeithio ar brosiectau mewn ardaloedd eraill o'r Ynys ym Mand B.

- Nododd y Pwyllgor fod y cynlluniau yn cynnwys adeiladu bloc newydd ar gyfer Ysgol y Graig ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch a oedd tir wedi'i adnabod ar gyfer yr adeilad.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith cychwynnol wedi'i wneud er mwyn gweld a oes tir addas ar gael ond nad oes unrhyw dir wedi'i brynu hyd yma gan nad oes penderfyniad ar foderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni, o ran Ysgol y Graig ac Ysgol talwrn, wedi ei wneud hyd yma.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch dalgylch Ysgol y Graig petai'r cynllun yn cael ei weithredu ac a fyddai plant o ardal Penmynydd er enghraifft, a fyddai wedi mynychu Ysgol Talwrn, yn gymwys i gael cludiant am ddim.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol, yn unol â'i bolisi trafnidiaeth ysgol, y bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i'r ysgol am ddim i blant ysgol gynradd sy'n byw fwy na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol yn y dalgylch y maent yn byw ynddo ond yn amodol ar asesiad risg diogelwch. Mae'r pellter rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn 1.8 milltir felly does dim rhaid i'r Awdurdod ddarparu cludiant am ddim i blant yn yr ardal. Fodd bynnag, petai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod yn cynnal asesiad diogelwch y ffyrdd.

Fe wnaeth Siwan Mathias (Pwyllgor Ymgyrch Ysgol Talwrn), Mr Islwyn Humphreys (Corff Llywodraethol Ysgol Talwrn), a Bethan Wyn Jones (Cymuned Talwrn) annerch y Pwyllgor gan fynegi eu safbwyntiau ar y cynigion mewn perthynas ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn. Fe wnaethant fynegi gwrthwynebiad yr ysgol a'r gymuned i'r posibilrwydd o gau

Ysgol Talwrn gan ofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini wrthod y cynnig. Wrth wneud eu sylwadau, fe wnaethant dynnu sylw'r Pwyllgor at y pwyntiau canlynol –

- Bod Ysgol Talwrn yn ysgol ragorol gyda naws gynnes, deuluol a safon ragorol o addysg. Mae wedi bod yn ffactor manteisiol ym mywydau'r rhieni a'r plant.
- Bod ysgolion fel Talwrn wedi gwneud Ynys Môn yr hyn ydyw heddiw; bydd cau'r ysgol ac addysgu plant mewn ysgol enfawr yn amddifadu'r plant o'u hetifeddiaeth ac yn newid dynameg yr Ynys am byth.
- Bod rhieni Ysgol Talwrn yn credu, er eu hymdrechion, bod yr Awdurdod wedi anwybyddu eu llais a bod eu dadleuon hynod resymol wedi eu hanwybyddu neu'n waeth byth eu gwrthod gan eu bod yn debyg ac nad ydynt, fe ystyrir, yn werth eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Y rhieni sy'n gwybod beth sydd orau i'w plant a nhw sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am eu lles.
- Bod rhieni wedi treulio oriau yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'r ymgynghoriadau blaenorol mewn ymgais i hysbysu'r Awdurdod am effeithiau difrifol yr hyn sy'n cael ei argymell – mae'r Awdurdod wedi bod yn ddewisol wrth ymateb i'r hyn a gyflwynwyd a phryd yr ymatebodd, nid yw wedi ymateb i'r pryderon a godwyd e.e. ni chafwyd ateb mewn pryd i gais Rhyddid Gwybodaeth ar sut y mae cyfanswm ôl-groniad y costau cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Talwrn wedi eu cyfrifo.
- Ei bod hi'n anodd i rieni weithredu dewis rhiant o ran ysgol eu plant ac i'r Awdurdod gydymffurfio â'r gofynion statudol yn y cyswllt hwn pan mae Ysgol Talwrn wedi bod o dan fygythiad ers 10 mlynedd.
- Nad oes asesiad o'r effaith y mae'r cyfres o ymgynghoriadau statudol wedi eu cael ar iechyd a llesiant y plant na'r straen a'r pryder sydd wedi'i achosi i rieni a allai fod angen newid eu oriau gwaith a/neu swyddi er mwyn sicrhau bod eu plant yn dal bws i'r ysgol pan mae'r plant yn gallu cerdded neu feicio i'r ysgol ar hyn o bryd.
- Nad yw'r rhan fwyaf o yrwyr newid yn berthnasol i Ysgol Talwrn a lle maent yn berthnasol, mae rhieni wedi gallu defnyddio ffigyrau'r Awdurdod ei hun er mwyn eu herio. Yr unig beth sy'n gyson yn yr holl ymgynghoriadau yw'r ffaith bod cyllid ar gael a bod yr Awdurdod wedi gwneud camgymeriad mewn perthynas â'r ddarpariaeth o addysg gynradd yn ardal Llangefni. Arian sy'n gyrru'r cynnig hwn; mae angen i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion ac mae Ysgolion bach fel Talwrn yn dioddef o ganlyniad.
- Y bydd y cynllun arfaethedig yn arwain at gostau uwch ar gyfer pobl Ynys Môn ac yn rhoi'r baich o ddyled ar blant Ynys Môn cyn eu bod hyd yn oed ddigon hen i gael cyfrif banc. Mae'n esiampl wael i'w rhoi lle mae'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i ddyled tymor hir am ateb tymor byr ar amser lle mae cyfraddau llog ar fin codi a lle mae ansicrwydd mewn perthynas â Brexit. Nid yw'r cynllun yn cynnig gwerth am arian.
- Nad oes unrhyw dystiolaeth newydd wedi'i chynnig sy'n cyfiawnhau parhau â'r cynnig i gau Ysgol Talwrn.
- Bod yr adroddiad yn cael ei ystyried yn unochrog o blaid Ysgol y Graig. Mae teimlad bod Ysgol Talwrn wedi ei rhoi o dan bwysau gan yr Awdurdod mewn ymgais i ddatrys y mater hwn.
- Mai dim ond 5 lle gwag sydd yn Ysgol Talwrn ar hyn o bryd gyda 3 phlentyn newydd wedi cofrestru yn yr ysgol yn yr wythnosau diwethaf. Nid yw'r fformiwla ar gyfer darogan llefydd gwag yn briodol ar gyfer pob ysgol wledig.
- Er bod yr adroddiad yn rhoi llawer o bwyslais ar godi safonau addysgol, ni ddarperir unrhyw dystiolaeth am y modd y bydd hyn yn cael ei wneud. Mae asesiad o'r canlyniadau dros gyfnod o dair blynedd yn dangos mai dim ond un disgybl o Ysgol Talwrn a fethodd â chyrraedd y lefel cyrhaeddiad o gymharu â 15 o Ysgol y Graig. Ysgol Talwrn sydd â'r canlyniadau gorau yn CA1 a CA2 ac mae data Lefel 6+ a phrofion cenedlaethol yn gryfach.
- Bod yr Awdurdod yn disgwyl defnyddio'r arian cyfalaf o werthiant Ysgol Talwrn fel cyfraniad tuag at estyniad Ysgol y Graig. O gofio nad yw cyflwr yr ysgol yn dda iawn



DRAFT

yn ôl yr Awdurdod ac o gofio bod gan berchennog Tŷ'r Ysgol hawliau mynediad dros dir yr ysgol ac y gallai'r ysgol fod yn destun prydles, gallai gwerth Ysgol Talwrn ar y farchnad agored fod yn gyfyngedig.

- Does dim sôn am gyllid Llywodraeth Cymru i wella ysgolion bach gwledig.
- Mae'r gost o £250k i osod ystafell ddosbarth symudol yn Ysgol Talwrn i weld yn hynod o uchel.
- Nad oes Cynllun Busnes llawn wedi ei gyflwyno i gefnogi'r cynnig.
- Bod pryderon am ddyfodol staff Ysgol Talwrn.
- Bod Ysgol yn Talwrn ers 1879 ac ychydig iawn sydd wedi'i fuddsoddi ynddi. Yn yr un cyfnod, cafwyd chwe ysgol yn Llangefni ac mae seithfed ar y gweill gyda'r estyniad arfaethedig newydd i Ysgol y Graig.
- Nad yw 2 lythyr a gafodd eu hysgrifennu gan bobl broffesiynol fel rhan o'r broses ymgynghori wedi eu cynnwys yn y ddogfennaeth; mae'r rhain yn codi nifer o bryderon dilys a gwrth-ddadleuon ac yn darparu sail ar gyfer yr argymhelliad blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini na ddylid cau Ysgol Talwrn. Fe ddylai'r Pwyllgor gael gweld cynnwys y llythyrau hynny.

Wrth ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaed fe ddywedodd y Prif weithredwr Cynorthwyol fod y mater o gais Rhyddid Gwybodaeth wedi'i godi yn un o'r sesiynau galw heibio a bod y Swyddog Addysg wedi cadarnhau iddi bod ateb wedi'i anfon at yr unigolyn a wnaeth y cais. Cadarnhaodd y Prif weithredwr Cynorthwyol hefyd fod yr Awdurdod wedi darllen ac ystyried pob llythyr a phob darn o wybodaeth a gyflwynwyd ac wedi ceisio mynegi eu sylwedd mewn dogfen sy'n ddarllenadwy a hawdd cael mynediad iddi. O ran gweithio allan nifer y lleoedd gweigion, dywedodd y darperir y fformiwla gan Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod disgyblion yn symud i mewn ac allan o ysgolion yn rheolaidd a bod ffigyrau Ysgol Talwrn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfnod penodol sef fel yr oedd ym mis Medi 2017. Dywedodd y Swyddog fod gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â chadarnhau materion yn ymwneud â pherchnogaeth y tir ac o ran staff addysgu, bod proses i'w dilyn mewn amgylchiadau lle bydd ysgol yn cau ac mae'r Awdurdod hefyd yn destun cyfyngiadau Rheoliadau Staffio. Mae'r amcangyfrif o'r gost ar gyfer ystafell ddosbarth symudol newydd wedi'i ddarparu gan brisiwr proffesiynol. Cydnabyddir, tra bo adeiladu ysgolion newydd yn golygu buddsoddiadau cyfalaf mawr, bod lleihau costau refeniw parhaus hefyd yn ffactor pwysig.

Mewn perthynas â'r cyfeiriad a wnaed yn ystod y cyflwyniad ar ran Ysgol Talwrn i ddau lythyr penodol a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori, cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod wedi darllen y ddau lythyr a'i fod yn ddiolchgar i'r awduron am gymryd yr amser i ymateb yn fanwl. Tra bo'r adroddiad yn crybwyll y llythyrau, nid yw'n cynnwys copi llawn ohonynt. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at un o'r llythyrau sy'n canolbwyntio ar faterion ariannol a nododd er ei fod yn gwneud rhai cyfraniadau dilys y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, ei fod hefyd yn cynnwys cyfraniadau nad ydynt yn ystyried yn llawn y fformiwla cyllid ysgolion ac nad yw'n rhoi'r darlun llawn e.e. nodwyd yr ariennir ysgolion ar sail niferoedd disgyblion yn unig – nid dyma'r sefyllfa. Mae ysgolion hefyd yn cael eu hariannu yn seiliedig ar eu maint a'u cyflwr, nifer y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r grantiau a dderbynnir. Yn ogystal, mae cyllidebau ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion mewn ysgol y mis Medi blaenorol a dyma wedyn yw'r gyllideb sefydlog ar gyfer y flwyddyn – nid yw'r llythyr yn cymryd ystyriaeth ddigonol o ffactorau fel hyn bob amser.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y llythyr y cyfeirir ato yn seiliedig ar ddealltwriaeth yr awdur o'r ffordd yr ariennir ysgolion ond nad yw'r wybodaeth yn gyflawn yn enwedig mewn perthynas â'r elfennau refeniw a chyfalaf o'r broses ariannu ysgolion sy'n effeithio ar y dadansoddiadau y mae'r awdur



DRAFT

wedi eu gwneud. Dywedodd y Swyddog y byddai'n hapus i drafod y mater hwn gyda'r unigolyn ac i ddarparu esboniad yn dilyn hynny.

Ar gais y Cadeirydd a ofynnodd am gadarnhad mewn perthynas â'r ymdriniaeth o ohebiaeth a dderbynnir fel rhan o'r broses ymgynghori ac a ddylai'r Pwyllgor gael ei weld, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mai'r gofyniad cyfreithiol yw i'r Swyddogion sy'n cynhyrchu'r adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini ac yna'r Pwyllgor Gwaith fod wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad beth bynnag eu fformat a'u bod wedi rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt yn yr adroddiad. Does dim gofyniad cyfansoddiadol cyfreithiol i gyhoeddi'r holl lythyrau a dderbyniwyd ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini neu'r Pwyllgor Gwaith. Petai'r Pwyllgor Sgriwtini yn dymuno hynny neu petai'r siaradwr cyhoeddus (Mr Islwyn Humphreys) yn dymuno cyflwyno'r llythyrau perthnasol i'r Pwyllgor a bod awduron y llythyrau yn cytuno i hynny, yna does dim rheswm pam na ddylai'r Pwyllgor eu gweld. Dywedodd y Swyddog, oni bai y cynhaliwyd y broses ymgynghori ar y sail y byddai'r holl ddogfennaeth yn cael ei chyhoeddi – ac yn achos yr ymgynghoriad moderneiddio ysgolion (yn wahanol i'r broses gynllunio) nid dyna'r sefyllfa, cynghorodd na ddylai'r Pwyllgor dderbyn y llythyrau mewn sesiwn agored gan nad oedd wedi cael caniatâd cadarn yr awduron i wneud hynny.

Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai Aelodau, gyda chaniatâd yr Awduron, gael mynediad i'r llythyrau ac y dylai hyn ddigwydd cyn cyfarfod 16 Gorffennaf yr Awdurdod lle bydd y mater hwn yn cael ei ystyried. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol petai unigolion yn nodi wrth ymateb drwy lythyr i ymgynghoriad eu bod yn hapus i'r ohebiaeth honno gael ei chyhoeddi.

Siaradodd y Cynghorwyr Nicola Roberts a Dylan Rees fel Aelodau Lleol.

Roedd y Cynghorydd Nicola Roberts yn cydnabod fod hwn yn benderfyniad anodd iawn. Dywedodd fod ganddi bryderon am y cynllun arfaethedig a'i bod wedi cwestiynu o'r dechrau ai dyma'r ateb gorau er mwyn gwella'r sefyllfa bresennol. Er bod y diffyg lle yn Ysgol y Graig yn broblem bron o'r dechrau nid oedd yn siŵr sut y byddai'r cynllun i godi dau floc arfaethedig yn gweithio mewn modd ymarferol o ran integreiddio disgyblion ac adnoddau. Hefyd, er bod sefyllfa'r traffig yn ardal uniongyrchol ysgol y Graig wedi gwella, a gynorthwywyd yn rhannol wedi i'r ysgol benodi swyddog i reoli'r traffig sy'n dod i mewn ac allan drwy fynedfa'r ysgol, mae'r sefyllfa yn strydoedd cyfagos a stadau tai ger yr ysgol yn parhau i fod yn broblem. Cyfeiriodd y Cynghorydd Nicola Roberts at Ysgol Talwrn fel ysgol gymunedol yng ngwir ystyr y gair gyda'r ysgol yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol, nodwedd yr oedd yn teimlo a oedd ar goll o Ysgol y Graig ar adegau. Mae darpariaeth yr addysg yn y ddwy ysgol hefyd yn wahanol iawn ac er y gall dosbarthiadau oedrannau cymysg yn Ysgol Talwrn brofi'n her ar adegau, roedd hi dal yn credu bod disgyblion yn cael addysg dda yn yr ysgol. Mae Ysgol Talwrn wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r gwelliant i'w briodoli i ymdrechion parhaus y Pennaeth, staff, y rhieni a'r gymuned. Dywedodd y Cynghorydd Roberts fod y bygythiad o gau sydd wedi wynebu Ysgol Talwrn ers nifer o flynyddoedd yn annheg a bod peidio â chyfuno'r ddwy ysgol pan adeiladwyd Ysgol y Graig er mwyn i blant yr ardal allu dechrau yn yr ysgol newydd gyda'i gilydd wedi bod yn gyfle a gollwyd. Roedd hi'n bryderus y gallai fod yn anodd i rai disgyblion addasu o fod yn Ysgol Talwrn i'r ddarpariaeth newydd yn Ysgol y Graig a phetai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo y byddai angen rhoi ychydig o amser o'r neilltu er mwyn helpu'r plant i addasu. Y plant fydd yn gorfod delio â'r newid hwn ac roedd hi'n gobeithio mai'r prif ffactor yn y sefyllfa hon oedd lles a llesiant y plant hynny, ac nid arian. Gofynnodd yr Aelod Lleol i Benaethiaid y ddwy ysgol gael eu hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.



DRAFT

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod cyfuno'r ddau floc yn fater i'r ysgol a Thîm Arweinyddiaeth yr Ysgol; nid yw'r trefniant dau floc yn rhywbeth newydd ac mae'n gweithio'n dda mewn ardaloedd eraill e.e. plant ysgol gynradd ar gampws ysgol uwchradd. Bydd yna adegau lle bydd yn briodol i blant o'r ddau floc ddod at ei gilydd ac ar adegau eraill bydd yn briodol iddynt fod ar wahân. Dywedodd y Swyddog, yn amodol ar gymeradwyo'r cynllun, bod yna nifer o elfennau cysylltiedig a fydd angen eu datrys mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid e.e. parcio staff ac ymwelwyr, rheoli traffig ac ati, ac y bydd y rhain yn destun asesiad effaith. Bydd yn rhaid i'r ddarpariaeth meithrin Dechrau'n Deg hefyd gael ei ystyried yng nghyd-destun beth sydd orau i'r ardal yn nhermau cynllunio lle. Cadarnhaodd y Swyddog fod cyllid yn ffactor yn y rhaglen moderneiddio ysgolion o ran nad yw'r gyfundrefn bresennol yn gynaliadwy a hynny yn rhannol oherwydd nad oes modd parhau â'r amrywiad amlwg mewn gwariant y pen rhwng ysgolion cynradd bach a mawr ar draws y sector cynradd. Mae'r moderneiddio hefyd yn digwydd mewn cyd-destun o leihad yng nghyllid y Cyngor a thoriadau gorfodol i gyllidebau; mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod gan yr Ynys ddarpariaeth addysg o safon uchel ar gyfer y ddegawd nesaf a thu hwnt tra ar yr un amser yn gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd o ran a ddylai hysbysu Penaethiaid ysgolion o benderfyniadau cyfarfodydd lle mae cynigion moderneiddio ysgolion yn cael eu hystyried, ddod yn fater o arfer dda, cynghorodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y dylid ystyried hyn ar sail achos wrth achos. Cytunodd y Pwyllgor y dylid hysbysu'r Penaethiaid o'r canlyniad yn yr achos hwn.

Siaradodd y Cynghorydd Dylan Rees, a oedd hefyd yn siarad fel Aelod Lleol, gan ddweud er ei fod yn cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion fod ganddo bryderon am yr ateb a gynigir ar gyfer ardal Llangefni. Dywedodd ei fod yn cael ei gydnabod mai un o brif yrwyr y rhaglen yw lleihau nifer y lleoedd gwag yn y sector cynradd a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny. Fodd bynnag, nid yw'r broblem lleoedd gwag yn bodoli yn ardal Llangefni fel sydd wedi'i ddangos gan y dystiolaeth a gyflwynwyd; y broblem yn Llangefni a'r prif reswm dros y cynigion a gyflwynwyd yw diffyg lle yn Ysgol y Graig gydag Ysgol Talwrn yn cael ei thynnu mewn i ateb y broblem. Cyfeiriodd y Cynghorydd Dylan Rees at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel ffactor nad oedd wedi'i grybwyll ond sy'n arwyddocaol o ran gorfodi Cynghorau i feddwl am effeithiau hirdymor eu penderfyniadau. Mae un o saith nodau llesiant y Ddeddf yn cyfeirio at "Gymru o gymunedau cydlynys". Mae'r Cyngor, ar y cyd â Chyngor Gwynedd wedi cynhyrchu Cynllun Llesiant sy'n cynnwys y saith nod llesiant ac sy'n cynnwys fel ei nod cyntaf, yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas ag Ysgol Talwrn yn pwysleisio y bydd cau'r ysgol yn lladd y gymuned; dywedodd y Cynghorydd Rees ei fod yn anghyfforddus iawn â'r effaith y gallai cau'r ysgol ei gael ar gymuned Talwrn a phetai'n mynd i lawr y llwybr hwn, nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Yn ogystal, nid oedd yn glir iddo fod gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i liniaru'r effaith ar y gymuned petai'r ysgol yn cau.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod yr Asesiad Effaith a gynhaliwyd yn delio ag Adran 2 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â chymunedau iach, ffyniannus, cydlynol a fwy cyfartal. Mae'r asesiad hefyd yn disgrifio patrymau lle, yn dilyn cau ysgol, mae cymunedau sydd gryn bellter o'r ysgol agosaf wedi llwyddo i ddod yn gryfach ac wedi ffynnu. Yn ei hanfod, mae disgwyl i gymunedau ddod yn fwy hunangynhaliol ac yn fwy gwydn ac mae hynny'n cyd-fynd â disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal, dylid hefyd ystyried Ysgol y Graig yn ysgol gymunedol o ran y byddai disgwyl iddi wasanaethu'r gymuned ehangach y mae Talwrn yn rhan ohoni.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at e-bost a anfonwyd gan Mr Huw Redvers Jones, Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol y Graig lle mae'n cadarnhau ei fod yn fodlon â'r broses ymgynghori ac nad yw'n dymuno ychwanegu at yr ymatebion a nodir yn yr adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Mae pryderon am yr effaith y gallai cau Ysgol Talwrn ei chael ar y gymuned a bywyd cymunedol yr ardal, sydd wedi'u mynegi'n glir. Nododd y Pwyllgor hefyd fod yr Awdurdod yn cydnabod y gall hyn fod yn her.
- Nad yw lleoedd gwag yn broblem uniongyrchol yn Ysgol Talwrn ar hyn o bryd.
- Mae capasiti annigonol a gwasgfa ariannol yn heriau yn Ysgol y Graig, sy'n cael effaith ar yr ysgol.
- Mae patrwm cyllido presennol yn yr ardal lle mae gwariant fesul disgybl yn Ysgol y Graig yn £3,395 o gymharu â £4,448 yn Ysgol Talwrn yn anghyfartal. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gall hyn achosi teimladau o annhegwch gyda'r syniad bod ysgolion llai yn derbyn cyfran anghyfartal o'r cyllid.

- Nodwyd hefyd y gwnaed awgrymiadau eraill yn ystod y broses ymgynghori mewn perthynas â delio ag Ysgol Talwrn ond nad oedd y rhain yn cael eu hystyried yn ymarferol oherwydd niferoedd y disgyblion dan sylw. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad am yr hyn a oedd yn cael ei ystyried fel y ffigwr gorau posibl ar gyfer ysgol gynradd hyfyw yn Ynys Môn.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod ysgol â 150 o ddisgyblion yn cael ei hystyried yn ysgol fach gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl cael 120 o ddisgyblion a 4 dosbarth. Dywedodd y Swyddog, wrth gyfeirio at hyfywdra ei bod hi hefyd yn cyfeirio at ôl-groniad y costau cynnal a chadw.

- Mai un o brif yrwyr y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yw codi safonau addysgol. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad sut y byddai'r cynllun arfaethedig yn cyflawni'r amcan hwn yn ardal Llangefni a'r prosesau cymorth a fyddai'n cael eu rhoi yn eu lle fel rhan o hynny.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod safonau ysgolion yn cael eu gyrru gan arweinyddiaeth a chapasiti rheolwyr. Mewn ysgol fwy, mae mwy o gyfle i'r Pennaeth a thîm rheoli'r ysgol gael amser digyswllt er mwyn eu galluogi nhw i roi sylw dyledus i faterion arweinyddiaeth. Hefyd, mae'r gwaith y mae GwE yn ymgymryd ag ef ochr yn ochr â'r Awdurdod mewn perthynas â gwella safonau addysgol yn golygu y byddai ond rhaid i'r gwasanaeth weithio ag un ysgol yn yr ardal yn lle dwy, gan arwain at well ffocws.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch capasiti yr Ysgol y Graig estynedig newydd fel y'i cynigir, yn enwedig o ystyried y datblygiadau newydd yn yr ardal.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol, wrth lunio ei gynigion moderneiddio ysgolion, fod yr Awdurdod yn gorfod ystyried datblygiadau tai sydd wedi'u cymeradwyo yn yr ardal yn ogystal â datblygiadau eraill sydd wedi'u cynllunio ac mai dim ond ar gyfer 10% o gapasiti ychwanegol y caniateir iddo gynllunio. Cadarnhaodd y Swyddog bod yr Awdurdod wedi ystyried y datblygiadau sydd wedi'u cymeradwyo a'u cynllunio ar gyfer yr ardal hon o Llangefni. Dywedodd y gallai Ysgol y Graig, gyda'r estyniad newydd, ddarparu ar gyfer dros 400 o blant.

- Mae dyfodol y staff addysgu yn Ysgol Talwrn yn bryder petai'r ysgol yn cau. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod proses yn bodoli ar gyfer delio â'r mater hwn.



DRAFT

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn nodi yn adran 7, y broses i'w dilyn mewn perthynas â materion staffio o ran adleoli a diswyddo.

Gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Prif Weithredwr –

- Mai nod yr Awdurdod yw sicrhau bod y ddarpariaeth addysg gynradd yn Ynys Môn yr orau y gall fod. Nid dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd.
- Bod angen i'r system addysg fod yn effeithiol ac effeithlon os yw am lwyddo yn y dyfodol. Nid yw'r naill beth na'r llall ar hyn o bryd.
- Bod ysgolion bach ac ysgolion mawr yn gallu bod yn llwyddiannus; mae'r ddwy ysgol o dan sylw – un fawr ac un fach, yn gwneud yn gymharol dda ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o brofiad, mae ysgolion bach yn ei chael hi'n anoddach delio â phethau annisgwyl ac maent yn llai gwydn.
- Bod perfformiad y ddwy ysgol yn dda gan felly roi sylfaen dda ar gyfer cyfuno'r ysgolion petai hynny'n cael ei gymeradwyo.
- Na fydd y cynnig yn arwain at greu ysgol anferth. Mae Ysgol y Graig yn ysgol fawr yn ôl safonau Ynys Môn ond nid o gymharu ag ysgolion cynradd mewn rhannau eraill o Gymru. Nid yw ychwanegu 40 o leoedd i Ysgol y Graig yn creu ysgol anferth.
- Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi anwybyddu lleisiau unigolion, yn enwedig yng nghymuned Talwrn. Gallai rhieni disgyblion Ysgol y Graig, petai nhw'n gwneud sylwadau yn y cyfarfod, wneud yr un achos iddyn nhw eu hunain. Mae'r Awdurdod wedi gwrando ar y sylwadau yn ofalus ac wedi darllen yr holl ohebiaeth a gyflwynwyd, ac mae wedi ceisio atgynhyrchu'r rhan fwyaf ohoni yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. Mewn perthynas â'r ddau lythyr penodol y cyfeiriwyd atynt yn ystod y trafodaethau, mae cynnwys un ohonynt wedi'i gyfeirio ato tra bod cynnwys y llall yn cael sylw yn yr adroddiad.
- Ei fod yn siomedig yr ystyrir bod yr adroddiad yn un unochrog. Mae'r Awdurdod wedi ceisio cyfleu asesiad cytbwys o'r sefyllfa mewn perthynas â'r ddwy ysgol.
- Bod 45% (19) o ddisgyblion Ysgol Talwrn o du allan i'r dalgylch. Nid yw hyn yn ddefnydd effeithlon o adnoddau ac mae'n rhoi'r ysgol mewn mwy o berygl o gael lleoedd gwag yn y dyfodol.
- Bod pryderon wedi eu codi am y ddyled y bydd yr Awdurdod yn ei chymryd wrth weithredu'r cynllun arfaethedig. Yn 2013, beirniadwyd yr Awdurdod gan Estyn am beidio â bod yn ddigon uchelgeisiol gyda'i raglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain. Dyma'r unig ffordd y gall yr Awdurdod gael mynediad i gyllid digonol er mwyn gallu adnewyddu ei ysgolion ac mae'n gyfle na fedr ei golli.
- Bod y defnydd o'r Gymraeg yn gryfder yn y ddwy ysgol.
- Er bod lliniaru'r effeithiau ar gymuned o gau ysgol yn her, does dim rhaid iddo arwain at ddiwedd cymuned. Mae yna gymunedau ar Ynys Môn sydd wedi colli eu hysgolion ond sydd wedi parhau i ffynnu a hynny drwy fod yn hunangynhaliol a drwy wneud defnydd o hen adeilad yr ysgol.
- Bod amrywiaeth o opsiynau eraill wedi eu hystyried. Nid yw cau ysgol yn argymhelliad a wneir heb ystyriaeth neu heb reswm. Fodd bynnag, wedi ystyried gwahanol opsiynau, barn y Swyddogion yw mai'r cynllun arfaethedig yw'r un mwyaf priodol ar gyfer yr ardal.

*Cynghorodd y Cadeirydd ar y pwynt hwn, fod y Pwyllgor bellach wedi bod yn mynd am dair awr ac o dan ddarpariaethau paragraff 4.1.10 o Gyfansoddiad y Cyngor, roedd rhaid cael penderfyniad gan fwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol i gytuno i barhau efo'r cyfarfod.* ***Penderfynwyd y dylai'r cyfarfod barhau yn dilyn egwyl fer.***

DRAFT

Yn dilyn nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor ei gynigion.

Fe gynigwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu derbyn, sef bod capasiti Ysgol y Graig yn cael ei gynyddu er mwyn lletya disgyblion Ysgol Talwrn ac y dylid cau Ysgol Talwrn. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r bloc presennol ar gyfer CA2 (h.y. blynyddoedd 3 i 6) a'i addasu; adeiladu 'Bloc' newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef y Dosbarth Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2 ac ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn campws Ysgol y Graig.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies welliant a eiliwyd, i'r perwyl fod y Pwyllgor yn argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn gohirio ei benderfyniad ar foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni (Y Graig a Talwrn) hyd nes y bydd y Cod Trefniadaeth ysgolion wedi'i fabwysiadu.

Yn y bleidlais a ddilynodd, pleidleisiodd 2 o blaid y gwelliant, a 7 yn erbyn.

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y gwelliant wedi methu.

Cyflwynodd y Cynghorydd Lewis Davies ail welliant a eiliwyd sef bod y Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod Ysgol Talwrn yn aros ar agor oherwydd y risg barhaus o orlenwi Ysgol y Graig ac hefyd oherwydd y cynnydd posibl yn y boblogaeth o ganlyniad i adeiladu 600 o dai yn ardal Llangefni yn unol â'r hyn sy'n cael ei dystio yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Yn y bleidlais a ddilynodd, pleidleisiodd 5 o blaid y gwelliant a 4 yn erbyn.

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y gwelliant wedi llwyddo ac mai dyma rwan oedd y cynnig swyddogol y byddai angen i'r Pwyllgor bleidleisio arno.

Nododd y Prif Weithredwr nad oedd yn glir am y sail dros ddweud fod risg y byddai Ysgol y Graig yn gorlenwi a gofynnodd am gadarnhad mewn perthynas â hynny.

Ar gais y Cadeirydd, cynghorodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, er y gall aelod o'r Pwyllgor gynnig argymhelliad heb dystiolaeth, argymhellir bod y cyfiawnhad dros yr argymhelliad yn cael ei gofnodi yn y cofnodion. Cynghorodd felly bod y rhesymau dros yr argymhelliad yn cael eu cadarnhau a bod y dystiolaeth yn cael ei nodi.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies mai ei resymeg tu ôl i'r cynnig oedd bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dangos bod 600 o dai ychwanegol ar eu ffordd i'r ardal. Hefyd, mae profiad wedi dangos yr adeiladwyd Ysgol y Graig heb digon o gapasiti a'i bod bellach yn llawn. Ar ben hyn bydd datblygiad Wylfa Newydd, sy'n debygol o ddod â mewnlifiad o bobl yn ystod y cyfnod adeiladu, ac yn dilyn hynny gallai nifer ohonynt ddewis byw yn Llangefni oherwydd ei fod yn lle hwylus ac yn agos i'r A55 ac y bydd yn rhaid darparu tai ar eu cyfer.

Cynghorodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ymhellach fod y rhesymau a roddwyd yn ddigonol i ddibenion y cofnodion ond y bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith archwilio'r cyfiawnhad yn dilyn cyngor gan Swyddogion pan fydd yn ystyried yr argymhelliad.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod Swyddogion wedi asesu effaith y tai newydd yn ardal Llangefni a bod y manylion hynny wedi eu cynnwys mewn adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn. Mae nifer o'r 600 o dai arfaethedig eisoes wedi eu hadeiladu a beth bynnag, maent yn berthnasol i ysgol gynradd arall mewn rhan arall o Llangefni.



DRAFT

Aeth y Pwyllgor ymlaen i bleidleisio ar y cynnig h.y. ail welliant y Cynghorydd Lewis Davies fel y cafodd ei gyfiawnhau ganddo. Yn y bleidlais a ddilynodd, pleidleisiodd 4 o blaid ac fe bleidleisiodd 5 yn erbyn.

Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cynnig wedi methu.

Yna pleidleisiodd y Pwyllgor ar y cynnig gwreiddiol h.y. bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu derbyn. Yn y bleidlais a ddilynodd, pleidleisiodd 4 o blaid ac fe bleidleisiodd 4 yn erbyn, gydag un yn atal ei bleidlais. Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw er mwyn pleidleisio yn erbyn y cynnig.

**Yn dilyn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac yn ysgrifenedig, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol -**

- **I beidio â derbyn argymhellion y Swyddog yn yr adroddiad.**

- **I argymell fel a ganlyn mewn perthynas â'r broses adrodd yn y dyfodol –**

  - **Bod unrhyw faterion o ran perchnogaeth tir yn cael eu cadarnhau ymlaen llaw.**
  - **Bod gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu mewn perthynas â materion trafnidiaeth ysgol a materion parcio.**
  - **Lle mae siaradwyr cyhoeddus yn annerch y Cyfarfod ar ran ysgol; yn cyfeirio at ohebiaeth benodol a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori, bod yr ohebiaeth ar gael i'r Pwyllgor ar yr amod fod yr awduron yn rhoi eu caniatâd.**

**GWEITHRED YCHWANEGOL: Yn dilyn y cyfarfod, bod Penaethiaid Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn cael eu hysbysu o ganlyniad trafodaethau'r Pwyllgor.**

**Cynghorydd Aled M. Jones**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled M. Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, Nicola Roberts.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **YN PRESENOLDEB** : | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU** : | Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, J. Arwel Roberts, Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio** : Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), RG Parry , OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), John Griffith.<br><br>**Swyddogion** : Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Busnes<br><br>**Siaradwyr Cyhoeddus: Ysgol Llangoed** - Dr Ruth Parry (Cadeirydd Dros Dro y Corff Llywodraethol), Mrs Katie Jones (Rhieni), Mrs Delyth Jones (Cyngor Cymuned) **Ysgol Biwmares** - Emma Taylor (Cadeirydd y Corff Llywodraethol), Rhian Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Ymateb ), Y Cynghorydd Jason Zalot (Maer), y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Cyngor Tref) |



DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan gynnwys Aelodau, Swyddogion a chynrychiolwyr Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares.

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Alun Roberts ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda fel aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares.

Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol) ddiddordeb personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Llandegfan a hefyd ar sail cyflogaeth ei wraig a'i fam yn Ysgol Llandegfan a chyflogaeth ei gyfneither yn Ysgol Biwmares. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei fod wedi cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau ar 18 Gorffennaf, 2017 i gynrychioli'r safbwynt lleol trwy gydol y broses.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies wrth y Pwyllgor ei fod wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Llangoed oherwydd ei fod yn dymuno bod yn wrthrychol yn y broses ymgynghori.

**2 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL SEIRIOL**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - Adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Gwella Cymunedau a Gwasanaethau) yn cynnwys adroddiad ar ganlyniad yr Ymgynghoriad Statudol ar ailgyflunio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol (Ysgol Llandegfan, Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares) a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod o 22 Mai, i 2 Gorffennaf, 2018.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant fod y broses o foderneiddio ysgolion yn golygu asesu a phwyso a mesur dyfodol ysgolion a'r effaith a gaiff hyn ar rieni, plant, athrawon, llywodraethwyr ysgol ac ystod o randdeiliaid eraill. Gall fod yn fater cynhennus; mae'n dasg heriol i'r Cyngor ac mae'n fater sy'n peri pryder i rieni a rhanddeiliaid ac roedd yn deall y pryder hwnnw. Fodd bynnag, yr hyn sydd dan ystyriaeth yw dyfodol ysgolion am y 50 mlynedd nesaf efallai; gwasanaeth ysgolion sy'n gwegian dan bwysau toriadau ariannol; ôl-groniad cynnal a chadw, gofynion y cwricwlwm yn ogystal â nifer o faterion eraill. Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth ddifrifol i wneud y system ysgolion yn fwy effeithiol er mwyn creu amgylchedd lle gall y disgyblion a'r athrawon lwyddo, a hefyd i'w gwneud yn fwy effeithlon fel bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod pob ysgol yn cael cyfran deg o'r gyllideb. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod cyflwyno'r Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif 21ain lle mae Llywodraeth Cymru yn barod i gyfrannu hanner cost prosiectau i adnewyddu neu ailadeiladu ysgolion a cholegau yng Nghymru yn gyfle i resymoli a moderneiddio stoc ysgolion cynradd Ynys Môn ac i greu ysgolion o safon uchel ar gyfer y genhedlaeth hon ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Ni fydd yr arian hwn ar gael am byth.

Er mai’r tair ysgol yn ardal Seiriol yw canolbwynt y drafodaeth yn y cyfarfod hwn, maent yn rhan o'r darlun mwy sy'n cynnwys Ynys Môn yn gyfan a'r Gwasanaeth Addysg. Mae'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Addysg yn 40% o gyllideb gyffredinol y Cyngor; mae'r Gwasanaeth yn wynebu gorfod gwneud arbedion o £ 5.2m dros y 3 blynedd nesaf. Er bod y Cyngor yn y gorffennol wedi ceisio amddiffyn Addysg rhag toriadau cyllidebol, ni all barhau i wneud hynny. Ystyriaeth ychwanegol yw cost ôl-groniad cynnal a chadw'r ysgolion sy’n £ 16m. Mae'r pwysau ariannol y mae'r Awdurdod hwn ac awdurdodau eraill yn ei ddioddef i’w briodoli i agenda lymder barhaus Llywodraeth San Steffan. Dywedodd yr Aelod Portffolio er nad yw cau ysgol yn benderfyniad y mae unrhyw un eisiau ei wneud, nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy a rhaid i'r Awdurdod weithredu'n rhesymol. Nod y Rhaglen



DRAFT

Moderneiddio yw gwella canlyniadau addysgol i blant; gwella safonau arweinyddiaeth ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu a sicrhau bod ysgolion blaenllaw yn y sector ym mhob ardal. Mae'r gyrwyr newid yr un fath ag yr oeddent ar gyfer ymgynghoriadau blaenorol ac maent yn cynnwys gwella safonau a chyrhaeddiad addysgu, gan leihau'r amrywiad o ran cost fesul disgybl, a sicrhau bod digon o Benaethiaid ar gael ar gyfer y dyfodol. Cydnabu'r Aelod Portffolio fod gan Aelodau Etholedig rôl ddeuol yn y broses moderneiddio ysgolion sy'n cynnwys dyletswydd i'w cymunedau unigol ond hefyd ddyletswydd i roi cyfeiriad i'r Cyngor trwy gyfarwyddyd cadarn a chlir. Diolchodd i bawb a gyfrannodd at y broses ymgynghori naill ai trwy fynychu'r sesiynau galw heibio neu drwy ddulliau eraill o gyfathrebu.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol at Adran 10 yr adroddiad lle nodir y materion a godwyd gan randdeiliaid o'r tair ysgol wrth ymateb i'r broses ymgynghori ac ymateb yr Awdurdod i'r materion hynny. Gellir crynhoi'r materion hynny yn ogystal â pherfformiad yr ysgolion yn erbyn y gyrwyr newid fel a ganlyn -

- **Ysgol Llandegfan**
  - Mae rhywfaint o wahaniaeth ym mherfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 dros y tair blynedd ddiwethaf. O safbwynt yr arolygiad, gellid dadlau bod proffil arolygu Ysgol Llandegfan yn gryfach nag Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares gyda pherfformiad yn erbyn pob dangosydd a aseswyd yn dda ac eithrio un a oedd yn cael ei ystyried fel Digonol.
  - Mae'r gwariant fesul disgybl yn yr ysgol yn £ 3,589 sy'n is na chyfartaledd Cymru (£ 3,690) a chyfartaledd Ynys Môn (£ 3,972) ac mae hefyd yn llai na'r gwariant fesul disgybl yn y ddwy ysgol arall. Mae Ysgol Llandegfan yn derbyn £ 58,982 llai o arian na chyfartaledd yr Awdurdod.
  - Y costau ôl-groniad cynnal a chadw yn yr ysgol yw'r isaf o'r tair ysgol, sef £ 86,000.
  - Ym mis Ionawr 2018 roedd 154 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n golygu ei bod dros ei chapasiti o 145 ac nid oes ynddi lefydd gwag.
  - Mae'r gofynion o ran arweinyddiaeth a rheolaeth wedi cynyddu'n sylweddol a disgwylir iddynt ddwysau yn y dyfodol; mae'r Awdurdod o'r farn y dylai Prif Athrawon gael o leiaf 60% o amser di-gyswllt er mwyn bodloni'r gofynion. Ar hyn o bryd, mae Pennaeth Ysgol Llandegfan yn cael 60% o amser di-gyswllt.
  - Mae 43% o ddisgyblion Ysgol Llandegfan yn siarad Cymraeg gartref.
  - Nodwyd traffig fel problem yn yr ysgol. Ymdrinnir â hyn fel rhan o'r Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd.

- **Ysgol Llangoed**
  - Mae perfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf. Roedd yn y chwartel isaf yn 2016 ac yn y chwartel uchaf yn 2017. Mae perfformiad yr ysgol yn CA2 wedi bod yn y chwartel isaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd proffil arolwg yr ysgol yn adlewyrchu Graddau Digonol ar y cyfan. Yn dilyn yr arolygiad yn 2014/15, dychwelodd Estyn ar ymweliad monitro ym Mehefin 2016 a daeth i'r casgliad bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da ar faterion allweddol i'w gweithredu arnynt yn dilyn yr arolygiad ac nad oedd angen unrhyw fonitro pellach arno.
  - Mae'r gwariant fesul disgybl yn yr ysgol yn £ 4,077 sy'n uwch na chyfartaleddau Môn a Chymru. Mae Ysgol Llangoed yn derbyn £ 8,190 yn fwy o arian na chyfartaledd yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 .
  - Costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn yr ysgol yw £ 107,000.



DRAFT

- Ym mis Ionawr, 2018, roedd 78 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda 20 (20%) o lefydd gwag. Mae'r rhagamcanion yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn yr ysgol yn gostwng yn ystod y cyfnod hyd at 2023.
- Ar hyn o bryd mae Pennaeth Ysgol Llangoed yn cael 40% o amser di-gyswllt.
- Yn yr ysgol hon y mae'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref, sef 46%.
- Nodwyd yn y broses ymgynghori mai Ysgol Llangoed sy'n gwario leiaf ar danwydd a chanddi hi hefyd mae'r allyriadau carbon isaf. Byddai cau'r ysgol yn arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon.

- **Ysgol Biwmares**

- O ran perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen, bu'r ysgol yn y chwartel uchaf am ddwy o'r tair blynedd diwethaf ac yn y chwartel isaf yn y flwyddyn arall. Mae ei pherfformiad yn CA2 wedi bod yn amrywiol ac yn gyffredinol, mae ei phroffil perfformiad yn debyg i un y ddwy ysgol arall. Mae proffil arolygu'r ysgol yn debyg i Ysgol Llangoed, ac fel Ysgol Llangoed, cafodd ymweliad monitro gan Estyn ym mis Mawrth 2015 hefyd pan aseswyd ei bod wedi gwneud cynnydd da ar faterion allweddol yr oedd angen gweithredu arnynt yn dilyn yr arolygiad ac nad oedd angen ei monitro ymhellach.
- Y gwariant fesul disgybl yn yr ysgol yw'r uchaf o'r tair ysgol sef £ 5,976 ac mae'n llawer uwch na chyfartaledd Ynys Môn a Chymru. Derbyniodd Ysgol Biwmares £ 80,160 mwy o gyllid na chyfartaledd yr Awdurdod ar gyfer 2017/18, sef patrwm sydd wedi bodoli ers sawl blwyddyn.
- Costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn yr ysgol yw £ 936,000 sef yr uchaf o'r tair ysgol ac mae hyn yn adlewyrchu cyflwr adeilad yr ysgol. Aseswyd cyflwr yr adeilad fel gradd C yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan Syrfewyr y Cyngor rhwng diwedd 2015 a ddechrau 2016. Mae Gradd C yn dynodi bod yr adeilad mewn cyflwr gwael gyda nifer o ddiffygion y mae angen rhoi sylw iddynt.
- Ym mis Ionawr, 2018 roedd 40 o ddisgyblion yn Ysgol Biwmares gyda 103 (72%) o lefydd gwag. Roedd 8 neu 17% o'r disgyblion yn dod o'r tu allan i'r dalgylch tra roedd 34 neu 72% o ddisgyblion o'r dalgylch yn mynychu ysgolion cynradd eraill. Mae'r rhagamcanion yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn yr ysgol yn cynyddu yn y cyfnod hyd at 2023.
- Ar hyn o bryd,  mae gan Pennaeth Ysgol Biwmares yn cael 30% o amser di-gyswllt.
- Canran y disgyblion yn yr ysgol sy'n siarad Cymraeg gartref yw'r isaf o'r tair ysgol, sef 20%.
- Mae gwariant yr ysgol ar danwydd a thrydan yn uwch nag yn Ysgol Llangoed, felly hefyd yr allyriadau carbon deuocsid.
- Yn ystod y broses ymgynghori, codwyd nifer o bwyntiau -

  - Dyfodol y ddarpariaeth cyn-ysgol. Gyda datblygiadau o'r fath, mae cyfleusterau cyn-ysgol yn cael eu hystyried bob amser fel rhan o'r strategaeth addysg ar gyfer yr ardal.
  - Cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i brosiect Wylfa Newydd. Er gwaethaf y ffaith y gallai rhai gweithwyr ymgartrefu yn yr ardal, byddai angen i nifer sylweddol o deuluoedd gyda phlant o oedran ysgol gynradd wneud hynny i wneud Ysgol Biwmares yn hyfyw.
  - Mae'r costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn ormodol. Mae'r rhain o ganlyniad i arolwg cyflwr a gynhaliwyd gan Syrfewyr y Cyngor. Hyd yn oed pe byddai cyfanswm y gost yn cael ei haneru, byddai'r ffigwr yn parhau i fod yn sylweddol ac yn anfforddiadwy.

- Mae'r Cyngor wedi troi ei gefn ar ardal Seiriol a llawer o'i chyfleusterau. Mae'r Cyngor wedi cydweithio â grwpiau yn yr ardal ar drosglwyddo asedau ac, yn yr hinsawdd ariannol gyfredol, bydd hyn yn digwydd yn fwyfwy ar draws yr Ynys yn y dyfodol.
- Pe bai Ysgol Biwmares yn cau, ni fydd rhieni o reidrwydd yn anfon eu plant i Ysgol Llangoed. Cydnabyddir hyn ac mae'n fater o ddewis rhiant.
- Bydd cau'r ysgol yn effeithio ar ddemograffeg y dref gan olygu y byddai'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn hŷn. Mae'r Cyngor yn gweithio ar geisio adfywio Biwmares. Mae'n un o ddeg ardal sydd wedi'u clustnodi ar gyfer rhaglen adeiladu tai cyngor.
- Mae opsiynau amgen wedi'u cyflwyno. Mae'r rhain i gyd wedi'u hystyried a'u gwerthuso fel y nodir yn adran 10.5 ac yn yr atodiad i'r adroddiad.

Dywedodd y Swyddog fod gohebiaeth wedi'i derbyn gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Ynys Môn, a chan Gyngor Tref Biwmares sy'n tynnu sylw at ddiffyg unrhyw opsiwn a fyddai'n gweld cadw'r tair ysgol neu adeiladu ysgol newydd, ac yn datgan bod ardal Seiriol yn haeddu'r un math o fuddsoddiad ag ardaloedd eraill ar yr Ynys. Nododd y Swyddog fod buddsoddiad yn Seiriol, er efallai i raddau llai nag yng Nghaergybi neu Langefni sydd wedi elwa ar arian grant gan Ewrop a Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd y Swyddog, pe bai'r cynigion yn yr adroddiad yn cael eu derbyn, byddai dwy o ysgolion cynradd yr ardal yn cael eu huwchraddio i safonau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Ystyriwyd yr opsiwn o ysgol newydd ond oherwydd diffyg tir addas, roedd yr opsiwn hwn yn anymarferol. Cyfeiriodd y Swyddog hefyd at yr ystyriaethau ariannol sy'n ffactor pwysig yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Wrth i'r pwysau ar gyllideb y Cyngor ddwysau, ni fedr gynnal nifer fawr o adeiladau ysgolion sy'n heneiddio. O safbwynt ariannol, Opsiwn 1 yw'r mwyaf manteisiol; byddai cadw'r tair ysgol yn agored yn golygu gwario £ 1.129m o arian y Cyngor heb unrhyw dderbyniadau cyfalaf i wrthbwyso'r gwariant. Byddai hefyd yn arwain at gostau refeniw ychwanegol o £ 87,159.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan y Swyddog ynghylch nifer ragamcanedig y plant ychwanegol a fyddai'n dod i fyw ar yr Ynys yn sgil prosiect Wylfa Newydd o gymharu â phan godwyd Gorsaf Bŵer wreiddiol Wylfa. Dywedodd y Swyddog, er nad oedd data cymharol ganddi wrth law, yn seiliedig ar drafodaethau ac ar ddogfennaeth Horizon, rhagwelir y bydd 230 o deuluoedd yn symud i'r Ynys yn ystod y cyfnod adeiladu o 10 mlynedd a mwy ar brosiect Wylfa Newydd ac y disgwylir i'r mwyafrif ohonynt ymgartrefu tua Gogledd yr Ynys. Bydd llawer o weithwyr yn aros am gyfnodau byr gan ddibynnu os a phryd y byddai angen eu harbenigedd.

Darllenodd y Cadeirydd lythyr dyddiedig 12 Gorffennaf, 2018 a gyflwynwyd gan yr Aelod Seneddol ar gyfer Ynys Môn yn dweud fod trigolion yn pryderu fod y broses ymgynghori yn ddiffygiol ac nad yw'n adlewyrchu'r pryderon a godwyd yn yr ymarferiad ymgynghori gwreiddiol, ac nad yw'n ystyried sylwadau'r preswylwyr fod Seiriol yn haeddu yr un buddsoddiad â'r hyn a gynigiwyd i ardaloedd eraill ar Ynys Môn sydd wedi mynd drwy'r broses foderneiddio h.y. yr opsiwn o ysgol newydd yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r llythyr yn mynd rhagddo i ddweud, hyd oni fydd hynny'n digwydd, dylid gohirio'r cynigion a chadw'r tair ysgol ar agor tra'n edrych am safle yn y dyfodol i gynnal ysgol newydd, addas i'r pwrpas. Mae'r llythyr yn dod i ben trwy ddweud bod ardal Seiriol yn haeddu ateb arloesol i foderneiddio ysgolion yn y dyfodol ac nad yw'r ateb hwnnw wedi ymddangos yn yr ymgynghoriad presennol na'r ymgynghoriad blaenorol.

Anerchodd Emma Taylor (Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Biwmares), Rhian Jones (Cadeirydd Pwyllgor Ymateb Ysgol Biwmares a Chynghorydd Tref), y Cynghorydd Jason Zalot (Maer Biwmares) a'r Cynghorydd Alwyn Rowlands (Cyngor Tref Biwmares) oll y



DRAFT

Pwyllgor yn mynegi eu barn ar y cynigion ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Seiriol. Gwnaethant yr achos ynghylch pam, yn eu barn hwy, na ddylai **Ysgol Biwmares** gau ac wrth wneud eu sylwadau, dygwyd y pwyntiau canlynol at sylw'r Pwyllgor -

- Mae'r rhanddeiliaid yn Ysgol Biwmares yn deall pam mae'r Awdurdod wedi penderfynu ymgynghori ar ddyfodol addysg gynradd ar Ynys Môn ac yn ardal Seiriol ac maent yn deall yr angen am newid i leihau costau a sicrhau bod y stoc ysgolion yn gyfoes. Maent hefyd yn derbyn na all pethau aros fel y maent a dyna pam yr oeddent yn ystod yr ymgynghoriadau anffurfiol a ffurfiol wedi bod yn gweithio'n rhagweithiol i ddod o hyd i atebion hyfyw sy'n mynd i'r afael â gyrwyr newid yr Awdurdod tra'n cwrdd â dymuniadau'r trigolion a'r gymuned i ddarparu'r ysgol orau a’r addysg orau ar gyfer disgyblion rŵan ac yn y dyfodol.
- Bod y rhanddeiliaid yn Ysgol Biwmares yn amau cywirdeb y ffigwr a nodir gan yr Awdurdod ar gyfer costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw (£ 936k). Datgelodd dadansoddiad y gofynnwyd amdano o’r ffigwr hwn fod costau o £ 310k na ellir oherwydd eu natur eu diffinio fel ôl-groniad ac na ddylent o’r herwydd gael eu cynnwys. Mae cymryd y ffigwr hwn allan yn golygu mai'r uchafswm o ran yr ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer yr ysgol yw £ 636k; mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar y cyfrifiadau yn yr arfarniad ariannol o'r pedwar opsiwn a gynhwysir yn adran 6 yr adroddiad sy'n arwain at asesiad mwy realistig gyda'r canlyniad terfynol y dylai Opsiwn 3b (cadw Llandegfan a Biwmares ar agor a chau Llangoed) arwain at arbedion refeniw yn hytrach na chostau refeniw ychwanegol.
- Yn achos Opsiwn 2 (cadw'r tair ysgol ar agor ond ffederaleiddio Llangoed a Biwmares) er bod yr Awdurdod yn datgan bod angen moderneiddio'r ysgolion er mwyn dod â nhw i safonau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, nid yw'r gost o wneud hynny wedi cael ei chynnwys er y gellir tybio y byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y gost yn seiliedig ar y datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Ebrill y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gost adnewyddu ysgolion sy'n bodoli eisoes o dan delerau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn ogystal ag adeiladu ysgolion newydd. Er y gallai hyn gynyddu cost gyfalaf yr opsiwn hwn, byddai'n cymharu’n ffafriol ag Opsiwn 3a.
- Bod y ffigwr a roddir ar gyfer gwariant cyfartalog fesul disgybl yn Ynys Môn yn groes i'r hyn a ddywedwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol am yr un cyfnod ac yn groes hefyd i’r swm a ddyfynnwyd gan Lywodraeth Cymru o ran gwariant cyllideb awdurdodau lleol am yr un cyfnod, sydd, ill dau yn nodi bod y gwariant cyfartalog fesul disgybl ar gyfer Ynys Môn yn £ 4,560.
- Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau eraill y Cyngor (Tîm Dysgu Dan 5 oed a Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant Gwynedd a Môn) yn defnyddio rhan o adeilad yr ysgol heb wneud cyfraniad ariannol i gyllideb yr ysgol. Mae gorbenion y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnwys yn y gwariant fesul disgybl gan gynyddu'r ffigwr mewn modd annheg. Mae'r Corff Llywodraethol wedi gostwng costau'r gyllideb gyffredinol gan 10% rhwng 2016/17 a 2017/18 gan leihau'r gost fesul disgybl. Gyda’r disgwyliad y bydd niferoedd y disgyblion yn codi dros y pum mlynedd nesaf, mae'r ysgol yn disgwyl i'r ffigwr ar gyfer gwariant fesul disgybl fod yn llawer tebycach i ffigur cyfartalog yr Awdurdod.
- O ran nifer y disgyblion sy'n gadael y dalgylch i fynychu ysgol mewn mannau eraill, mae gan Biwmares hanes o ddisgyblion yn mynychu ysgolion preifat - mae o leiaf 10 o blant o'r dalgylch yn mynychu Ysgol Gynradd Annibynnol Treffos. Yn ogystal, mae 5 o blant yn mynychu Ysgol Gatholig Ein Harglwyddes ym Mangor. Mae'r rhain felly yn cyfrif am bron i hanner y nifer a nodir fel plant sy’n mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch. Mae'n bosibl nad oes unrhyw beth y gall yr ysgol na'r Awdurdod ei wneud i newid y sefyllfa hon gan

DRAFT

fod y rhieni wedi gwneud dewis penodol. Mae'r risg o gau sydd wedi bod yn hongian dros yr ysgol ers yr ymgynghoriad cychwynnol yn 2012 hefyd wedi dylanwadu ar ddewis rhieni ac, o ganlyniad, mae wedi effeithio ar nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol.

- Mae'r Corff Llywodraethol wedi bod yn ymwybodol fod rhieni yn anfon eu plant i lefydd eraill ac wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater trwy siarad â rhieni i sefydlu'r rhesymau dros eu dewis e.e. darperir gofal am gyfnodau hwy yn yr ysgolion mewn ardaloedd eraill. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi ailgyflwyno ei chlwb ar ôl ysgol a bu'n gweithio gyda'r Mudiad Meithrin i sefydlu cylch Ti a Fi sydd bellach â 43 o blant, sef y cylch mwyaf ar yr Ynys.
- Mae sefydlu cyfleuster Gofal Ychwanegol ar safle'r ysgol yn gyfle i gyd-leoli'r ddau wasanaeth mewn ffordd a fydd o fudd i'r ddwy genhedlaeth ac a all arwain at arbedion cost i'r Awdurdod. Mae digon o le ar safle'r ysgol ar gyfer ysgol newydd ar gyfer 120 o blant yn ogystal â'r cyfleuster Gofal Ychwanegol. Cynigiwyd yr ateb arloesol hwn yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol ac fe'i cefnogwyd gan rieni a'r gymuned er nad yw safle'r ysgol yn lleoliad delfrydol ar gyfer darpariaeth Gofal Ychwanegol. Mae ymholiadau cychwynnol wedi dangos y gallai cynllun fel hwn neu elfennau ohono hefyd ddenu cyllid gan y Loteri Fawr.
- Mae rhanddeiliaid Ysgol Biwmares yn credu bod yr Awdurdod yn gwneud camgymeriad drwy beidio â darganfod, cyn gwneud penderfyniad, i ble y byddai rhieni'r disgyblion presennol yn anfon eu plant petai Ysgol Biwmares neu Ysgol Llangoed yn cau. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ysgolion o'r maint cywir yn y mannau cywir. Ar adeg yr ymgynghoriad diwethaf, dosbarthodd Corff Llywodraethol Ysgol Biwmares holiadur i rieni plant yn yr ysgol er mwyn sefydlu i ba ysgol y byddent yn anfon eu plant petai Ysgol Beaumaris yn cau. Dim ond 2 ddywedodd y byddent yn ystyried anfon eu plant i Ysgol Llangoed a 6 i Ysgol Llandegfan oherwydd yr anhwylustod o orfod mynd allan o'u ffordd ar y ffordd i'w gwaith. Am y rheswm hwn, dywedodd 7 y byddent yn anfon eu plant i Ysgol y Borth a dywedodd 8 y byddent yn dewis ysgol ym Mangor. Byddai'n anodd derbyn fod plant yn gadael yr Ynys i gael eu haddysg oherwydd bod ysgol yn cau.
- Os cymeradwyir Opsiwn 1, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn gwario swm sylweddol o arian ar ysgol ble rhagwelir y bydd ei niferoedd yn gostwng dros y blynyddoedd nesaf ac un na fyddai yn elwa o gael disgyblion yn sgil cau Ysgol Biwmares. O ganlyniad, gallai'r Awdurdod fod yn ailedrych ar y mater hwn mewn ychydig flynyddoedd ac yn gorfod ystyried cau Ysgol Llangoed.
- Nad oes unrhyw gynlluniau dangosol ar gyfer adeilad Ysgol Biwmares pe bai'r ysgol yn cau; fel adeilad rhestredig, byddai ei gynnal a'i gadw'n costio i'r Cyngor.
- Mae prosiect Wylfa Newydd yn debygol o ddod â theuluoedd ychwanegol i'r ardal a bydd angen darpariaeth addysg ar gyfer eu plant.
- Am y rhesymau hyn mae Corff Llywodraethol a rhanddeiliaid Ysgol Biwmares yn gwrthwynebu Opsiwn 1 yn gryf.

Wrth ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaethpwyd, dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod y ffigwr ar gyfer costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw wedi'i ddarparu gan Wasanaethau Eiddo'r Cyngor. Mae'r costau posibl yn cynnwys gwaith sy'n debygol o fod angen ei wneud ond nad ydyw wedi cael ei drefnu hyd yma e.e. mae problemau o ran gwresogi'r ysgol sy'n golygu y bydd angen bwyler newydd rhywbryd gyda chost hynny'n sylweddol. Gallai cydleoli'r cyfleuster Gofal Ychwanegol ac ysgol ar gyfer 120 o ddisgyblion fod yn broblem o ran y gofod sydd ar gael a hefyd oherwydd y gofynion penodol a bennir gan Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain o ran tir a gofod.

Nododd y Pwyllgor y byddai arolwg o farn rhieni ynghylch yr ysgol y byddent yn ei dewis petai naill ai Ysgol Beaumaris neu Ysgol Llangoed yn cau wedi bod o gymorth oherwydd y gallai hynny ddylanwadu ar y penderfyniad. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol nad oedd yr Awdurdod wedi cynnal arolwg o'r fath gan na fyddai'r wybodaeth o ymarfer o'r fath yn debygol o fod o gymorth mawr oherwydd na fyddai pob rhiant wedi ymateb ac mae dewisiadau'r rheini sydd yn ymateb yn gallu, ac yn, newid.

Anerchodd Dr Ruth Parry (Cadeirydd Dros Dro Corff Llywodraethol Ysgol Llangoed), Mrs Katie Jones (Rhieni Ysgol Llangoed) a Mrs Delyth Jones (Cyngor Cymuned) y Pwyllgor gan fynegi eu barn ar y cynigion ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Seiriol. Gwnaethant yr achos dros pam na ddylai **Ysgol Llangoed** gau yn eu barn hwy, ac wrth wneud eu sylwadau, dygwyd y pwyntiau canlynol at sylw'r Pwyllgor -

- Opsiwn 1 yw'r opsiwn mwyaf rhesymol o ran cwrdd â gyrwyr newid a chyflawni arbedion refeniw.
- Mae'r ffeithiau yn ffafrio cadw Ysgol Llangoed. Mae hyn oherwydd bod y gwariant fesul disgybl yn Ysgol Llangoed yn llai na'r gwariant yn Ysgol Biwmares ac mae nifer y llefydd gwag hefyd yn is. Mae niferoedd disgyblion yn Ysgol Llangoed wedi bod yn gyson ers blynyddoedd lawer. Mae cyflwr adeilad yr ysgol wedi'i raddio'n B sy'n dda ac mae'r costau ôl-groniad ar gyfer cynnal a chadw yn debyg i gostau Ysgol Llandegfan. Mae nodweddion amgylcheddol yr ysgol yn dda.
- Mae Ysgol Llangoed mewn lleoliad da ac mae'n hwylus.
- Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac yn nodi y bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn rhoi blaenoriaeth i gryfhau a gwarchod yr Iaith Gymraeg. Bu gan Ysgol Llangoed ethos Gymreig gref erioed sy'n ddeniadol i rieni sydd am i'w plant ddysgu'r iaith.Byddai trosglwyddo plant o ardal gymharol Seisnig i ardal Gymreig yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn hytrach na fel arall.
- Nid oes unrhyw ddata concrid ar gael i gefnogi'r rhagolygon ar gyfer niferoedd disgyblion hyd at 2023 ac ni ellir darogan yn gywir symudiad plant a theuluoedd i mewn ac allan o ardal.
- Mae Ysgol Llangoed yn ysgol gynradd ffyniannus sydd wrth wraidd ei chymuned ac sy'n cynhyrchu canlyniadau academaidd da a phlant hapus, iach a chyflawn. Mae'n ysgol ofalgar lle mae'r staff yn cymryd yr amser i ddeall anghenion unigol sy'n ffactor perthnasol yng nghyd-destun y fframwaith arolygu sy'n rhoi pwyslais ar bwysigrwydd profiadau plant a'r cyfraniad a wneir gan yr amgylchedd i'w diogelwch, eu hagwedd tuag at ddysgu a'u lles.
- Mae Ysgol Llangoed yn rhan o Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru ac mae wedi ennill safon aur am fod yn ysgol werdd, eco-gyfeillgar. Dysgir y plant am fanteision bwyta'n iach a chynaladwyedd ac mae'r ysgol yn mynd ati yn egnïol i hyrwyddo ffordd iach o fyw trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau chwaraeon.
- Mae Ysgol Llangoed yn gynhwysol ac mae ganddi ddarpariaeth ardderchog ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae'n hwylus i'r anabl.
- Mae Llangoed fel pentref yn datblygu i fod yn gymuned ifanc ffyniannus, yn enwedig yn dilyn datblygu stad o dai newydd - Stad yr Ysgol sef y stad tai cyngor gyntaf i gael ei hadeiladu yng Nghymru am 30 mlynedd. Mae wedi denu llawer o deuluoedd ifanc newydd i'r pentref, oherwydd ei hagosrwydd i'r ysgol. Nid yw rhai o'r teuluoedd hyn yn gyrru ac mae ganddynt blant ifanc a fydd yn cyrraedd oedran ysgol yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Ni fydd y plant 3 oed â hawl i'r ddarpariaeth teithio am ddim sy'n golygu y bydd y plant rhieni nad ydynt yn gyrru o dan anfantais.



DRAFT

- Mae Ysgol Llangoed yn ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned, trwy Ffeiriau Nadolig a Phantomeim, Diolchgarwch a Gwasanaethau Dydd Gŵyl Dewi a digwyddiadau a gweithgareddau eraill.

Siaradodd y Cynghorwyr Carwyn Jones, Lewis Davies ac Alun Roberts fel Aelodau Lleol.

Soniodd y Cynghorydd Carwyn Jones (nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor) am ei siom nad oedd ei ymateb wedi'i gynnwys yn llawn yn y ddogfennaeth gan ei fod yn cynnig ateb arloesol i ailgyflunio ysgolion yn ardal Seiriol. Dywedodd mai'r farn gadarn yn ward Seiriol yw y dylai Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares aros ar agor ac y dylid ystyried dull arloesol modern o foderneiddio'r ysgolion yn yr ardal hon. Dygodd y Cynghorydd Jones sylw at y ffaith bod buddsoddiad sylweddol wedi digwydd mewn ardaloedd eraill yn Ynys Môn lle mae'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion wedi cael ei gweithredu gan arwain at ysgolion newydd yng Nghaergybi, Llanfaethlu, Niwbwrch ac estyniad newydd arfaethedig yn Llangefni. Fodd bynnag, pan gaewyd Ysgol Llanddona, ni chafwyd unrhyw fuddsoddiad newydd. Dywedodd fod ardal Seiriol yn haeddu buddsoddiad cyffelyb i'r un a gafodd rhannau eraill o Ynys Môn ac y dylai hyn fod ar ffurf adnewyddu Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed ac adeiladu ysgol lai newydd ochr yn ochr â'r cyfleuster Gofal Ychwanegol ym Miwmares. Byddai'r opsiwn o ysgol newydd a gyd-leolir gyda chyfleuster Gofal Ychwanegol yn cynnig ateb cyffrous a gwahanol a allai elwa'n ariannol o ran gorbenion is a chostau a rennir ac yn addysgol o ran creu amgylchedd dysgu rhwng cenedlaethau. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn bodloni meini prawf Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer darparu cyfleuster addysg modern newydd dros y 50 mlynedd nesaf, byddai'n costio llai o lawer na'r cynlluniau moderneiddio eraill ac mae ganddo'r potensial i ostwng y gost fesul disgybl i'r isaf yng Nghymru. Pwysleisiodd y Cynghorydd Jones fod cymryd capasiti addysg allan o Ddwyrain yr Ynys trwy gau naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares yn risg yn wyneb y cynnydd tebygol yn y boblogaeth a ddaw yn sgil Wylfa Newydd a datblygiadau economaidd mawr eraill ar yr Ynys a'r tu draw.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylai gohebiaeth a gyflwynwyd gan Aelodau Lleol yn rhinwedd eu rôl gael ei chyhoeddi'n llawn fel rhan o'r ddogfennaeth a gyhoeddir.

Mynegodd y Cynghorydd Lewis Davies yntau ei ofid bod ardal Seiriol yn cael ei thrin yn wahanol ac, yn ei farn ef, yn annheg oherwydd nad yw'n cael cynnig ysgol newydd. Soniodd am yr effaith andwyol y byddai cau naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares yn ei chael ar y cymunedau perthnasol ac roedd yn teimlo bod cam o'r fath yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n hyrwyddo creu cymunedau diogel, cydlynol a gwydn. Mae angen adfywio ardal Seiriol a a bydd hynny'n llawer anoddach i'w gyflawni os bydd Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares yn cau. Dywedodd ei fod yn cefnogi cadw'r tair ysgol yn yr ardal ar y sail bod eu hangen i sicrhau dyfodol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, i weithredu fel sail ar gyfer adfywio'r cymunedau hynny, er mwyn sicrhau cydbwysedd demograffig yn y ardal yn y dyfodol ac i ddarparu'r capasiti i ddelio â'r mewnlifiad o deuluoedd a fydd yn dod yn sgil Wylfa Newydd a datblygiadau eraill.

Ategodd y Cynghorydd Alun Roberts ei gyd-Aelodau Lleol wrth eirioli dros gadw'r tair ysgol ar agor. Roedd yn cefnogi lleoli ysgol lai ochr yn ochr â chyfleuster Gofal Ychwanegol ym Miwmares fel ateb gwreiddiol ac arloesol i Fiwmares. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhagolygon ar gyfer niferoedd disgyblion yn Ysgol Llandegfan yn ardderchog ac yn gwella yn achos Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares ac y gallai'r mewnlifiad o deuluoedd yn sgil Wylfa Newydd eu hatgyfnerthu. Pwysleisiodd y Cynghorydd Roberts nad yw cau naill ai Ysgol Biwmares neu Ysgol Llangoed yn diogelu dyfodol y llall ac efallai y byddai'r ysgol a fyddai'n

parhau i fod ar agor mewn mwy o berygl wrth i rieni benderfynu anfon eu plant i rhywle arall – sef yr hyn a awgrymir gan yr arolwg a gynhaliwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Biwmares.

*Tynnodd y Cadeirydd sylw ar y pwynt hwn, fod y Pwyllgor wedi bod yn eistedd am dair awr ac, yn unol â darpariaethau paragraff 4.1.10 o Gyfansoddiad y Cyngor, bod angen i fwyafrif Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn bresennol gytuno i barhau â'r cyfarfod.* ***Penderfynwyd y dylai'r cyfarfod barhau.***

Rhoes y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar ac fe ymatebodd fel a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor mai un o'r opsiynau amgen a gyflwynwyd oedd cydleoli ysgol lai a chyfleuster Gofal Ychwanegol ar safle presennol Ysgol Biwmares. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pa mor ymarferol yw'r opsiwn hwnnw yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn diffinio ysgol fach fel un gyda 150 o ddisgyblion neu lai.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol, er bod yr opsiwn yn ddeniadol, nid yw'r ffeithiau yn cynnal yr achos busnes. Mae'n amheus a fyddai Llywodraeth Cymru yn barod i gefnogi adeiladu ysgol newydd mor fychan â'r un a gynigir.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y dylai pob cais am gyllid Llywodraeth Cymru dan Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gael ei gefnogi gan Achos Busnes sy'n ymdrin â fforddiadwyedd, gwerth am arian, cyflawni arbedion refeniw ac ystod o ffactorau eraill. Mae sicrhau cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer creu ysgol fach felly'n anodd oherwydd ystyriaethau ariannol. O ran rhannu cyfleusterau a chostau gyda'r cyfleuster Gofal Ychwanegol ac o safbwynt trethiant, byddai Treth Gyngor yn daladwy ar yr unedau Gofal Ychwanegol a byddai'n cael ei brisio'n wahanol i'r ysgol gan nad oes cysylltiad rhwng y ddau yn hyn o beth. Yn ogystal, bydd y cyfleuster Gofal Ychwanegol yn cael ei ariannu o'r Cyfrif Refeniw Tai a gyllidir gan incwm rhent o stoc dai'r Cyngor. Mae defnydd o'r HRA wedi'i gyfyngu i ddibenion sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor yn unig sy'n golygu y byddai'n amhosibl defnyddio'r HRA i ariannu neu sybsideiddio costau sy'n dod i Gyfrif Cyffredinol y Cyngor ac sy'n cael ei ariannu gan y Dreth Gyngor a'r Grant Cymorth Refeniw.

- Nododd y Pwyllgor fod posibilrwydd, petai Ysgol Beaumaris yn cau, y bydd rhieni efallai'n dewis anfon eu plant i ysgol heblaw Ysgol Llangoed, gyda hynny'n risg i hyfywedd Ysgol Llangoed yn y tymor hir. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad a oedd hynny wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn y cynlluniau ar gyfer Ysgol Llangoed.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod moderneiddio ysgolion bob amser yn cynnwys elfen o risg. Fodd bynnag, yn yr achos hwn mae'r Awdurdod wedi ceisio lliniaru'r risg trwy gynnig ateb sy'n fwy cynaliadwy. Yn yr ymgynghoriad gwreiddiol gofynnwyd i rieni ddatgan ba ysgol y byddent yn ei ffafrio - Ysgol Llandegfan, Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares ond mae hynny wedi cael ei dynnu allan yn awr yn unol â dymuniadau'r Aelodau Etholedig sy'n dweud y dylai cynaladwyedd yr ateb yn y tymor hir fod yn ffactor amlycach beth bynnag fo'r penderfyniad terfynol, dyna pam mae'r "opsiynau naill ai neu" wedi eu cynnwys yn yr adroddiad - naill ai Ysgol Llangoed neu Ysgol Biwmares i gau. Pe bai Ysgol Biwmares yn cau a rhieni yn yr ysgol yn dewis peidio ag anfon eu plant i Ysgol Llangoed, yna byddai'r Awdurdod yn parhau i gynnal darpariaeth addysg ar gyfer 80 disgybl yn Ysgol Llangoed. Dywedodd y Swyddog, os oes cefnogaeth i gadw ysgol ar gyfer 40 o ddisgyblion ym Miwmares, yna bydd angen i'r Pwyllgor nodi o ble y daw'r £ 1.129m i ariannu'r opsiwn hwn.

- Nododd y Pwyllgor fod yr Aelodau Lleol yn pryderu y bydd rhai rhieni, wrth ymarfer eu dewis, yn dewis mynd â'u plant i ysgolion yn ardal Bangor oherwydd agosrwydd yr ysgolion hynny at eu mannau gwaith. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa o ran argaeledd lleoedd ysgol yn ardal Bangor.

  Dywedodd y Prif Weithredwr, er nad yw'r Awdurdod wedi ymchwilio i'r mater hwn, mae'n hysbys bod Cyngor Gwynedd wrthi'n adolygu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Bangor yn erbyn yr un meini prawf i bob pwrpas â'r rheiny yn Ynys Môn. Fel yn Ynys Môn hefyd, mae'n debyg y bydd y gallu i ddarparu ar gyfer 10% o leoedd gwag yn berthnasol, felly mae lleoedd mewn ysgolion yn gyfyngedig yn ardal Bangor hefyd.

- Nododd y Pwyllgor y bydd prosiect Wylfa Newydd yn ôl pob tebyg yn arwain at gynnydd ym mhoblogaeth yr Ynys yn ystod cyfnodau adeiladu a chyflawni'r prosiect ac y byddai'n beth doeth efallai i gadw capasiti addysg yn ardal Seiriol er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw creu ysgol aml-safle yn ddewis arall ymarferol.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol nad yw'r opsiwn aml-safle yn mynd i'r afael â chostau ôl-groniad cynnal a chadw na mater lleoedd dros ben.

- Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod Asesiad Effaith yr Awdurdod wedi ystyried yr effeithiau ar y cymunedau.

  Hysbyswyd y Pwyllgor fod Asesiad Effaith yr Awdurdod wedi ystyried yr effeithiau ar y cymunedau. Ar ben hynny, mae Estyn wedi cadarnhau bod Asesiad Effaith yr Awdurdod yn dda yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut y dewiswyd ardaloedd ar gyfer eu hadolygu dan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion o ystyried bod yn yr ardaloedd sydd wedi cael eu hadolygu ysgolion â nifer uwch o ddisgyblion nag ardaloedd nad ydynt wedi'u hadolygu.

  Dywedodd y Prif Weithredwr bod ardal Seiriol yn un o'r ardaloedd a oedd wedi ei chynnwys yng nghyfnod buddsoddi cychwynnol Band A y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain. Bydd ardaloedd eraill ar yr Ynys yn cael eu hadolygu yn ail gam buddsoddi Band B a fydd yn cychwyn ym mis Ebrill, 2019. Cafodd adroddiad ar ddewis ardaloedd ar gyfer eu hadolygu dan Fand A ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ac roedd i'w briodoli'n rhannol i sylwadau a wnaed gan Estyn i'r perwyl nad oedd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod yn ddigon uchelgeisiol. Yn unol â hynny, penderfynwyd y dylid gweithredu'r rhaglen foderneiddio i ddechrau mewn ardal drefol – sef Caergybi, ac mewn ardal wledig – sef Y Llannau ac yn dilyn hynny, mewn ardaloedd lle yr oedd nifer y lleoedd gwag yn uchel, sef Rhosyr a Seiriol.

  Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd yr un o Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed i grynhoi. Ar ran Ysgol Biwmares, gofynnodd Mrs Rhian Jones i'r Pwyllgor argymell oedi er mwyn sicrhau y deuir o hyd i'r datrysiad cywir ar gyfer y cymunedau dan sylw a hynny ar ôl cael amser digonol i ystyried yn ddifrifol opsiynau eraill ar wahân i gau'r ysgol. Gofynnodd Dr Ruth Parry ar ran Ysgol Llangoed i'r Pwyllgor wneud ei argymhelliad yn seiliedig ar y ffeithiau.

DRAFT

Dywedodd yr Aelod Portffolio, er bod y sefyllfa'n anodd, nid yw gwneud dim yn opsiwn o safbwynt addysgol neu ariannol. Yn gyffredinol, sefydlwyd y patrwm presennol o ysgolion cynradd a'u lleoliad 150 mlynedd yn ôl pan oedd plant yn cerdded i'r ysgol; mae'n rhaid ei addasu yn unol ag amgylchiadau fel y maent yn awr, ac i'r dyfodol.

Cydnabu'r Prif Weithredwr, er bod hwn yn fater heriol, bod rhaid i'r penderfyniad fod yn gysylltiedig â gwneud y system addysg gynradd ar Ynys Môn yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon. Yn yr hinsawdd gyfredol, mae ystyriaethau ariannol yn ffactor ond rhaid i ansawdd y ddarpariaeth addysg gario pwysau hefyd. Dywedodd y Swyddog fod cost addysg yn ardal Seiriol yn llawer uwch na chyfartaledd Ynys Môn gyda dwy o'r tair ysgol yn cael eu hystyried fel rhai bychan yn ôl safonau Llywodraeth Cymru. O ran niferoedd disgyblion, nodwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol fod nifer y disgyblion yn Ysgol Llandegfan ac yn Ysgol Llangoed wedi bod yn gyson ond bod nifer y disgyblion yn Ysgol Biwmares wedi bod yn mynd i lawr. Mae'r costau ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw yn uchel, ac mae cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru wedi aros yn ddigyfnewid ers blynyddoedd lawer a chan fod yr arian hwn wedi cael ei ddyrannu i ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, mae mynd i'r afael â'r mater hwn yn broblem. Mae casgliadau'r adroddiad yn ei gwneud hi'n glir mai Opsiynau 1 a 2 yw'r unig opsiynau realistig o dan yr amgylchiadau.

Ar ôl nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, bu'r Pwyllgor yn ystyried ei gynigion.

Ar ôl crynhoi'r apeliadau a wnaed gan y rhai a oedd wedi cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor gan gynnwys Aelod Seneddol Ynys Môn a oedd wedi cyfleu ei farn trwy lythyr, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddau opsiwn a gyflwynwyd yn adroddiad y Swyddog sef -

Opsiwn 1 - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed, neu

Opsiwn 2 - Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Llangoed ac adnewyddu Ysgol Biwmares.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies drydydd opsiwn (Opsiwn 3) a eiliwyd, i'r perwyl fod y Pwyllgor yn argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y 3 ysgol (Ysgol Llandegfan, Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares) yn aros ar agor fel y gellir cael trafodaeth am fuddsoddi er mwyn adeiladu ysgol ardal newydd, fodern Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer ardal Seiriol, fel sydd wedi digwydd mewn ardaloedd eraill o'r Ynys sef Y Llannau, Ynys Gybi, Cefni a Niwbwrch.

Wrth gyfiawnhau'r cynnig, dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies fod posibilrwydd y gellir datblygu safle Lairds yn y dyfodol ac y gallai fod yn safle addas ar gyfer ysgol newydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Nicola Roberts welliant ac fe eiliwyd hwnnw – sef y dylid argymell Opsiwn 1 yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith. Cyfeiriodd at y datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg ar 25 Ebrill, 2018, lle roedd hi wedi dweud bod mater cynllunio ar gyfer lleoedd ysgol yn fater i'r Awdurdod Lleol a bod unrhyw gais am arian cyfalaf o dan Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cael ei farnu ar feini prawf sy'n cael eu harchwilio gan fwrdd allanol ac sy'n cyfeirio at y gwerth y tu ôl i bob cais unigol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd nad oedd hi'n ymwybodol bod unrhyw gais yn cael ei seilio ar yr angen i gau ysgolion a bod yr arian ar gael ar gyfer adnewyddu safleoedd presennol, ar gyfer ysgolion newydd ac ysgolion sydd newydd eu sefydlu. Dywedodd y Cynghorydd Roberts ei bod hi'n credu bod y sylwadau yn berthnasol yr achos hwn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod ysgol ardal newydd fel y'i cynigir yn Opsiwn 3 wedi cael ei hystyried yn yr ymgynghoriad anstatudol ond nad aethpwyd ar ôl yr opsiwn hwnnw. Un o'r opsiynau a werthuswyd ac a sgoriwyd ar yr adeg honno oedd datblygu ysgol fawr mewn ardal yn nes at Borthaethwy.

Wedyn, fe dynnodd y Cynghorydd Lewis Davies ei gynnig yn ôl a dywedodd na fyddai'n pleidleisio. Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen a oedd wedi eilio'r cynnig, Opsiwn 3 ac fe eiliwyd ei gynnig.

Yn y bleidlais ddilynol ar y cynnig, pleidleisiodd 2 o blaid a phleidleisiodd 1 yn erbyn y cynnig ac ymataliodd 5 eu pleidlais. Gan nad oedd pleidlais fwyafrifol o blaid y cynnig, ni chafodd y cynnig ei gario.

Yna pleidleisiodd y Pwyllgor ar y gwelliant, sef bod Opsiwn 1 yn cael ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Yn y bleidlais a ddilynodd, pleidleisiodd 2 o blaid, 4 yn erbyn ac ymataliodd 2 eu pleidlias. Gan nad oedd pleidlais fwyafrifol, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn erbyn Opsiwn 1.

**Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac yn ysgrifenedig, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol beidio â derbyn yr opsiynau yn adroddiad y Swyddog.**

**Y Cynghorydd Aled M. Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod Galw i Mewn a gynhaliwyd ar 2 Awst, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Richard Owain Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, Nicola Roberts<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Llofnodwyr y Cais Galw i Mewn nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor**<br><br>Y Cynghorwyr Eric Jones, Peter Rogers<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones, (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd), Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd), RG Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid Gwasanaethau), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

DRAFT

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda gan ei bod yn aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol y Graig a Chorff Llywodraethol Ysgol Talwrn ac hefyd yn rhiant i blentyn sy'n ddisgybl yn Ysgol y Graig.

Datganodd y Cynghorydd Richard Griffiths ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda gan fod ei ddarpar ferch yng nghyfraith yn cael ei chyflogi yn Ysgol y Graig.

## 2 MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL LLANGEFNI (YSGOL Y GRAIG A TALWRN)

Cafodd penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2018 i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn, ei alw i mewn gan y Cynghorwyr Lewis Davies, Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Bryan Owen a Peter Rogers. Cyflwynwyd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, y cais galw i mewn ac adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf, 2018 ar foderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni (Y Graig a Thalwrn).

Dywedodd y Cadeirydd na fyddai siarad cyhoeddus yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Darllenodd gyngor a ddarparwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r mater a oedd yn cadarnhau nad oes hawl cyfansoddiadol cyfreithiol i siarad cyhoeddus mewn pwyllgor sgriwtini ac mai mater i'r Cadeirydd yw penderfynu pryd ac os yw hynny'n briodol. Yr unig ofyniad mewn cysylltiad â'r disgresiwn hwn yw ei fod yn cael ei ddefnyddio'n deg ac yn gyson. Ymhellach, mae'r Swyddog yn cynghori bod bwriad y Cadeirydd yn ddefnydd rhesymol o'r disgresiwn hwn dan yr amgylchiadau, gan fod hwn yn achos o alw i mewn penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ac nid yw'n rhan o'r broses cyn gwneud penderfyniad lle mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn casglu tystiolaeth.

Eglurodd y Cynghorydd Lewis Davies, fel Aelod Arweiniol y cais Galw i Mewn, y rhesymau dros alw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf, 2018 fel y nodir yn y ffurflen gais galw i mewn. Roedd y rhesymau fel a ganlyn:

- Gwallau yn yr ymgynghoriad.
- Mae cymuned Talwrn wedi wynebu deng mlynedd o ansicrwydd ac nid yw hynny wedi annog pobl ifanc i symud i fyw i'r pentref.
- Mae'r asesiad effaith cymunedol yn arwynebol ac nid yw'n cyd-fynd ag adran 1.7 o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion presennol.
- Ni chynhyrchwyd unrhyw adolygiad trafnidiaeth/traffig ffordd ar y lôn rhwng Talwrn a Llangefni. Mae hon yn lôn beryglus i gerdded a beicio arni ac, oherwydd pwyslais cynyddol ar fanteision iechyd cerdded a beicio, mae'n hanfodol fod llwybr diogel yn cael ei ddarparu a bod asesiad traffig yn cael ei gynnal, yn enwedig os yw plant yn dymuno cerdded neu feicio o Dalwrn i Ysgol y Graig petai Ysgol Talwrn yn cau. Yn ogystal, mae Ysgol y Graig yn orlawn ac mae problemau parcio difrifol o gwmpas yr ysgol a gerllaw. Bydd ymestyn yr ysgol a'r defnydd ohoni yn gwaethygu'r broblem.
- Anghysonderau yn y broses foderneiddio yn y modd mae ardaloedd yn cael eu trin, gydag ysgolion cyffelyb gyda llai o blant a safonau is yn dal i fod ar agor.
- Adeiladu tai newydd yn ardal Cefni a allai arwain at brinder lleoedd mewn ysgolion fel sydd eisoes wedi digwydd yn achos yr Ysgol y Graig. Yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, clustnodir Llangefni fel canolfan fasnachol a diwydiannol sy'n debygol o dyfu yn y

DRAFT

dyfodol. Gyda'r angen am fwy o dai, mae'r dref yn debygol o dyfu gan roi pwysau ar ysgolion yr ardal. Mae perygl y bydd hanes yn ailadrodd ei hun ac y bydd Ysgol y Graig yn orlawn unwaith eto. Gwell cadw ysgolion gwledig er mwyn derbyn y disgyblion ychwanegol hyn yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Lewis Davies yn ogystal nad yw'r Awdurdod yn gallu gwerthfawrogi y gallai atebion gwahanol fod ar gael ar gyfer ardaloedd gwahanol ac nad yw adeiladu ysgolion enfawr, digymeriad nad yw pawb eisiau eu mynychu yn briodol bob amser. Gorffennodd y Cynghorydd Davies drwy gyfeirio at erthygl ar ymchwil a wnaed gan ysgolheigion ledled Gorllewin Ewrop ar ddatgysylltu cymdeithasol mewn cymunedau gwledig sy'n nodi bod cau ysgolion yn un o’r prif ffactorau o ran tanseilio cymunedau gwledig.

Siaradodd y Cynghorwyr Eric Jones, Peter Rogers a Bryan Owen fel llofnodwyr y cais galw i mewn.

Dywedodd y Cynghorydd Eric Jones nad oedd yn cefnogi'r dull a ffafrir gan Estyn o uno ysgolion gwledig i greu ysgolion mwy nad oes eu hangen. Nid yw'r Cyngor wedi profi'r dadleuon dros gau’r ysgol yn y ddogfen ymgynghori ac mae llawer o’r hyn sydd yn y ddogfen yn ffafrio cadw Ysgol Talwrn ar agor. Yn ei farn o, dyma yw’r opsiwn gorau o ran cynnig gwerth am arian i’r Cyngor a threthdalwyr Ynys Môn ac o ran gwella safonau addysg. O ganlyniad i’r datblygiadau tai sydd wedi eu cynllunio yn Llangefni a’r cyffiniau, dywedodd fod perygl y bydd Ysgol y Graig yn orlawn unwaith eto gan ailadrodd camgymeriad a wnaethpwyd unwaith yn barod.

Tynnodd y Cynghorydd Peter Rogers sylw at effaith bosibl cau Ysgol Talwrn ar ysgol uwchradd yr ardal o ran colli disgyblion, ffactor sydd wedi cael ei anwybyddu yn ei farn ef. Oherwydd bod cau ysgol yn benderfyniad enfawr, roedd o’r farn y dalai gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn. Oherwydd hynny, anogodd y Pwyllgor i gyfeirio'r mater i'r Cyngor Llawn.

Eglurodd y Cynghorydd Bryan Owen ei fod wedi llofnodi'r cais galw i mewn am ei fod yn credu nad oedd rhanddeiliaid Ysgol Talwrn wedi cael gwrandawiad teg nac atebion i'w cwestiynau; oherwydd ei bod yn annheg gofyn i rieni anfon eu plant o ysgol gymunedol hapus i gael eu llyncu gan ysgol o dros 300 o ddisgyblion; oherwydd bod perfformiad addysgol Ysgol Talwrn yn well na pherfformiad Ysgol Y Graig yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 ac oherwydd effaith bosibl cau'r ysgol ar yr iaith Gymraeg, o gofio mai cymunedau gwledig a'r ysgolion sy’n rhan ohonynt yw conglfaen yr iaith Gymraeg. Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Owen hefyd at yr ôl-groniad cynnal a chadw yn y ddwy ysgol - ar gyfer Ysgol Talwrn sydd dros 100 mlwydd oed, mae'n £82,500k, neu £597 am bob blwyddyn ers ei hadeiladu, ac ar gyfer Ysgol y Graig, sy'n 9 oed, mae’n £36,500, neu £3,650 am bob blwyddyn. Felly, nid yw cau Ysgol Talwrn yn gwneud synnwyr economaidd. Yn ôl y Côd Trefniadaeth Ysgolion drafft diwygiedig, mae'n rhaid i'r achos dros gau ysgol wledig fod yn gadarn. Yn ogystal, gall hawl rhieni i ddewis ysgol olygu bod rhieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i Ysgol y Graig. Roedd y Cynghorydd Bryan Owen hefyd o'r farn y dylai'r Cyngor Llawn ystyried y mater hwn.

Ymatebodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant fel a ganlyn –

- Ni roddir unrhyw dystiolaeth ategol i egluro pam fod yr ymgynghoriad yn anghywir.
- Bod y Weinyddiaeth bresennol wedi ymrwymo i ddod ag ansicrwydd ynghylch dyfodol ysgolion i ben a’i bod yn barod i wneud penderfyniadau yn unol â’r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a allai fod yn anodd ac yn annymunol, er mwyn sefydlu’r ddarpariaeth addysgu gynradd orau a thecaf posib ar yr Ynys.

DRAFT

- Bod y Weinyddiaeth wedi ceisio bod yn gyson yn y penderfyniadau a wnaethpwyd mewn perthynas â moderneiddio ysgolion ymhob ardal lle mae'r rhaglen wedi cael ei gweithredu tra'n ceisio canfod yr ateb gorau ar gyfer pob ardal unigol.
- Rhoddir ystyriaeth i ddatblygiadau tai a gymeradwywyd ac sydd wedi'u cynllunio ym mhob ardal lle mae ysgolion yn cael eu hadolygu, gan gynnwys yn y rhan honno o Langefni sy'n ymwneud ag Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.
- Ar ôl gwneud penderfyniad yn unig y cynhelir arolwg trafnidiaeth a thraffig – yn yr achos penodol hwn byddai'r arolwg yn cynnwys asesiad diogelwch llwybr o'r lôn o Dalwrn i Langefni.
- Nad yw Ysgol Talwrn wedi'i chynnwys ar y rhestr o ysgolion gwledig dynodedig yn y fersiwn drafft diwygiedig o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2017 at ddibenion rhagdybiaeth yn erbyn cau.
- Nid yw'r costau cynnal a nodir uchod ar gyfer Ysgol Talwrn yn cymryd i ystyriaeth y £250k sydd ei angen ar gyfer ystafell ddosbarth symudol newydd.
- Y cydnabyddir y gall rhieni anfon eu plant i ysgol o'u dewis a bod hyn yn fater nad oes gan yr Awdurdod unrhyw reolaeth drosto. Fodd bynnag, gall yr Awdurdod geisio darparu darpariaeth addysg sy'n deg ac yn rhesymol ar gyfer yr Ynys gyfan.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) fel a ganlyn -

- Bod y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn golygu ystyried ystod o opsiynau ar gyfer pob ardal ac mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen atebion gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol.
- Bod y broses ymgynghori yn gynhwysfawr a thrylwyr gydag amrywiaeth o ddulliau'n cael eu defnyddio i gasglu barn rhanddeiliaid, gan gynnwys sesiynau galw heibio, arolwg ar-lein, llythyrau, e-byst a deisebau. Hwn oedd y trydydd ymgynghoriad a gynhaliwyd, a chafodd yr holl awgrymiadau eraill a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn a'r ddau ymgynghoriad blaenorol eu hystyried, eu hasesu a'u sgorio. Nodwyd y rhesymau pam nad ystyriwyd fod yr opsiynau eraill yn briodol yn yr adroddiad ymgynghori a chawsant eu hadrodd i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 5 Gorffennaf, 2018 ac i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf, 2018.
- Bod yr Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion presennol. Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2017 diwygiedig yn parhau ar ffurf ddrafft ac ni ddisgwylir iddo gael ei weithredu tan ddiwedd y flwyddyn wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad ac yn dilyn cyfnod ymgynghori wedi hynny. Er bod y Côd diwygiedig yn cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, mae'n ei gwneud hi'n glir nad yw hyn yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau, yn hytrach bydd yn ofynnol dangos fod pob opsiwn arall heblaw cau wedi cael eu hystyried. Mae'r Côd diwygiedig hefyd yn cydnabod bod rhaid i'r addysg fod yn ystyriaeth sylfaenol a bod hynny'n gysylltiedig â dyletswydd awdurdod lleol i geisio codi safonau addysg.
- Datblygwyd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn yn 2012 mewn ymateb i feirniadaeth gan Estyn nad oedd yr Awdurdod yn symud yn ddigon cyflym i foderneiddio ei ysgolion a lleihau lleoedd gwag. Felly ni chafwyd cyfnod o 10 mlynedd o ansicrwydd. Nodwyd yn 2012 y byddai ymgynghoriad pellach ar ddyfodol Ysgol Talwrn yn digwydd o fewn 5 mlynedd a dyma beth sydd wedi digwydd.
- Bod yr Asesiad Effaith Cymunedol wedi'i gynnal yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 a'i fod yn drylwyr yn ei werthusiad o'r ffactorau sy'n effeithio ar y

DRAFT

gymuned. Yn yr un modd, mae'r Awdurdod wedi ystyried yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae Estyn wedi cadarnhau ei fod yn fodlon â'r Asesiad Effaith Cymunedol ac wedi gwneud sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â'r effeithiau ar yr iaith Gymraeg.

- Nid yw cymunedau o reidrwydd yn dirywio yn dilyn cau ysgol, e.e. nid oes gan bentref Rhosmeirch ysgol bellach ond mae wedi ffynnu serch hynny.
- Bod yr Awdurdod wedi ystyried gwir ddatblygiadau tai a'r rhai sydd wedi'u cynllunio yn yr ardal wrth ragamcanu niferoedd disgyblion ar gyfer yr estyniad newydd i Ysgol y Graig gan ddefnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cyfeirio at adeiladu 600 o gartrefi yn ardal Llangefni ond mae llai o dai wedi'u cynllunio ar gyfer y rhan arbennig hon o Langefni. Mae swyddogion wedi ystyried datblygiadau sydd wedi'u cynllunio gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Choleg Menai (157 o dai) ac eraill (138 o dai). Mae cyfanswm y rhain wedi cael ei luosi â 0.17 sydd wedyn yn rhoi'r nifer rhagamcanol o ddisgyblion ychwanegol - tua 50. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau.
- Bydd asesiad trafnidiaeth a thraffig yn cael ei gynnal ar ôl gwneud penderfyniad. Bydd hyn yn cynnwys y sefyllfa draffig a pharcio yn Ysgol y Graig a gerllaw yn ogystal â'r llwybr o Dalwrn i Langefni. Darperir cludiant ar gyfer disgyblion sy'n teithio i'r ysgol ar hyd llwybr sydd, yn dilyn asesiad, yn cael ei ystyried yn beryglus. Nid yw cyfleoedd i ddisgyblion feicio a cherdded wedi eu cyfyngu i'r daith i'r ysgol a gellir eu mwynhau y tu allan i oriau ysgol.
- Mae Ysgol y Graig yn ysgol gynradd gymunedol hapus a llwyddiannus hefyd, ac mae ei defnydd o'r iaith Gymraeg yn gryfder. Aseswyd y byddai'r cynnig a gyflwynwyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.
- Nid yw safonau addysg yn Ysgol Talwrn yn well na safonau yn Ysgol y Graig. Mae perfformiad Ysgol Talwrn yn y Cyfnod Sylfaen wedi ei gosod yn y chwartel isaf am y tair blynedd diwethaf. Mae Ysgol y Graig yn fwy llwyddiannus o ran cyflawni canrannau uwch ar gyfer lefel 5+.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor, eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) oblygiadau ariannol y cynnig i ymestyn Ysgol y Graig gan eu bod wedi'u nodi yn yr arfarniad ariannol yn y ddogfen ymgynghori. Gofynnodd y Cynghorydd Lewis Davies am ddadansoddiad ysgrifenedig o gyfanswm y benthyciadau hyd yn hyn o dan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, y costau llog a'r goblygiadau i'r Awdurdod ac ardaloedd eraill ar yr Ynys sydd heb gael eu hadolygu hyd yn hyn pe bai Llywodraeth Cymru yn tynnu ei gefnogaeth ariannol i'r cynllun yn ôl.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau.

Gwnaeth y Prif Weithredwr y pwyntiau canlynol -

- Datblygwyd y broses ymgynghori ar gynigion i ail-lunio ysgolion cynradd yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion ac erbyn hyn mae'r broses wedi hen sefydlu ac fe'i defnyddiwyd yn yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cynigion i adeiladu ysgolion newydd Ynys Cybi, Rhyd y Llan a Santes Dwynwen. Mae'r broses wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Pe credir bod diffygion yn y broses yn yr achos hwn, byddai'n ddefnyddiol cael tystiolaeth o hynny.
- Yn yr un modd, mae'r broses ar gyfer cynnal Asesiad Effaith Cymunedol yn un a ddefnyddiwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Côd Trefniadaeth Ysgolion.
- Cydnabyddir y gall cynnal proses ymgynghori ar ddyfodol ysgolion penodol achosi teimladau o ansicrwydd yn ystod y broses.

DRAFT

DRAFT

- Er nad yw Asesiad Effaith Trafnidiaeth a Thraffig yn cael ei gynnal hyd nes y bydd penderfyniad wedi ei wneud, mae gwerthusiad ariannol y cynnig yn cynnwys rhagamcan o gostau cludiant ychwanegol.
- O ran unrhyw effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg, mae'n amlwg y bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn rhoi blaenoriaeth i gryfhau a gwarchod yr iaith Gymraeg. Mae Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn perfformio'n dda mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a barn Estyn yw na fydd y cynnig yn arwain at wanhau'r Gymraeg.
- Er bod Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn ysgolion da o safbwynt addysgol, gydag Ysgol y Graig ychydig ar y blaen o ran perfformiad, mae lle i'r ddwy wella ymhellach, gan greu sylfaen gadarn ar gyfer cynnydd pe baent yn uno.
- Un o yrwyr y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yw sicrhau bod y system addysg yn deg i bob disgybl ar yr Ynys. Mae disgyblion yn Ysgol Talwrn yn derbyn £475 y pen yn fwy na disgyblion yn Ysgol y Graig, sy'n golygu bod Ysgol Talwrn yn derbyn £22,325 o gyllid ychwanegol sy'n cyfateb i swydd 0.5 athro. Drwy beidio â mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn o ran cyllid, mae'r Awdurdod yn caniatáu i'r anghydraddoldeb sy'n bodoli o fewn y system addysg barhau, sy'n golygu bod rhai disgyblion yn derbyn swm uwch y pen ar draul disgyblion eraill. Mae hyn yn anodd ei gyfiawnhau.

Yna, rhoddwyd cyfle i lofnodwyr y cais Galw i Mewn, yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion grynhoi.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor dri opsiwn wrth ddod i benderfyniad ar y cais galw i mewn, sef

- Gwrthod y cais galw i mewn.
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a'i gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad y dylid ei ailystyried a/neu ei ddiwygio.
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a chyfeirio'r mater gydag argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, gan nad yw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn groes i'r Fframwaith Cyllideb na'r Polisi nac yn anghyson â'r Gyllideb, nid oes gan y Cyngor Llawn unrhyw bŵer yn y mater. Felly, byddai'r Cyngor yn ymgynnull yn unig i ystyried y mater ac, os yw'n gwrthwynebu'r penderfyniad, ei gyfeirio'n ôl gydag unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith fel y corff gwneud penderfyniadau.

Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen ac eiliwyd ef, y dylid cyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Owain Jones welliant a eiliwyd, bod y cais galw i mewn yn cael ei wrthod.

Yn unol â pharagraff 4.1.18.5 Cyfansoddiad y Cyngor cofnodwyd y bleidlais. Roedd y bleidlais fel a ganlyn -

O blaid y gwelliant (y dylid gwrthod y cais galw i mewn): Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Richard Owain Jones, Alun Roberts, Nicola Roberts a Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig â phleidlais ar faterion addysgol).

O blaid y cynnig gwreiddiol (y dylid cyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn): Y Cynghorwyr Lewis Davies, Aled Morris Jones, Bryan Owen.

**Penderfynwyd gwrthod y cais galw i mewn ynghylch penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2018 mewn perthynas â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni - Y Graig ac Ysgol Talwrn.**

*Felly mae penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn dod i rym yn syth.*

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

1

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod Galw i Mewn a gynhaliwyd ar 6 Awst, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Richard Owain Jones, Alun Roberts, Nicola Roberts<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Llofnodwyr y Cais Galw i Mewn nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor**<br><br>Y Cynghorwyr R. Llewelyn Jones, Peter Rogers, Glyn Haynes (ar ran y Cynghorydd J. Arwel Roberts)<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd) (ar ran y Cynghorydd R. Meirion Jones, (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **WRTH LAW** : | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU** : | Y Cynghorwyr Bryan Owen, J. Arwel Roberts, Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) Y Cynghorydd R. Meirion Jones, (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), RG Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Gwasanaethau Corfforaethol), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid Gwasanaeth), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd John Griffith, y Cynghorydd Kenneth Hughes |

DRAFT

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Alun Roberts ddiddordeb personol sydd ddim yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda gan ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares.

Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda gan fod ei gyfnither yn gweithio yn Ysgol Biwmares. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei fod wedi cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau ar 18 Gorffennaf, 2017 i gynrychioli'r safbwynt lleol drwy gydol y broses ond nid i bleidleisio ar y mater.

Eglurodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Glyn Haynes yn cynrychioli'r Cynghorydd J. Arwel Roberts er mwyn siarad ar y cais galw i mewn.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod yr hawl i siarad yn y cyfarfod yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. Fodd bynnag, ni chaniateir penodi aelodau dirprwyol er mwyn pleidleisio.

Dywedodd y Cadeirydd na fyddai siarad cyhoeddus yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Darllenodd gyngor a ddarparwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r mater a oedd yn cadarnhau nad oes hawl cyfansoddiadol cyfreithiol i siarad cyhoeddus mewn pwyllgor sgriwtini ac mai mater i'r Cadeirydd yw penderfynu pryd ac os yw hynny'n briodol. Yr unig ofyniad mewn cysylltiad â'r disgresiwn hwn yw ei fod yn cael ei ddefnyddio'n deg ac yn gyson. Ymhellach, mae'r Swyddog yn cynghori bod bwriad y Cadeirydd yn ddefnydd rhesymol o'r disgresiwn hwn dan yr amgylchiadau, gan fod hwn yn achos o alw i mewn penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ac nid yw'n rhan o'r broses cyn gwneud penderfyniad lle mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn casglu tystiolaeth.

## 2 MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL SEIRIOL

Cafodd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2018 i gymeradwyo Opsiwn 1, sef adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed, ei alw i mewn gan y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen, John Arwel Roberts a Peter Rogers. Cyflwynwyd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, y cais galw i mewn ac adroddiad y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2018 ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol.

Yn absenoldeb y Cynghorydd Bryan Owen, Aelod Arweiniol y cais Galw i Mewn, esboniodd y Cynghorydd Peter Rogers y rheswm dros alw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2018 fel y nodwyd yn y ffurflen gais galw i mewn, sef nad oedd y syniad o ysgol wedi ei lleoli ar safle newydd ar gyfer disgyblion Llandegfan, Biwmares a Llangoed wedi cael ei archwilio'n llawn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Rogers at yr ansicrwydd mawr iawn ynglŷn â pha ysgolion fyddai disgyblion yn eu mynychu petai Ysgol Biwmares yn cau ac y gallai hynny effeithio ar niferoedd disgyblion Ysgol Llangoed. Nododd nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd rhieni yn anfon eu plant i Ysgol Llangoed ac y mae deall dewisiadau rhieni yn hanfodol yn y mater hwn oherwydd ei fod hefyd yn rhannol gyfrifol am y gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Biwmares. Yn ogystal, gallai gael effaith ar niferoedd yr ysgol uwchradd sy'n gwasanaethu'r dalgylch. Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers y bydd llawer o bobl wedi deall bod moderneiddio ysgolion yn golygu adeiladu ysgol ardal newydd fel sydd wedi

DRAFT

digwydd mewn ardaloedd eraill lle mae'r ddarpariaeth addysg gynradd wedi cael ei hadolygu. Roedd yn credu bod cyflwyno ysgol ardal newydd yn briodol yn yr achos hwn hefyd.

Siaradodd y Cynghorydd Robert Llewelyn hefyd fel un o lofnodwyr y cais galw i mewn. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at ddiffyg Cynllun Busnes manwl, rhywbeth yr oedd o'r farn y dylid fod wedi ei ddarparu gyda'r cynnig i ddangos yn gliriach oblygiadau ariannol ac arbedion posib o ganlyniad i wireddu'r cynnig. Nid oedd yn amlwg chwaith fod y risgiau wedi cael eu hasesu. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith na chafodd unrhyw gynlluniau ar gyfer y ddarpariaeth cyn-ysgol, sydd mor boblogaidd ac uchel eu parch yn Ysgol Biwmares, eu cynnwys a chyfeiriodd at yr angen am sensitifrwydd wrth ddelio gydag Ysgol Biwmares fel adeilad rhestredig.

Dywedodd y Cynghorydd Glyn Haynes a oedd yn siarad ar ran y Cynghorydd J. Arwel Roberts, un o lofnodwyr y cais galw i mewn, er bod y cymunedau dan sylw yn amau cynigion ar gyfer ysgolion ardal newydd ar y dechrau, maent bellach yn ganolbwynt i'r gymuned ac yn cael eu croesawu gan rieni yn yr ardaloedd hynny lle cawsant eu datblygu e.e. Ysgol Cybi. Dywedodd y Cynghorydd Haynes ei fod o'r farn mai ysgol newydd oedd yr ateb cywir ar gyfer Seiriol yn yr un modd â mewn ardaloedd eraill ar yr Ynys.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fel a ganlyn -

- Archwiliodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yr ymgynghoriad anstatudol ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2017. Roedd yr adroddiad i'r cyfarfod yn cynnwys dadansoddiad o'r opsiynau a ystyriwyd gan gynnwys ysgol ardal newydd a safleoedd posibl. Er y gwnaethpwyd cynnig ar y pryd gan aelod o'r Pwyllgor y dylid ymchwilio i hyn ymhellach, ni chafodd ei gefnogi gan y Pwyllgor.
- O ran effaith cau Ysgol Biwmares ar y dref (Cwestiwn Allweddol 1), a'r ansicrwydd ynghylch a fydd rhieni wedyn yn anfon eu plant i Ysgol Llangoed, mae cau ysgol yn cael effaith mewn tref neu mewn ardal wledig. Mae Biwmares yn haeddu ac yn cael yr un parch ac ystyriaeth â chymunedau eraill lle penderfynwyd cau'r ysgol leol. Pan yr oedd Ysgol Rhyd y Llan yn cael ei datblygu, y farn leol yn Llanfachraeth oedd na fyddai rhieni yn dewis anfon eu plant i'r ysgol newydd. Mae'r ysgol, sydd wedi agor erbyn hyn, yn derbyn nifer dda o ddisgyblion, yn cynnwys plant o Lanfachraeth. Felly, gall dewisiadau rhieni newid ac nid yw'n ffactor y mae gan yr Awdurdod reolaeth drosto.
- O ran dyfodol adeilad Ysgol Biwmares (Cwestiwn Allweddol 2), yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i sefydlu darpariaeth Gofal Ychwanegol ar safle'r ysgol (a archwiliwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), gofynnwyd i'r Prif Weithredwr agor trafodaethau gyda CADW ynglŷn â'r broses ar gyfer ymdrin ag Ysgol Biwmares fel adeilad rhestredig.

  Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau) fel a ganlyn -

- Bod ysgol ardal newydd ar gyfer Seiriol yn un o'r opsiynau a werthuswyd ac a sgoriwyd fel rhan o'r ymgynghoriad anstatudol ar foderneiddio ysgolion cynradd yn ardal Seiriol a gynhaliwyd ym mis Mehefin a Gorffennaf, 2017 (Opsiynau 4 a 20 yn yr ymgynghoriad). Roedd y ffaith nad oedd tir/safleoedd addas ar gael yn ffactor wrth beidio â datblygu'r opsiwn hwn. Byddai ysgol o'r maint hwn yn gofyn am oddeutu 6 erw o dir ac nid oedd modd canfod y tir hwnnw yn yr ardal, yn arbennig gan nad yw safle Lairds wedi'i gynnwys fel safle datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

DRAFT

- Bod yr Asesiad Effaith Cymunedol wedi'i gynnal gan ddefnyddio'r un fformat â'r hyn a ddefnyddiwyd yn yr ardaloedd eraill lle cynhaliwyd ymgynghoriad ar foderneiddio ysgolion. Mae'n fformat sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r risgiau hefyd wedi cael sylw fel rhan o'r asesiad.
- Bod nifer o rieni yn ardal Seiriol wedi dewis dros y blynyddoedd peidio ag anfon eu plant i Ysgol Biwmares a bod yn well ganddynt anfon eu plant i ysgolion yn Llangoed a Llandegfan a thu allan i'r dalgylch ym Mhorthaethwy, Llanfairpwll a Bangor, gan arwain at 72% o leoedd gwag yn Ysgol Biwmares. Hyd yn oed pe bai'r holl fewnfudwyr sy'n gysylltiedig â datblygiadau fel Wylfa Newydd yn dod i ardal Seiriol, mae'r rhagamcanion yn ôl fformiwla Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai lleoedd gwag yn Ysgol Biwmares o hyd.
- Cydnabyddir y gall rhieni ddewis anfon eu plant i ysgolion ac eithrio Ysgol Llangoed pe bai Ysgol Biwmares yn cau. I'r plant hynny o Ysgol Biwmares sy'n dewis mynychu Ysgol Llangoed, cynhelir asesiad effaith traffig a thrafnidiaeth gan fod y pellter dros 2 filltir.
- Mae'r ymholiadau hynny â CADW wedi'u cychwyn mewn perthynas ag adeilad Ysgol Biwmares. Mae potensial i ddefnyddio tir y tu ôl ac o flaen yr adeilad mewn ymgynghoriad â Swyddogion CADW.
- Wrth gyflwyno eu cynigion i Lywodraeth Cymru, rhaid i'r Swyddogion ystyried niferoedd disgyblion a ragwelir. Mae'r Awdurdod yn archwilio data mewn perthynas â genedigaethau rhagamcanol mewn ardal ac yna caiff y ffigwr hwn ei gynnwys yn y cyfrifiadau ar gyfer niferoedd disgyblion rhagamcanol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn defnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru i gyfrifo rhagamcanion.
- Bod gofynion Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn uchelgeisiol o ran moderneiddio asedau ysgolion, ac er nad yw'r cynnig ar gyfer Seiriol yn darparu ysgol newydd ar gyfer yr ardal, bydd adnewyddu Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed yn trawsnewid y ddwy ysgol ac yn creu ysgolion modern, addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- Bod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a wnaed ar 18 Gorffennaf, 2018 hefyd yn cydnabod y dylai unrhyw drefniant fynd i'r afael â'r angen am ddarpariaeth cyn-ysgol yn ardal Seiriol.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau.

Gwnaeth y Prif Weithredwr y pwyntiau canlynol -

- Ystyriwyd yr opsiwn o adeiladu ysgol newydd ar gyfer ardal Seiriol i ddisodli'r ysgolion sy'n bodoli'n barod – Ysgol Llandegfan, Ysgol Llangoed ac Ysgol Biwmares - yn ogystal ag opsiwn i leoli ysgol fawr yn agosach at Borthaethwy. Nid oeddent wedi'u cynnwys yn yr opsiynau a ffafrir oherwydd nad oedd tir ar gael, a hefyd oherwydd daeth yn amlwg yn y broses ymgynghori nad oedd rhieni yn Llandegfan yn dymuno teithio i Fiwmares a bod rhieni a rhanddeiliaid o Fiwmares a Llangoed yn pryderu am natur y ffordd i Landegfan a Phorthaethwy.
- Gwnaed ac ystyriwyd asesiad o effaith cau Ysgol Biwmares ar y gymuned. Pe bai penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn sefyll, mae'n hanfodol bod cymunedau Biwmares a Llangoed yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr ysgol newydd yn Llangoed yn llwyddo.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda Swyddogion CADW mewn perthynas ag adeilad presennol Ysgol Biwmares; y gobaith yw y gellir cyrraedd yr un trefniant fel yn achos Ysgol Cybi yng Nghaergybi lle mae ffrynt yr ysgol bresennol yn cael ei gadw.
- Mae llunio Achos Busnes yn un o'r tasgau a wneir unwaith y gwneir penderfyniad. Rhaid i gyflwyniadau ar sail Achos Busnes am gyllid ar gyfer prosiectau ysgol o dan Raglen

DRAFT

Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain fod yn fanwl ac mae'n ofynnol iddynt fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion.

Rhoddwyd cyfle i lofnodwyr y cais galw i mewn, yr Arweinydd a'r Swyddogion grynhoi.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac, er ei fod yn cydnabod bod cau ysgol yn beth anodd ei wneud, roedd o blaid cefnogi penderfyniad y Pwyllgor Gwaith am y rhesymau y bydd yn golygu uwchraddio dwy ysgol yn ardal Seiriol i gwrdd â safonau modern, ysgolion yr unfed ganrif ar hugain; bydd yn mynd i'r afael â phroblem lleoedd gwag yn ysgolion yr ardal, gyda chanran uchel o'r lleoedd hynny yn Ysgol Biwmares, ac oherwydd na chynhyrchwyd unrhyw dystiolaeth yn y cyfarfod hwn i ddangos bod opsiwn mwy priodol yn bodoli, ac o gadw mewn cof fod nifer o opsiynau wedi eu hystyried yn ystod yr ymgynghoriad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod gan y Pwyllgor dri opsiwn wrth ddod i benderfyniad ar y cais galw i mewn, sef.

- Gwrthod y cais galw i mewn a chadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Gwaith.
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a'i gyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad y dylid ei ailystyried a/neu ei ddiwygio.
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a chyfeirio'r mater gydag argymhelliad i'r Cyngor Llawn. Yn yr achos hwn, gan nad yw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn groes i'r Fframwaith Cyllideb na'r Polisi nac yn anghyson â'r Gyllideb, nid oes gan y Cyngor unrhyw bŵer yn y mater. Byddai'n ymgynnull yn unig i ystyried y mater ac, os yw'n gwrthwynebu'r penderfyniad, ei gyfeirio yn ôl gydag unrhyw sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith fel y corff gwneud penderfyniadau. Ni allai'r Cyngor ddod i benderfyniad newydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y cais galw i mewn yn cael ei wrthod. Yn y bleidlais ddilynol cafodd y cynnig ei gario.

**Penderfynwyd gwrthod y cais galw i mewn yn ymwneud â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2018 mewn perthynas â moderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol.**

*O ganlyniad, mae penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn dod i rym yn syth.*

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **12 Medi 2018** |
| **Pwnc:** | **Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Diweddariad ar waith y Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Robin Wyn Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/ion**

**R1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Cynnydd hyd yma o ran gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid, o ran cyflawni ei raglen waith a mesur effaith a gwerth a ychwanegwyd
- Fod y prosesau'n ymwneud â monitro cyllideb 2018/19 yn ymddangos yn addas i bwrpas ac ar y trywydd iawn
- Y rhaglen ddatblygu sgriwtini ariannol barhaus ar gyfer aelodau'r Panel sy'n cael ei chyflwyno gan CIPFA Cymru.

**R2** Uwchgyfeirio'r mater canlynol er ystyriaeth gan y Panel Sgriwtini Corfforaethol:

- Mynegi pryder parhaol ynglŷn â phwysau ar y gyllideb yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Hefyd, nodi fod y Panel yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus a bod trefniadau yn eu lle i sicrhau deialog rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn darparu esboniad am y sefyllfa ariannol yn y ddau wasanaeth ac effaith y mesurau lliniaru sydd mewn lle i reoli gorwariant. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y Panel yn parhau i adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor hwn wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Cyswllt uniongyrchol gyda Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol. Trwy roi ystyriaeth i faterion ariannol bydd y Panel yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor yn ymateb mewn modd cadarn mewn perthynas â materion ariannol a bod camau mewn lle i liniaru unrhyw risgiau.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ynglŷn â blaenoriaeth y ffrydiau gwaith yn rhaglen waith y Panel?
2. A yw gweithredoedd y Panel hyd yma'n ddigon cadarn?
3. A oes gan y Pwyllgor farn ynglŷn â chyflymder neu ansawdd datblygiadau diweddar mewn perthynas â chraffu ariannol dan arweiniad y Panel?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR**

1.1 Bydd aelodau eisoes yn ymwybodol fod sgriwtini wedi datblygu yn ystod y misoedd diwethaf yn sgil gwaith y 3 phanel sgriwtini, sef – Panel Sgriwtini Cyllid, Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion a Phanel Gwella Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Sgriwtini Cyllid**.

1.2 **Trefniadau Llywodraethu'r Panel**
Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor hwn eisoes[1], mae trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle fel sylfaen i waith y Panel a'r bwriad yw ceisio parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Panel, yn unol ag amserlen y Pwyllgor Gwaith ar gyfer monitro'r gyllideb yn ogystal â phroses gosod cyllideb yr Awdurdod. Mae trefniadau mewn lle i'r Cynghorwyr Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams (cyn iddo gan ei benodi'n Ddeilydd Portffolio Adnoddau), fel cynrychiolwyr y Pwyllgor Sgriwtini ar y Pwyllgor hwn, adrodd i'r Pwyllgor hwn bob chwarter.

**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

2.1 Erbyn hyn, mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi cwrdd ar 10 achlysur, sef:

- 17 Awst 2017
- 29 Medi 2017

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2017

- 25 Hydref 2017
- 1 Rhagfyr 2017
- 5 Ionawr 2018
- 2 Chwefror 2018
- 14 Mawrth 2018
- 26 Ebrill 2018
- 5 Gorffennaf 2018
- 17 Awst 2018

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel yn ystod y cyfnod Gorffennaf-Awst 2018:

- **Trefniadau Llywodraethu** – mae trefniadau llywodraethu clir yn parhau i fod mewn lle (yn cynnwys cylch gorchwyl) ynghyd â rhaglen waith yn gosod fframwaith gadarn ar gyfer gwaith y Panel. Mae CIPFA Cymru wedi cadarnhau'r farn hon. Bwriedir ailymweld â manylion y trefniadau hyn fel rhan o adolygiad ehangach ar drefniadau a dogfennaeth sgriwtini.
- **Mewnbwn arbenigol allanol** – ar gais aelodau'r Panel, trefnwyd mewnbwn arbenigol allanol gan CIPFA Cymru dros gyfnod o 4 o gyfarfodydd y Panel[2] er mwyn ein cynorthwyo i arfarnu a thystiolaethu effaith gwaith y Panel a'r gwerth a ychwanegwyd. Yn ogystal, mae mewnbwn CIPFA Cymru wedi cynnwys rhaglen datblygu a mentora wedi ei theilwra ar gyfer aelodau mewn perthynas â sgriwtini ariannol yn ystod pob cyfarfod. Bydd CIPFA'n dychwelyd i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn cynorthwyo'r Panel i fesur y cynnydd o ran datblygu sgriwtini cyllid dan arweiniad Aelodau yn y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Panel wedi cytuno i rannu deilliannau'r ffrwd gwaith hwn er mwyn datblygu arfer dda yn genedlaethol.

  Mae'r mewnbwn arbenigol hwn i waith y Panel wedi creu sylfaen gadarn er mwyn datblygu a chefnogi sgriwtini ariannol effeithiol yn yr Awdurdod, gan ymgorffori gwydnwch yn ein ymarfer a gweithdrefnau sgriwtini.

- **Thema 1 – Monitro Cyllideb (Chwarter 1)** – Edrychodd y Panel[3] ar y negeseuon cychwynnol mewn perthynas â'r gyllideb refeniw Chwarter 1, cyn i'r Pwyllgor Gwaith[4] ystyried y mater. Roedd y Deilydd Portffolio Adnoddau'n bresennol yn ystod y drafodaeth hon er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i aelodau'r Panel. Nododd aelodau'r Panel y meysydd canlynol sy'n creu pwysau ariannol:
  - Gwasanaethau Plant
  - Gwasanaeth Dysgu
  - Gwasanaethau Oedolion – anableddau dysgu a gwasanaethau ar gyfer oedolion sydd ag anghenion gofal corfforol neu'n ymwneud â'r synhwyrau
  - Gwasanaethau Eiddo – cynnal a chadw, glanhau ysgolion

[2] Cyfarfodydd y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2017, 5 Ionawr 2018, 2 Chwefror 2018, 14 Mawrth 2018
[3] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 17 Awst 2018
[4] Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Medi 2018

- **Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu** – mae craffu ar bwysau ariannol yn y ddau wasanaeth wedi parhau'n flaenoriaeth allweddol i'r Panel a rhoddwyd ystyriaeth i wybodaeth bellach a gomisiynwyd gan y ddau Bennaeth Gwasanaeth yng nghyfarfod y Panel[5] ym mis Gorffennaf. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r agweddau canlynol:
  - Meysydd sy'n creu pwysau yn y ddau wasanaeth:
    i. Plant mewn gofal – all-sirol, pecynnau preswyl, lleoliadau maethu annibynnol. (Roedd y cynnydd yn nifer y plant yn dod i ofal yr Awdurdod yn cael ei adlewyrchu mewn awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr)
    ii. Staff asiantaeth
    iii. Addysg ar gyfer plant mewn lleoliadau all-sirol
    iv. Cludiant ysgol
    v. Clybiau gofal / brecwast mewn ysgolion (casglu incwm)

  - **Sefyllfa derfynol 2017/18** – gorwariant o £1.78m yn y Gwasanaethau Plant a gorwariant o £0.9m yn y Gwasanaeth Dysgu
  - **Mesurau lliniaru**:
    i. Gwasanaethau Plant – craffu ar gost pecynnau gofal cyn cymeradwyo lleoliadau; Panel Cyd Gomisiynu; Tîm Teuluoedd Gwydn; Swyddog Cytundebau ar y Cyd (Plant a Dysgu); "Grŵp Cartrefi Bach"; adolygu'r pecyn i ofalwyr maeth; polisi cludiant newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
    Risg: dim rheolaeth dros nifer y plant sy'n dod i mewn i ofal (*gwasanaeth a arweinir gan y galw*)
    ii. Gwasanaeth Dysgu – roedd rhai o'r mesurau lliniaru a amlinellir uchod yn fentrau ar y cyd rhwng y ddau wasanaeth. Yn ychwanegol, system a phroses mwy effeithiol ar gyfer cludiant ysgol drwy ddefnyddio'r system gludiant "One"; herio pob cais am gludiant ysgol yn erbyn y meini prawf; adolygu'r polisi cludiant ysgol; tynhau cydweithio gydag ysgolion er mwyn gwneud y mwyaf o incwm (clybiau gofal / brecwast).
    Risgiau: cynnydd mewn galw; cyllideb annigonol; ysgolion unigol yn methu â chasglu incwm
  - **Rhagamcanion 2018/19**: yn seiliedig ar ragamcanion cychwynnol, roedd gorwariant yn debygol yn y Gwasanaethau Plant. Mae lefel y gorwariant yn dibynnu ar ba mor gyflym fydd y mesurau lliniaru yn cael effaith.

    **Mae'r Panel wedi gwahodd y ddau Bennaeth Gwasanaeth i gyflwyno diweddariad pellach ar effaith y mesurau lliniaru a weithredwyd i'r Panel ym mis Medi 2018.**

- **Thema 3 – Proses gosod cyllideb flynyddol** ar gyfer 2019/20. Mae adolygiad o raglen waith y Panel wedi bod yn sbardun i gytuno ar rôl y Panel yn y broses gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf:
  i. Cymerodd cynrychiolydd o'r Panel ran yng nghyfarfod y grŵp llywio gosod cyllideb[6] i ystyried deilliannau adolygiad diweddar o'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2018/19
  ii. Y Panel Sgriwtini Cyllid i gymryd golwg fanwl ar y cynigion effeithlonrwydd cychwynnol ar gyfer 2019/20 cyn y gweithdai cyllideb ar gyfer Aelodau a gynhelir yn gynnar ym mis Hydref 2018. Ffocws sgriwtini → craffu ar y

[5] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2018
[6] Cynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2018

gyflawnadwyedd, rhwystrau a risgiau. Y gwaith hwn i gynnwys trafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth

iii. Aelodau'r Panel i gyflwyno canfyddiadau eu gwaith sgriwtini ar gynigion cychwynnol 2019/20 i'r gweithdai cyllideb ar gyfer Aelodau[7].

- **Strategaeth Arbedion Effeithlonrwydd y Cyngor (2018/19) –** rhoddodd y Panel[8] ystyriaeth fanwl i'r arbedion effeithlonrwydd a roddwyd ar waith hyd yma yn y Gwasanaeth Dysgu, Gwasanaethau Oedolion a Phriffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, er mwyn:
  i. dod i farn ynglŷn â chanran debygol yr arbedion effeithlonrwydd fydd yn cael eu gwireddu'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn
  ii. Nodi unrhyw rwystrau a risgiau yn gynnar ac unrhyw wersi i'w dysgu wrth symud ymlaen.

  Daeth y Panel i'r casgliadau a ganlyn mewn perthynas â gweithredu strategaeth arbedion effeithlonrwydd 2018/19:

  - Gwasanaethau Oedolion – roedd yn ymddangos fod y ffrydiau gwaith ar y trywydd cywir hyd yma. Adroddwyd fod pwysau o ran anableddau dysgu a gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau corfforol
  - Gwasanaeth Dysgu - roedd yr holl ffrydiau gwaith arbedion effeithlonrwydd wedi dechrau ond roedd risgiau'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf ohonynt a rhagwelwyd llithriad erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, ni fydd y pecyn meddalwedd cludiant ysgol newydd a'r broses o gaffael y cytundebau newydd wedi'u cwblhau tan fis Ionawr 2019 (gan arwain at arbediad effeithlonrwydd o 3/12fed yn ystod 2018/19). Mae risgiau'n parhau i fod yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (all sirol) a'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (Gwynedd/Ynys Môn), gan fod y ddau ohonynt yn wasanaethau a arweinir gan y galw
  - Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – roedd yn ymddangos fod yr holl ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn hyd yma.

- **Rhaglen waith ac effaith sgriwtini** – mae'r Panel wedi cyflwyno trefn o gynnal hunan arfarniad o berfformiad ar ddiwedd pob cyfarfod. Ymddengys fod yr arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith sgriwtini ariannol y Panel. Fel deilliant cyntaf, nododd y Panel yr angen i sicrhau gwell aliniad rhwng cylchoedd cyllidebol y Cyngor a blaen raglen waith y Panel. Erbyn hyn mae'r aliniad hwn yn sylfaen i raglen waith y Panel.

## 3. MESUR DEILLIANNAU AC EFFAITH Y PANEL

### 3.1 Cyd-destun

Mae casglu ac asesu effaith Sgriwtini yn her gan nad yw deilliannau gweithgareddau sgriwtini bob amser yn weladwy ac yn aml nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig. Yn ogystal, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, mae taith y Panel Sgriwtini cyllid yn enghraifft o faes lle mae cyfraniad sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac wedi dylanwadu ar sut y gweithredwyd y cynigion gan y Cyngor.

[7] Gweithdai Aelodau I'w cynnal yn ystod yr wythnos yn cychwyn 1 Hydref, 2018
[8] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 17 Awst, 2018

| **4. MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO ER YSTYRIAETH GAN Y PRIF BWYLLGOR** |
|---|
| Y mater a ganlyn i'w uwchgyfeirio er ystyriaeth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:<br><br>4.1 Pwysau cyllidebol presennol yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn am gadernid gweithredoedd y Panel hyd yma. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr elfennau canlynol ar waith y Panel Sgriwtini Cyllid:<br>i. Monitro perfformiad cyllideb refeniw 2018/19<br>ii. Pwysau ar y gyllideb yn 2018/19<br>iii. Y broses gosod cyllideb ar gyfer 2019/20<br>iv. Trefniadau llywodraethu a ffocws sgriwtini wrth baratoi ar gyfer y broses o osod cyllideb 2019/20<br>v. Mesur deilliannau ac effaith |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7HF |

**Cynghorydd Dafydd Roberts**
**Aelod Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid**
**Dyddiad: 24/08/18**

| | |
|---|---|
| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 12.09.18 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Perthnasol i'r holl Aelodau |

**1 - Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

1.1. Gadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon â'r camau a gymerwyd i symud ymlaen i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a graddau'r cynnydd.

1.2. Cadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon â graddau'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae cysylltiadau clir â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Chynllun Ynys Môn 2017/2022. Yr amcanion yw:

1. Sicrhau y gall pobl Môn ffynnu a gwireddu eu potensial yn yr hirdymor.
2. Cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus i gadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.
3. Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau gan ddiogelu ein hamgylchedd naturiol.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

Bydd y set ganlynol o egwyddorion fel canllaw yn helpu Aelodau i graffu ar y mater hwn:

3.1 Y cwsmer/dinesydd [edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt pobl leol]
3.2 Gwerth [ystyried a yw cynlluniau a chynigion yn economaidd, effeithlon ac effeithiol. Hefyd, edrych ar ofynion ehangach buddion cymunedol]

3.3 Risg [Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt cadernid a thrawsnewid gwasanaeth. Mae a wnelo â newid o fod yn wasanaeth traddodiadol i un sydd wedi'i drawsnewid, ac â chadernid y gwasanaeth hwnnw unwaith y mae yn ei le]
3.4 Canolbwyntio ar y system [yn cynnwys datblygiad sefydliadol) [Sicrhau bod gan y Cyngor a'i bartneriaid y systemau yn eu lle i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'r broses drawsnewid yn llyfn, effeithlon a heb unrhyw effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau]
3.5 Canolbwyntio ar berfformiad ac ansawdd [Y pwyllgor sgriwtini i ymgymryd â rôl monitro perfformiad neu sicrwydd ansawdd, ar sail eithriad]
3.6 Canolbwyntio ar Les [Edrych ar gynlluniau a chynigion o bersbectif gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol]

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Ydi'r Pwyllgor yn fodlon â graddau'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Cefndir**

Fel Aelodau Etholedig rydych yn gwbl ymwybodol o'r cefndir ynglŷn â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant.

Ers yr adroddiad diwethaf mae ffocws y gwaith o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi bod ar:

**1. Recriwtio a Chadw**

Mae'r gwasanaeth wedi hysbysebu am "Weithwyr Cymdeithasol Profiadol", ac er gwaetha'r prinder cenedlaethol o weithwyr o'r fath, llwyddwyd yn ddiweddar i recriwtio dau Weithiwr Cymdeithasol profiadol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweithredu'r cynllun wrth gefn, hynny yw, recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso (NQSW) i'r swyddi hyn ac yna cyflogi gweithwyr cymdeithasol asiantaeth profiadol "gor gapasiti" am gyfnod o 1 flwyddyn. Pwrpas hyn yw cefnogi'r gweithwyr NQSW drwy gydol eu tair blynedd gyntaf mewn fframwaith Ymarfer, sy'n fframwaith statudol. Yn ddiweddar rydym wedi penodi 5 Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso i'r Gwasanaeth. Byddwn yn parhau i recriwtio nes ein bod wedi penodi Gweithwyr Cymdeithasol parhaol.

Ym Mai 2008 cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ryddhau £268,008 o gyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i ariannu'r gofynion ychwanegol o ran recriwtio. Defnyddir yr arian hwn i:

- gyflogi 7 NQSW i dimau gwaith maes o Hydref 2018 (3 eisoes wedi'u penodi);
- cefnogi'r 7 NQSW trwy sefydlu 4 Gweithiwr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso am 12 mis;
- ymestyn y capasiti cyfreithiol o fewn y Gwasanaeth (1.5 FTE ar hyn o bryd) trwy gyflogi Cyfreithiwr 1 FTE ychwanegol am gyfnod o 12 mis;

- recriwtio 3 Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso ac 1 Arweinydd Ymarfer i weithio ar Achosion Hanesyddol.

Mae'r Tîm Achosion Hanesyddol yn eu lle ac yn archwilio, asesu a gwneud cynnydd ar achosion hanesyddol i'r cynllun cywir neu i'r Llysoedd. Mae'r achosion hyn naill ai'n:

1. Achosion lle gwnaed penderfyniad gwael yn y gorffennol
2. Achosion sydd wedi drifftio
3. Achosion heb fod ar y cynllun cywir
4. Goddefgarwch proffesiynol o ran esgeulustod a cham-drin emosiynol
5. Diffyg dull gwaith cymdeithasol ymholgar

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ailstrwythuro'r Tîm Lleoli Plant a'r Tîm Cefnogi Teuluoedd. Mae'r cyfnod ymgynghori bellach wedi dod i ben. Y rhain yw'r rhannau olaf ond un o'r Gwasanaeth sy'n cael eu hailstrwythuro. Bydd yr ailstrwythuro'n lleihau nifer y gweithwyr yn y timau a bydd yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Ni chaiff swyddi eu colli gan fod swyddi gwag eraill o fewn y Gwasanaeth.

**2. <u>Adroddiad Tîm Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol (IST)</u>**

Mae'r Tîm Cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol (IST) wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i helpu i wneud gwelliannau yn sgil yr archwiliad ar gais y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y meysydd canlynol:

- Gwirio pryderon a leisiwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth ynglŷn ag ansawdd yr ymarfer;
- Mesur cynnydd o ran datblygu Strategaeth Gweithlu effeithiol;
- Sefydlu'r graddau yr oedd Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn ei le;

Maent wedi gwneud cryn waith gyda'r Gwasanaeth ac wedi bod yn adolygu gwahanol agweddau gan roi adborth ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella. Cyflwynwyd eu hadroddiad terfynol i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn ystod mis Gorffennaf 2018.

Dywedodd yr IST *"mae nifer o nodweddion calonogol a chadarnhaol sydd wedi dod yn amlwg yn ystod gwaith yr IST ac mae'n bwysig bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i'w cynnal ac adeiladu arnynt":*

- *Mae arweinyddiaeth/strwythur rheoli clir yn ei le;*
- *Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi chwarae rhan amlwg yn y broses o ymateb i Adroddiad AGGCC ac mewn gwaith i gryfhau perfformiad gwasanaethau plant.*
- *Mae'n cael ei chefnogi gan Bennaeth Gwasanaeth a benodwyd ym mis Tachwedd 2017. Mae ganddo brofiad sylweddol a pherthnasol ac mae'n darparu eglurder ac egni gwych wrth fynd i'r afael â'r rhaglen wella.*
- *Mae'r tîm o 4 Rheolwr Gwasanaeth oll yn weithwyr proffesiynol profiadol sy'n cael eu parchu;*

- *Bu i'r Awdurdod ymateb yn gyflym i Adroddiad Archwilio 2017 trwy baratoi Cynllun Gwella Gwasanaeth cynhwysfawr, gan ddechrau camau i weithredu ei rannau ? a monitro cynnydd pob un o'r rhain yn rheolaidd. Mae'n bwysig cydnabod y rhan bwysig y chwaraeodd y Pennaeth Gwasanaeth Interim i ddatblygu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chydlynu'r adolygiad parhaus o'r cynnydd a wnaed;*
- *Gwnaed trefniadau i gynnig gwell rheolaeth, mentora a chefnogaeth i Weithwyr Cymdeithasol a sefydlwyd strwythur gweithredu newydd yn cynnwys creu 9 o swyddi Arweinydd Ymarfer gyda phob un yn gyfrifol am dîm bach o Weithwyr Cymdeithasol;*
- *Roedd yr holl Arweinwyr Ymarfer yn eu swyddi erbyn Awst 2017;*
- *Mae trefniadau gwaith ar lefel weithredol rhwng y gwasanaeth ac Adnoddau Dynol Corfforaethol yn dda ac yn arwain at drefn recriwtio effeithiol i swyddi gwag a rhaglenni hyfforddi a datblygu staff perthnasol;*
- *Mae'r Uned Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Gwella, o dan arweinyddiaeth ei Rheolwr Gwasanaeth newydd, wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n gweithredu. Bellach mae mewn sefyllfa i adrodd yn rheolaidd ar berfformiad y gwasanaeth, trwy weithio gyda'r Rheolwyr Gwasanaeth eraill, er mwyn cyfrannu at wella'r gwasanaeth;*
- *Mae'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn cael ei harwain gan Reolwr Gwasanaeth hynod o ymroddedig, mae'n gweithio'n dda, yn cynyddu o ran effeithiolrwydd ac mae'n fodel y gallai awdurdodau eraill ddysgu oddi wrthi;*
- *Mae'n bwysig cydnabod bod rhai arwyddion o wella yn ansawdd yr ymarfer. Fodd bynnag, mae pryder o hyd ynglŷn â'r graddau y mae hyn yn digwydd yn gyson;*
- *Yn gyffredinol mae staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau sydd wedi'u gwneud ac yn nodi bod angen newid, yn arbennig yn y model gwasanaeth a ddatblygir yn yr Awdurdod;*
- *Mae'r Prif Weithredwr yn neilltuo amser i oruchwylio'r cynnydd o ran gwella gwasanaethau cymdeithasol plant, mae'n disgwyl y bydd hyn yn digwydd ac mae'n darparu cefnogaeth ymarferol ac ariannol pa fo angen rhoi sylw i broblemau penodol;*
- *Mae Arweinydd yr Awdurdod wedi ffurfioli ei chefnogaeth i'r gwasanaeth trwy gadeirio Panel Gwella Gwasanaethau Plant a hefyd mae'n ymgymryd â chyfrifoldebau deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r olaf yn drefniant anarferol yng nghyd-destun llywodraeth leol yng Nghymru ac mae i'w groesawu'n fawr yn y sefyllfa a wynebir gan yr Awdurdod;*
- *Mae lefel dealltwriaeth wleidyddol, yn arbennig ar ran Uwch Aelodau, o'r materion sy'n cael sylw o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant yn uchel. Mae tystiolaeth o hyn yn nhrafodaethau'r Panel Gwella, ym mherfformiad y Pencampwr Plant ac yng nghysylltiad Cadeirydd y Bartneriaeth a'r Pwyllgor Sgriwtini Adfywio.*

*Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ffurfio ystod arbennig o ffactorau sy'n argoeli'n dda i sicrhau gwelliant parhaus ar draws gwasanaethau cymdeithasol plant yn yr Awdurdod.*

Dyma gasgliadau'r IST o ganlyniad i weithio gyda'r Gwasanaeth:

- *Mae'n bwysig cydnabod yr her yr oedd yr Awdurdod yn ei hwynebu mewn ymateb i ganfyddiadau Adroddiad Archwilio AGGCC a'r argymhellion ynddo. Paratowyd*

*Cynllun Gwella Gwasanaeth yn gyflym a gweithredwyd rhaglen wella gynhwysfawr. Gwnaed newidiadau strwythurol pwysig, yn cynnwys creu haen newydd o Arweiniwyr Ymarfer, pob un â thîm bach o Weithwyr Cymdeithasol, a gweithredwyd trefniadau ar gyfer Rheolwr Gwasanaeth newydd. Sefydlwyd Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae hwn yn darparu model y gallai eraill ei hefelychu. Llwyddodd y Cyfarwyddwr i sicrhau cytundeb Corfforaethol a Gwleidyddol ar gyfer y newidiadau hyn a phenodi Pennaeth Gwasanaeth newydd erbyn Tachwedd 2017. Gweithredwyd y trefniadau staffio newydd dros gyfnod byr o amser.*

- *Mae graddau'r newid yng ngwasanaethau plant wedi bod yn sylweddol ac yn ystod ei waith, mae'r IST wedi sylwi ar welliant amlwg o ran morâl ac ymrwymiad i'r cyfeiriad y mae'r gwasanaeth yn mynd iddo. Mae cynnydd calonogol hefyd wedi'i wneud i leihau dibyniaeth y gwasanaeth ar Weithwyr Cymdeithasol Asiantaeth a chynyddu nifer y penodiadau parhaol y mae wedi gallu eu gwneud.*

- *Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), fodd bynnag, wedi cael effaith niweidiol ar ymdrechion yr Awdurdod i wella. Cyfeiriwyd at ei chyfyngiadau difrifol drwy gydol yr Adroddiad hwn, Mae rheolwyr yn glir iawn ynglŷn â'r broblem, a bellach mae rhaglen waith i geisio mynd i'r afael â diffygion y system yn ei lle. Bydd angen sylw parhaus i hyn a gobeithio y bydd y gwasanaeth yn gallu symud i sefyllfa lle y gall sicrhau, ar lefel weithredol a strategol, yr hyn oedd wedi gobeithio ei gael ar y dechrau o'r system.*

- *Ym marn yr IST, mae materion amlwg y bydd angen rhoi sylw parhaus iddynt os yw'r Awdurdod am adeiladu ar y llwyfan calonogol y mae bellach wedi'i chreu. Nodir y rhain yn yr Adroddiad ac fe'i rhannwyd gydag Uwch Swyddogion wrth i'n gwaith ddatblygu. Ar hyn hoffwn dalu teyrnged i'r ffordd agored a chadarnhaol y mae staff o fewn gwasanaethau plant ac ar draws yr Awdurdod ynghyd â Chynghorwyr wedi cydweithredu gyda ni yn ystod ein gwaith. Mae rheolwyr wedi sicrhau ein bod yn cael y mynediad oedd ei angen arnom drwy'r amser ac maent wedi ymateb yn gadarnhaol trwy roi sylw i'r materion yr ydym wedi'u codi. Mae tystiolaeth o hyn mewn nifer o bwyntiau yn yr Adroddiad ac yn arbennig yn yr adran sy'n dwyn y teitl "Materion sydd Angen ac sy'n Cael Blaenoriaeth". Dyma'r adeg briodol i gofnodi ein diolch i bawb.*

Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried er mwyn parhau i wneud gwelliannau yn y Gwasanaeth.

**3. <u>Gwelliant o ran Dangosyddion Perfformiad</u>**

Mae gwelliant amlwg yn erbyn Dangosyddion Perfformiad (DP) yn ystod y chwarter diwethaf. Dylid nodi, oherwydd niferoedd cymharol isel plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o fewn yr Awdurdod Lleol, fod nifer fach o blant a phobl ifanc (2-4) yn gwneud newidiadau sylweddol i'r DP, ond gellir gweld yn glir bod gwelliannau wedi'u gwneud.

Dyma dystiolaeth o'r gwelliant yn ystod Chwarter 1 2018/19 o'i gymharu â'r ffigyrau cronnus ar gyfer 2017/18 ar y Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol penodol hyn a'r Dangosyddion Perfformiad lleol:

| | **Dangosydd Perfformiad Allweddol** | **2017/18 Cronnol** | **Chwarter 1 2018/19** |
|---|---|---|---|
| PM C-24 | Canran asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith). | 67.57% | 96.39% |
| PM C-27 | Canran ail-gofrestriadau plant ar Gofrestri Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol o fewn 12 mis i ddiwedd y cofrestriad blaenorol. | 6.35% | 0% |
| PM C-32 | Canran plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol (1) neu fwy o weithiau, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod yn derbyn gofal, nad oedd o ganlyniad i drefniadau trosiannol, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth. | 32.29% | 0% |
| PM C-33 | Canran plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn. | 9.15% | 1% |
| PM C-34 | Canran yr holl rai sydd wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol (2016-17 ar gyfer 2017-18 a 2017-18 ar gyfer 2018-19) sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith 12 mis ar ôl gadael gofal. | 38.00% | 63% |
| PM C-36 | Canran y rhai sydd wedi gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn, i gynnwys yr holl bobl ifanc berthnasol rhwng 16 a 24. | 5.00% | 4.00% |
| SCC006 | Canran atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad o fewn 1 diwrnod gwaith. | 86.31% | 96.00% |
| SCC/010 (Lleol) | Canran atgyfeiriadau sy'n ail-atgyfeiriadau o fewn 12 mis | 15.00% | 11.87% |

Mae'r ffigyrau'n galonogol ac yn dangos bod y Gwasanaeth yn gwella yn erbyn dangosyddion perfformiad, a bod y Gwasanaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwelliant yn cael ei gynnal a'i wella ymhellach.

**4. Sylwadau Cadarnhaol**

Mae nifer y sylwadau cadarnhaol wedi cynyddu o fewn y Gwasanaeth sy'n welliant cadarnhaol iawn o ran ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Ynys Môn.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf bu cynnydd mewn sylwadau cadarnhaol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2017/18, cafwyd 96 o sylwadau cadarnhaol gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd gyda 32 ohonynt gan weithwyr proffesiynol eraill, tra bod 64 gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu cynrychiolwyr, neu aelodau'r teulu, neu ofalwyr maeth.

Cafodd y Gwasanaeth 33 o sylwadau cadarnhaol yn ystod chwarter 1 eleni sy'n galonogol i'r Gwasanaeth. Mae cwynion i'r Gwasanaeth hefyd wedi lleihau, ond rhaid cydnabod bod natur y Gwasanaeth a'r swyddogaethau y mae'n eu cyflawni'n golygu ei bod yn anochel ein bod yn derbyn cwynion.

**5. Perfformiad Corfforaethol**

Gwelwyd gwelliant sylweddol o ran perfformiad y Gwasanaeth mewn perthynas â chyrraedd safonau perfformiad corfforaethol.

Yn y gorffennol nid yw'r Gwasanaeth wedi perfformio cystal o ran cyflawni safonau corfforaethol fel y targed absenoldeb salwch corfforaethol a chwblhau'r modiwlau hyfforddiant arlein mandadol, mae'r Gwasanaeth bellach yn perfformio'n well yn erbyn targedau.

O ran hyfforddiant arlein mae lefel cydymffurfio'r Gwasanaeth Plant wedi gwella'n sylweddol, gyda chyfradd cydymffurfio ar gyfartaledd yn 99% ar 24 Gorffennaf 2018, o'i gymharu â chanran gyfartalog o 57% ar ddiwedd y cyfnodau derbyn chwe wythnos.

**6. Digwyddiad Dathlu Gofalwyr Maeth CSYM – 10 Gorffennaf 2018**

Yn ddiweddar trefnodd y gwasanaeth ddigwyddiad dathlu ar gyfer gofalwyr maeth i ddweud "diolch" wrth holl ofalwyr maeth yr awdurdod lleol a theuluoedd a chyfeillion (pobl gysylltiedig) gofalwyr maeth.

Roedd hwn yn gyfle, nid yn unig i ofalwyr maeth gyfarfod yr uwch dîm arweinyddiaeth, staff ac aelodau etholedig y Cyngor, ond hefyd, yn bwysicach, roedd yn gyfle i'r awdurdod gydnabod yn ffurfiol y gwaith gwerthfawr y mae gofalwyr maeth yn ei wneud, 24 awr y dydd, gyda rhai o blant a phobl ifanc mwyaf bregus Ynys Môn.

Estynnodd y Cynghorydd Llinos Medi wahoddiad fesul un i'r gofalwyr maeth dderbyn tystysgrif diolch a rhannu ychydig o eiriau am eu profiad o faethu. Boed yn ofalwyr prif lif neu'n ofalwyr sy'n berthnasau, yn ofalwyr newydd eu cymeradwyo neu'n rhai mwy profiadol, rhoddodd pawb enghreifftiau diffuant o'r hyn mae'n ei olygu i helpu plentyn i gyflawni ei botensial a'r pleser o'i weld/gweld yn ffynnu a llwyddo.

Roedd y gwasanaeth hefyd yn falch o allu cyhoeddi Aelodaeth am ddim i Wasanaethau Hamdden Ynys Môn i ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor ac i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn y digwyddiad. Cytunwyd yn flaenorol i ddarparu aelodaeth hamdden am ddim i rai sy'n gadael gofal yn Ynys Môn, ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwasanaeth hamdden am ymestyn hyn i gynnwys holl ofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn.

Cododd yr angen i gynnal y digwyddiad yn sgil trafodaethau rhwng y Gwasanaeth a'i ofalwyr maeth yn Fforwm Gofal Maeth Ynys Môn. Cytunodd y fforwm bod rhyw fath o gydnabyddiaeth ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol, fel rhiant corfforaethol, i gydnabod rôl gofalwyr maeth yn bwysig. Roedd yr Awdurdod Lleol yn arfer cynnal seremoni 'gwobrau gwasanaeth hir' yn flynyddol ar gyfer gofalwyr maeth, ond ni chynhaliwyd seremoni ers

| |
|---|
| nifer o flynyddoedd. Roedd y dathliad hwn yn wahanol iawn a dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath yn Ynys Môn.<br><br>Roedd yr adborth gan ofalwyr maeth oedd yn gallu bod yn bresennol yn gadarnhaol, a chafwyd sylwadau am y dathliad, a sut yr oedd yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan staff ar bob lefel a gweinyddiaeth o fewn yr Awdurdod.<br><br>Mae'r Gwasanaeth yn dymuno diolch i'r aelodau etholedig oedd yn bresennol yn y Digwyddiad Dathlu.<br><br>**7. <u>Gweithdy Partneriaid Strategol - 19 Gorffennaf 2018</u>**<br>Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n galed i wella'r broses o weithio mewn partneriaeth ac yn benodol gyda phartneriaid strategol. Cynhaliwyd Gweithdy Partneriaid Strategol ar 19 Gorffennaf 2018 er mwyn rhannu cynnydd gyda phartneriaid a gofynnwyd iddynt barhau i fod yn rhan o'r llwybr tuag at wella. Yn y gweithdy esboniwyd canfyddiadau'r archwiliad ac amlinellwyd sut mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i'r argymhellion a wnaed gan AGGCC. Rhannwyd y cynnydd a wnaed y llynedd a thrafodwyd blaenoriaethau 2018-19 ac amlinellwyd datblygiadau yn y dyfodol. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| O safbwynt monitro cyllideb Chwarter 1, rhagwelir y bydd y Gwasanaeth yn gorwario o £1.28m yn 2018/19. Mae'r swm hwn ar ôl rhyddhau'r arian wrth gefn a'r treuliau annisgwyl ar gyfer Teuluoedd Cydnerth/Gwasanaethau Gofal Ymylol, Costau Staff Asiantaeth a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Serch hynny, mae hwn yn welliant sylweddol ers y ffigyrau terfynol ar gyfer 2017/18 sy'n dangos gorwariant o of £1.78m.<br><br>Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn parhau i graffu ar yr holl gontractau ac yn achlysurol bydd yn herio costau yn arbennig ar gyfer darpariaeth plant sy'n derbyn gofal. Gwneir ymdrech hefyd i leihau gwariant ar draws y gwasanaeth ac mae hyn yn ei dro wedi lleihau'r gorwariant a ragwelir hyd yma. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **12 Medi 2018** |
| **Pwnc:** | **Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad Cynnydd ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol / Fon Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 - Argymhelliad/ion**

**R1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r:

- Cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, o ran cyflawni ei raglen waith
- Ymddengys fod yr holl ffrydiau gwaith yn ymwneud â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ar darged hyd yn hyn
- Canlyniadau ffrwd waith yr hunan arfarniad diweddar i fesur effaith a gwerth ychwanegol y Panel
- Rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, gyda llawer o'r gwaith hwnnw'n cael ei ddarparu'n fewnol

**R2** Uwchgyfeirio'r mater a ganlyn er mwyn codi ymwybyddiaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

- Er bod cynnydd da wedi ei wneud i weithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae rhai swyddi gweithwyr cymdeithasol yn cael eu llenwi gan staff asiantaeth o hyd. Ymdrinnir â'r mater hwn drwy apwyntio gweithwyr cymdeithasol (profiadol a rhai newydd gymhwyso) a chefnogi gweithwyr cefnogi profiadol i gymhwyso. Dylid nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i ymdrin â hyn.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Yn sgil yr ystyriaeth y mae'r Panel yn ei i roi i gynllun gwella gwasanaeth y gwasanaethau plant, bydd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn sicrwydd fod y Cyngor yn ymateb mewn modd cadarn i argymhellion adroddiad diweddar AGC ar wasanaethau plant (dyddiedig Mawrth 2017) a bod camau mewn lle i liniaru unrhyw risgiau.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

| |
|---|
| **3.1** Effaith mae'r mater yn ei gael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| Ar gais y Panel:<br><br>1. Oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ynglŷn â blaenoriaeth y ffrydiau gwaith a gynhwysir ym mlaen raglen waith y Panel?<br>2. A yw camau gweithredu'r Panel hyd yn hyn yn ddigon cadarn a chyflym?<br>3. Oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ynglŷn â chanlyniadau'r hunan werthusiad diweddar i fesur effaith gwaith y Panel ar raglen wella Gwasanaethau Plant? |

| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
|---|
| **1. CEFNDIR**<br>**1.1** Bydd aelodau'n ymwybodol eisoes fod sgriwtini wedi datblygu yn ystod y misoedd diwethaf drwy waith y 3 panel sgriwtini – Panel Sgriwtini Cyllid, Panel Sgriwtini Adolygu Ysgolion a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn mewn perthynas â'r **Panel Gwella Gwasanaethau Plant.**<br><br>1.2 **Trefniadau Llywodraethu'r Panel**<br>Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor[1] hwn, mae trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle fel sylfaen i waith y Panel ac mae'n fwriad i geisio parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel tan o leiaf diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae trefniadau mewn lle i'r Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel, adrodd ar gynnydd bob chwarter.<br><br>**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT**<br>**2.1** Erbyn hyn mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi cyfarfod 13 o weithiau ers Haf 2017:<br><br>• 17 Gorffennaf 2017<br>• 21 Awst 2017 |

[1] Panel Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Medi a 13 Tachwedd, 2017

- 25 Medi 2017
- 26 Hydref, 2017
- 28 Tachwedd, 2017
- 19 Rhagfyr, 2017
- 23 Ionawr, 2018
- 26 Chwefror, 2018
- 20 Mawrth, 2018
- 25 Ebrill, 2018
- 24 Mai, 2018
- 4 Gorffennaf, 2018
- 30 Gorffennaf, 2018

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel rhwng Mai a Gorffennaf, 2018:

- **Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) –** rhoddwyd trosolwg o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yng nghyfarfodydd y Panel er mwyn sicrhau fod y rhaglen yn ei chyfanrwydd yn aros ar darged. Hefyd, er mwyn caniatáu i'r Panel allu nodi arwyddion cynnar o lithro neu ddiffyg cynnydd. Gofynnodd y Panel am adroddiadau cynnydd ar yr agweddau a ganlyn fel rhan o'i waith o fonitro'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn barhaus:
   i. Fframwaith sicrwydd ansawdd
   ii. Statws RAG pob rhan o'r CGG i sicrhau bod cynnydd yn cael ei olrhain yn effeithiol gan y Panel yn erbyn y prif feysydd blaenoriaeth
   iii. Enghreifftiau o gydweithio â Heddlu Gogledd Cymru sy'n dangos gwell canlyniadau i blant a theuluoedd.

   Adroddwyd bod cynnydd da wedi'i wneud ar weithredu'r CGG. Hefyd, nodwyd eto fod rhai swyddi gweithwyr cymdeithasol yn cael eu llenwi o hyd gan staff asiantaeth a bod angen eu llenwi ar sail barhaol.

   Rhoddodd y Panel ystyriaeth fanwl i'r agweddau canlynol o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth:
   - **Thema 3[2] (CGG)** – sicrhau fframwaith perfformiad a sicrwydd ansawdd sy'n cefnogi'r awdurdod lleol yn effeithiol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant. Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar ganlyniadau archwiliad ffeil diweddar. Nodwyd bod 77% o'r ffeiliau a archwiliwyd[3] wedi'u graddio fel Da a bod y 23% oedd yn weddill Angen eu Gwella. Ni chafodd unrhyw rai eu graddio fel Gwael.
   - **Statws RAG bob prif flaenoriaeth (CGG)** – trosolwg manwl o statws bob prif flaenoriaeth i sicrhau cynnydd digonol. Nodwyd bod 5 rhan o'r CGG yn Ambr a'u bod yn flaenoriaeth yn ystod y misoedd nesaf. Roedd y rhain wedi'u dadansoddi'n ffrydiau gwaith llai er mwyn coladu tystiolaeth a mesur cynnydd yn effeithiol.

- **Arfarniad Allanol –** roedd y Tîm Cefnogi Annibynnol wedi adrodd yn ôl i'r Panel ym mis Gorffennaf [4] ar ganfyddiadau eu hadolygiad cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG).
   **Prif Ganfyddiadau:**

[2] Cyfarfod Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd 30 Gorffennaf, 2018
[3] Achwiliwyd sampl ar hap o 13 ffeil achos yn Ebrill, 2018
[4] Cyfarfod Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, 2018

i. Ymateb penodol wedi'i arwain i'r adroddiad archwiliad
ii. Newidiadau sefydliadol a strwythurol sylweddol wedi eu cyflwyno
iii. Roedd graddau'r newid o fewn Gwasanaethau Plant yn drawiadol
iv. Roedd heriau'r pecyn meddalwedd rheoli achos cenedlaethol newydd yn tanseilio cynnydd yn lleol
v. Roedd sail ragorol wedi'i sefydlu ond rhaid dal ati i wella
vi. Roedd y gallu i gynnal gwelliannau a hefyd proses o newid parhaus yn hanfodol.

- **Ymweliadau Laming** – mae proses adrodd gadarn mewn lle ar gyfer Ymweliadau Laming, sydd â'r nod o ddod â'r Panel yn nes at achosion a chreu'r amodau i Aelodau werthfawrogi cymhlethdod a her cyfrifoldebau'r Gwasanaeth e.e. drwy gyfarfod â staff rheng flaen i drafod gwaith achos yn gyffredinol. Edrychodd aelodau'r Panel ar ddwy agwedd yn ystod y chwarter diwethaf:

  **i. Adroddiad blynyddol –** derbyniwyd adroddiad yn crynhoi themâu Ymweliadau Laming yn ystod 2017/18:
  - Gweithlu / tîm lleoli plant (Hydref, 2017)
  - Teulu Môn (Tachwedd, 2017)
  - Teuluoedd Gwydn / Gwasanaethau Arbenigol Plant (Rhagfyr, 2017)
  - Sicrwydd Ansawdd a diogelu (Ionawr, 2018)
  - Cefnogaeth i blant anabl (Chwefror, 2018)

  **ii. Ymweliadau Laming Misol** – adroddodd Aelodau'n ôl ar Ymweliadau Laming Ebrill → Mehefin o dan y fframwaith llywodraethu cadarnach. Roedd yr ymweliadau hyn wedi canolbwyntio ar:
  i. IFSS (30/04/18) – Rôl tîm, gyda ffocws arbennig ar gyfraniad y Tîm at Thema 4 o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth (gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg a gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i'w helpu i newid fel bod y teulu yn le diogel ar gyfer eu plant)
  ii. Ymyrraeth Gynnar (29/05/18) – pwrpas y Tîm a ffocws ar ei gyfraniad at y Cynllun Gwella Gwasanaeth
  iii. Gwasanaethau Arbenigol i Blant (19/06/18) – arsylwi trafodaeth achos amlddisgyblaethol ar blentyn ag anghenion gofal cymhleth

- **Sesiynau hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth** – wedi'u cynnwys yn rhaglen waith y Panel, caiff y sesiynau hyn eu cynnal ar ddechrau bob cyfarfod Panel. Roedd y meysydd a gafodd sylw yn y misoedd diwethaf yn cynnwys – fframwaith Model Risg ar gyfer asesu risg niwed sylweddol (Bruce Thornton); prif negeseuon o'r Adolygiad Cenedlaethol diwethaf *"Crisis in Care"* (oedd yn edrych ar y ffactorau'n cyfrannu at y cynnydd cenedlaethol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r cynnydd mewn ceisiadau ar gyfer gorchmynion gofal).

## 4. MESUR DEILLIANNAU AC EFFAITH Y PANEL

### 4.1 Cyd-destun

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae cofnodi ac asesu effaith Sgriwtini yn her gan nad yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob amser yn ddiriaethol ac nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig bob tro. Yn ogystal â hyn, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy siarad a thrafod. Fodd bynnag, mae taith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn enghraifft o sgriwtini yn ychwanegu gwerth ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.

### 4.2 Panel Gwella Gwasanaethau Plant

Mae'r gwaith o graffu ar daith wella'r gwasanaethau plant wedi aeddfedu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil mewnbwn y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cymeradwyo'r daith wella hon:

*"….Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad corfforaethol parhaus i sicrhau bod gwasanaethau plant yn gwella a'r parodrwydd i ddod i gyd-ddealltwriaeth ynghylch yr heriau a wynebir. Yn yr un modd, mae'r cynnydd mewn gwaith craffu a herio gan aelodau etholedig wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol….."*

Mae Aelodau'r Panel wedi cynnal hunan arfarniad o waith y Panel[5] er mwyn:

i. mesur effaith y Panel ar raglen wella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
ii. galluogi Aelodau'r Panel i raddio statws RAG Thema 1.5 Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn ymwneud â chynnydd hyd yn hyn yn erbyn dau argymhelliad adroddiad diweddar yr Arolygiaeth Gofal[6] sy'n ymwneud yn benodol â rôl yr Aelodau.

**4.3 Canlyniadau'r Hunan arfarnu gan Aelodau o Banel Gwella Gwasanaethau Plant**

4.3.1 Defnyddiwyd y cwestiynau canlynol fel fframwaith i alluogi Aelodau i werthuso cyfarfod y Panel ar y daith tuag at wella Gwasanaethau Plant:
**C1** Yn nhermau gwaith y Panel, beth oedd uchafbwyntiau eich gwaith fel aelod o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
**C2** Yn eich barn chi, pa effaith gafodd y Panel wrth herio a dal y Gwasanaethau Plant i gyfrif wrth wireddu ar y siwrnai wella sylweddol?
**C3** Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?
**C4** Pa anghenion datblygu sydd ganddoch a fyddai o gymorth i chi yn eich rôl?
**C5** Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad ac / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?

4.3.2 Mae'r ffrwd gwaith hwn wedi arwain at y canlyniadau cadarnhaol canlynol:

- Tîm o Aelodau, ar draws y pleidiau a'r grwpiau gwleidyddol, sydd wedi datblygu llawer iawn o wybodaeth am gymhlethdodau'r gwasanaethau plant ac yn meddu ar lefel o arbenigedd yn y maes gwasanaeth hwn
- Datblygu model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, gan annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Creu amodau sy'n ffafriol i Sgriwtini effeithiol e.e. bu gwelliant gwirioneddol yn lefel a dyfnder y cwestiynu gan y Panel
- Mae gweithgareddau sgriwtini'n cael eu cynllunio'n dda, yn effeithiol ac yn wrthrychol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amrediad o ffynonellau
- Gwell dealltwriaeth gan Aelodau Etholedig o'r cymhlethdodau a'r risgiau ynghlwm wrth y Gwasanaethau Plant er mwyn gallu craffu'n effeithiol, dal i gyfrif ac adnabod blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

4.3.3 Nodwyd meysydd datblygu gan aelodau'r Panel fel rhan o'r hunan arfarniad a chrynhowyd y rhain o dan 7 prif thema:
- Cyswllt â Sesiynau Briffio Misol i Aelodau
- Ymweliadau Laming
- Blaen raglen waith y Panel

[5] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi'i gynnal ar 24 Mai, 2018 a 30 Gorffennaf, 2018
[6] Arolygiad o Wasanaethau Plant: Cyngor Sir Ynys Môn (Mawrth, 2017)

- Gwaith partneriaethol
- Amlder cyfarfodydd
- Anghenion datblygu'r Aelodau
- Mesur canlyniadau ac effaith Sgriwtini

Mae'r themâu hyn wedi eu cynnwys ym mlaen rhaglen waith y Panel a bydd cynnydd arnynt yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor hwn yn chwarterol.

Mae copi o'r adroddiad ar yr hunan arfarniad ynghlwm (**Atodiad 1**).

**5. MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO ER MWYN EU HYSTYRIED GAN Y RHIANT BWYLLGOR**

Mae angen uwchgyfeirio'r materion a ganlyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

5.1 Er bod cynnydd da wedi'i wneud i weithredu'r strwythur staffio diwygiedig, mae rhai swyddi'n cael eu llenwi gan weithwyr asiantaeth o hyd (yr adroddwyd yn flaenorol arno i'r Pwyllgor gan y Panel). Ymdrinnir â'r mater hwn drwy apwyntio gweithwyr cymdeithasol (profiadol a rhai newydd gymhwyso) a chefnogi gweithwyr cefnogi profiadol i gymhwyso. Dylid nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i ymdrin â hyn. .

5.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn ynglŷn â chadernid gwaith monitro'r Panel hyd yn hyn.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Mesur Effaith Sgriwtini: Hunan arfarniad gan Aelodau o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant (Atodiad 1) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cynghorydd Richard Griffiths**
**Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant / Pencampwr Plant mewn Gofal**
**Dyddiad: 23/08/18**

# MESUR EFFAITH SGRIWTINI

# HUNAN-WERTHUSIAD GAN AELODAU'R PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT

Mai, 2018

## MYNEGAI

1. Cefndir
2. Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini
3. Y Dasg
4. Cwestiynau'r Hunan-Werthusiad
5. Casgliadau
6. Camau Nesaf

# 1. Cefndir

1.1 **Disgwyliadau Arolygiaeth Gofal Cymru**
Mae adroddiad yr arolwg diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Plant y Cyngor[1] yn datgan yn glir y disgwyliadau o ran arweinyddiaeth wleidyddol:

> "Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol."

1.2 **Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru**
Gwnaed 14 o argymhellion yn sgîl yr arolwg gan Arolygiaeth Gofal Cymru, dau ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â rôl Aelodau:

- *Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf*
- *Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.*

1.3 **Rôl y Panel Gwella Gwasanaethau Plant**
Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[2] sefydlu'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant fel is-banel sefydlog o'r rhiant bwyllgor, gyda'r elfennau canlynol ac yn adeiladu ar waith blaenorol y Panel:

- Datblygu model o weithio yn y maes plant sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Cryfhau gallu'r Aelodau i herio perfformiad drwy wella gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth a / neu wasanaethau
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau,r Gwasanaeth, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau yn ymwneud â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Cynnig cefnogaeth i'r Pencampwr Pobl Ifanc a hefyd y Pencampwr Plant mewn Gofal, sy'n rôl newydd ers Etholiad 2017.

[1] Arolygu Gwasanaethau Plant: Cyngor Sir Ynys Môn (Mawrth, 2017)
[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 10 Ebrill, 2017

1.4 **Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG)**
Rhoddwyd Cynllun Gwella mewn lle gan y Gwasanaethau Plant fel fframwaith i flaenoriaethu a monitro gwelliannau a hefyd mewn ymateb i'r archwiliad gan yr Arolygiaeth Gofal. Cafodd y Cynllun hwn ei fireinio ymhellach yn ddiweddar i gynnwys gradd RAG ar gyfer pob un o'r meysydd gwella allweddol. Isod, mae crynodeb lefel uchel o'r graddfeydd RAG:

COCH – 0; AMBR – 5; MELYN – 10; GWRDD – 5

Yn ystod trafodaeth ddiweddar ar y Cynllun[3], bu i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant benderfynu rhoi ystyriaeth bellach i radd RAG Thema 1.5 y Cynllun Gwella. Mae Thema 1.5 yn ymwneud â rôl Aelodau Etholedig yn siwrnai wella'r Gwasanaethau Plant. Gwnaed hynny drwy gwblhau proses hunan-werthuso byr.

## 2. Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini

2.1 **Cyd-destun**
Mae sefydlu ac asesu effaith Sgriwtini yn sialens oherwydd nid yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob amser yn weladwy ac yn aml nid oes modd eu mesur mewn modd systematig. Hefyd, nid yw'n hawdd mesur gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, ceir nifer o enghraifftiau lleol ble mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac / neu dylanwadu ar y modd y mae cynigion yn cael eu gweithredu gan y Cyngor. Mae gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn enghraifft gadarnhaol o hynny.

2.2 **Gwelliannau a Pherfformiad y Gwasanaethau Plant**
Mae'r broses o graffu siwrnai wella'r Gwasanaethau Plant wedi aeddfedu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy fewnbwn y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Pwrpas yr hunan-werthusiad yma felly oedd gosod fframwaith i Aelodau'r Panel adolygu 4 agwedd:

| Beth sydd wedi gweithio yn dda | Adnabod pa effaith gafodd y Panel | Meysydd i wella | Anghenion datblygu Aelodau |
|---|---|---|---|

[3] Cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2018

## 3. Y Dasg

3.1 Ar ddechrau cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn ddiweddar[4], gwahoddwyd Aelodau Etholedig y Panel i raddio statws Thema 1.5 y Cynllun Gwella Plant, gan ddefnyddio'r fframwaith canlynol:

- **COCH** - hwyr
- **AMBR** – ar ei hôl hi
- **MELYN** – yn unol â'r cynllun
- **GWYRDD** – wedi'i gwblhau

3.2 Defnyddiwyd sesiwn ddatblygu ar ddechrau cyfarfod y Panel i gwblhau'r ymarferiad hunan-werthuso cyn symud ymlaen i drafod busnes arferol y Panel. Roedd hefyd yn fodd i gadarnhau perchnogaeth Aelodau a gosod sylfaen bellach ar gyfer y cyfnod nesaf.

## 4. Cwestiynau'r Hunan-Werthusiad

4.1 Defnyddiodd yr Aelodau Etholedig gyfres o gwestiynau fel fframwaith i'w galluogi i werthuso cyfraniad y Panel at siwrnai wella'r Gwasanaethau Plant:

C1. Yn nhermau gwaith y Panel, beth oedd uchafbwyntiau eich gwaith fel aelod o'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

C2. Yn eich tyb chi, pa effaith gafodd y Panel wrth herio a dal i gyfrif y Gwasanaethau Plant wrth wireddu ar y siwrnai wella sylweddol?

C3. Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?

C4. Pa anghenion datblygu sydd ganddoch a fyddai o gymorth i chi yn eich rôl?

C5. Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad a / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?

## 5. Casgliadau

5.1 **Yr hyn oedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ei ddweud am gyfraniad y Panel**
Mewn adolygiad diweddar o gynnydd ar welliannau yn y Gwasanaethau Plant, daeth sylwadau cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru am gyfraniad y Panel:

*"….Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad corfforaethol parhaus i sicrhau bod gwasanaethau plant yn gwella a'r parodrwydd i ddod i gyd-ddealltwriaeth ynghylch yr heriau a wynebir. Yn yr un modd, mae'r cynnydd mewn gwaith craffu a herio gan aelodau etholedig wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol …."*[5]

[4] Cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 24 Mai, 2018
[5] Gohebiaeth dyddiedig 11/01/18 gan Arolygiaeth Gofal Cymru (Adolygu'r cynnydd o ran rhoi'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant ar waith)

**5.2 Sylwadau'r Aelodau Etholedig ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant**

Cymerodd 71%[6] o Aelodau Etholedig y Panel ran yn yr hunan-asesiad. Isod mae crynodeb o'r hyn oedd ganddynt i'w ddweud:

**C1. Beth oedd uchafbwyntiau gwaith Aelodau'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?**

Mae ein dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant yn gwella bob mis

Mae sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer y Panel yn lwyddiant sylweddol

Sesiynau datblygu ar ddechrau pob cyfarfod yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth ac addysgu ni fel Aelodau am ystod gwaith y Gwasanaeth. Mae hyn yn gyfle i holi a gofyn cwestiynau

<u>Ymweliadau Laming:</u>

Threfn adrodd yn ôl i'r Panel wedi cynyddu dealltwriaeth ac atebolrwydd Cynghorwyr

Rhaglen waith drefnus i lywio gwaith y Panel ac o ganlyniad amrediad eang o feysydd wedi derbyn sylw'r Panel ee themau unigol y CGG; y berthynas efo'r Ysgolion, Gwasanaeth Tai a'r Heddlu; gwarantu ansawdd; ymarfer gwaith cymdeithasol; dangosyddion perfformiad ac agweddau cyllidol; strwythur staffio

Mae lefel a dyfnder y cwestiynu ganddom wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n adlewyrchiad o well ddealltwriaeth o'r maes a lefel hyder uwch i allu craffu. Rydym bellach yn gofyn cwestiynau llawer mwy dreiddgar

[6] 5 allan o 7 Aelod y Panel

**C2. Pa effaith gafodd y Panel wrth herio a dal i gyfrif y Gwasanaethau Plant wrth wireddu ar y siwrnai wella sylweddol?**

Fel aelodau'r Panel, rydym bellach yn gallu gwerthfawrogi pwysigrwydd y berthynas rhwng y strwythur staffio a'r effaith ar ansawdd gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u theuluoedd

Mae ein gallu i ofyn cwestiynau mwy treiddgar bellach yn ychwanegu gwerth at y siwrnai wella yn y Gwasnaethau Plant

Yn Aelodau Etholedig ar y Panel, rydym yn gallu dilyn i fyny ar ein trafodaethau a chwilio am dystiolaeth i gadarnhau gynnydd pan yn cwrdd â staff y Gwasanaeth ar Ymweliadau Laming

Gwir dweud fod yna dystiolaeth o gyd-berchnogaeth a dealltwriaeth o'r siwrnai wella Plant ar draws y grwpiau gwleidyddol

Mae adroddiadau cynnydd rheolaidd ar waith y Panel i'r Rhiant Bwyllgor yn sicrhau ffocws a momentwm i'n gwaith fel Cynghorwyr ar y Panel. Hefyd, mae'n ffordd dda o sicrhau cyd-berchnogaeth o'r siwrnai wella ymhlith Aelodau eraill

Rydym yn arwain fwy ac yn cyfrannu at drafodaethau gyda'n cyd-Aelodau mewn pwyllgorau pan mae materion yn codi yn y maes Plant a Theuluoedd

**C3. Oes yna unrhyw agweddau o waith y Panel y gellid eu gwella neu eu cyflawni'n fwy effeithiol wrth symud ymlaen?**

Cryfhau'r cyswllt rhwng rhaglen waith y Panel a'r Sesiynau Briffio Aelodau, er mwyn cynnwys yr holl Gynghorwyr. Gwneud hyn drwy gynnwys mwy o faterion plant ar raglen waith y Sesiynau Briffio misol

Ein galluogi i gael gwell ddealltwriaeth o'r system maethu a mabwysiadu - y drefn a'r amrediad opsiynau

Ychwanegu mwy o faterion cyllidol at raglen waith y Panel ee goblygiadau ariannol penderfyniadau gwaith achos

Cynnal mwy o Ymweliadau Laming er mwyn rhannu mwy o wybodaeth

Dylid ychwanegu'r cynlluniau sy'n cyfrannu at strategaeth ataliol y Gwasanaeth at ein rhaglen waith ee Dechrau'n Deg, Gwasanaeth Ieuenctid

Byddai'n fuddiol i ni edrych ar ragor o waith ein partneriaid fel y Bwrdd Iechyd, Cyfiawnder Ieuenctid, Heddlu ac

Efallai y bydd angen i ni edrych ar ba mor aml dylai'r Panel gyfarfod o 2019/20 ymlaen

**C4. Pa anghenion datblygu sydd gan yr Aelodau Etholedig a fyddai o gymorth yn eu rôl?**

Sgiliau craffu materion cyllidol

Sgiliau i allu ddadansoddi data'r dangosyddion perfformiad allweddol yn ddeallus

Dealltwriaeth gwell o ffynhonnell y niwed i'r plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod

**C5. Unrhyw sylwadau cyffredinol ar ddylanwad ac / neu effaith gwaith y Panel ar brosesau gwneud penderfyniadau?**

Rydym yn cael budd mawr o fod yn aelodau'r Panel

Nid oes amheuaeth bod lefel ein dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf

Gweithio fel "ffrind beirniadol" ydy ein nod

Mae lefel presenoldeb ni gyd fel Aelodau wedi bod yn gyson uchel hyd yma. Mae'n dangos perchnogaeth ac ymroddiad gwleidyddol i gyfrannu at y siwrnai wella a chreu'r amodau ar gyfer gwelliant parhaus ar gyfer plant a phobl ifanc bregus Ynys Môn

5.3 **Canlyniadau**
Rydym yn gallu tystioli rhai canlyniadau yn sgîl ein gwaith craffu yn y maes Plant a Theuluoedd:

- Tîm bychan o Aelodau Etholedig sydd wedi datblygu gwybodaeth lefel uchel o gymhlethdodau'r gwasanaethau plant a lefel o arbenigedd yn y maes gwasanaeth hwn
- Datblygu model o weithio sy'n canolbwyntio ar grŵp llai, gan annog presenoldeb a gwaith tîm da
- Creu amodau sy'n ffafriol i Sgriwtini effeithiol ee bu gwelliant gwirioneddol yn lefel a dyfnder y cwestiynu gan y Panel
- Mae gweithgareddau sgriwtini'n cael eu cynllunio'n dda, yn effeithlon ac yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amrediad o ffynonellau
- Gwell ddealltwriaeth gan yr Aelodau o'r cymhlethdodau a'r risgiau ynghlwm wrth y Gwasanaethau Plant er mwyn gallu craffu'n effeithiol ar y gwasanaeth, dal i gyfrif ac adnabod blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Ar sail canfyddiadau'r hunan-werthusiad yma, penderfynodd Aelodau Etholedig y Panel mai gradd **MELYN** (gydag elfennau sylweddol yn wyrdd) sydd i'w bennu ar hyn o bryd ar gyfer Thema 1.5 y Cynllun Gwella.

# 6. Camau Nesaf

**6.1 Cyd-destun lleol**
Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygiaethau[7] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr efo methiannau yn agweddau eraill y system drwyddi draw. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

6.2 **Blaenoriaethau'r cyfnod nesaf**
Mae rhai materion yn codi o'r hunan-werthusiad sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf. Bydd y materion canlynol felly'n cael eu blaenoriaethu ar flaen raglen waith y Panel:

[7] Arolygiaeth Gofal Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

**Meysydd Datblygu**

| THEMA | SUT |
|---|---|
| **Cyswllt gyda Sesiynau Briffio Misol i Aelodau** | i. Cryfhau'r cyswllt drwy well aliniad rhwng rhaglenni gwaith y Panel a'r Sesiynau Briffio<br>ii. Negydu eitemau yn y maes Plant a Theuluoedd ar raglenni Sesiynau Briffio |
| **Ymweliadau Laming** | i. Parhau i raglennu Ymweliadau Laming yn fisol yn ystod 2018/19 a thu hwnt<br>ii. Parhau i gynnwys amrediad o bynciau / themau ar gyfer yr Ymweliadau unigol |
| **Blaen Rhaglen Waith y Panel** | Ychwanegu'r pynciau canlynol at flaen raglen waith y Panel:<br>• Materion cyllidol ee goblygiadau ariannol penderfyniadau gwaith achos<br>• Cynlluniau sy'n cyfrannu at strategaeth ataliol y Gwasanaeth<br>• System maethu a mabwysiadu |
| **Gwaith Partneriaethol** | Ychwanegu gwaith partneriaethol y meysydd canlynol at raglen waith y Panel: Bwrdd Iechyd; Cyfiawnder Ieuenctid; Heddlu Gogledd Cymru |
| **Amlder Cyfarfodydd** | Rhaglennu adolygiad o amlder cyfarfodydd y Panel yn fuan ym 2019 |
| **Anghenion Datblygu'r Aelodau** | Ychwanegu'r canlynol at raglen bynciau sesiynau datblygu'r Panel:<br>• Sgiliau dadansoddi data dangosyddion perfformiad<br>• Sgiliau craffu cyllidol<br>• Ffynhonnell y niwed i blant sy'n dod i ofal yr Awdurdod (Cordis Bright) |
| **Mesur Canlyniadau ac Effaith Sgriwtini** | Cynnal hunan-werthusiad pellach gan Aelodau Etholedig y Panel maes o fewn y 12 mis nesaf |

6.3 **Adolygiad o'r Paneli Sgriwtini**
Bydd yr adroddiad hwn yn rhan o adolygiad ehangach gan y Cyngor o waith yr holl baneli sgriwtini[8] i sicrhau:

i. Rhaglenni gwaith clir a chadarn
ii. Cyflymder a ffocws priodol
iii. Meysydd dan ystyriaeth yn unol â blaenoriaethau corfforaethol.

Anwen Davies
Rheolwr Sgriwtini
[Ar ran Aelodau Etholedig y Panel Gwella Gwasanaethau Plant]

[8] Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion; Panel Sgriwtini Cyllid; Panel Gwella Gwasanaethau Plant

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 12 Medi 2018 |
| **Pwnc:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2018/19) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | CYNG ALED M JONES |
| **Aelod(au) Portfolio:** | CYNG DAFYDD RHYS THOMAS |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. – Argymhelliad/ion**

**1.1** Hwn yw cerdyn sgorio cyntaf blwyddyn ariannol 2017/18.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd hwy ac fel y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -

***1.3.1*** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 2.*

***1.3.2*** *Bod targedau perfformiad yn cael eu hail-werthuso yn ystod Ch2 ac Ch3 yn dilyn cyhoeddi data cenedlaethol cymharol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.*

***1.3.3*** *Parhau gyda'r panelau rheolaidd i herio salwch, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.*

***1.3.4*** *Y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion ac atgoffa'r Gwasanaethau Plant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen.*

***1.3.5*** *Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol*

| | |
|---|---|
| | *i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.* |
| **1.4** | Gofynnir i'r Pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae'r adroddiad monitro perfformiad chwarter 1 yn trafod perfformiad yn y gwasanaethau i blant a theuluoedd. Pa rôl ychwanegol ddylai'r panel gwella gwasanaethau plant ei chwarae wrth graffu'n adeiladol a monitro gwelliannau?

2. Pa fesurau fydd yn cael eu cyflwyno i liniaru lefelau salwch mewn ysgolion a gwasanaethau i oedolion?

3. Mae data rheoli ariannol yn y cerdyn sgorio yn amcangyfrif gorwariant sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Pa gyfraniad ychwanegol y dylai'r panel craffu cyllid ei wneud o ran herio a monitro perfformiad ariannol mewn dull adeiladol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1.1 Un o amcanion y Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau'r modd y gellir tystiolaethu a chyflwyno gwelliannau parhaus yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae adroddiad perfformiad yn cael ei ddrafftio bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos cynnydd neu ddiffyg cynnydd (fel y bo'n berthnasol).

1.2 Datblygwyd y system hon o adrodd yn chwarterol ar y cerdyn sgorio ochr yn ochr â'r ffrwd waith sy'n nodi ac yn rhoi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n dangos yn benodol weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad.

1.3 Cafodd y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni (yr un modd â blynyddoedd blaenorol) eu penderfynu mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018 gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad gan Benaethiaid Gwasanaeth mewn perthynas â'r dangosyddion a oedd, yn eu barn nhw, yn bwysig

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Amherthnasol

**8 – Atodiadau**

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 1
Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 1

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2017/18 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2018 ac a dderbyniwyd ganddo.)

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2018/19)**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Un o amcanion y Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau'r modd y gellir tystiolaethu a chyflwyno gwelliannau parhaus yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae adroddiad perfformiad yn cael ei ddrafftio bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos cynnydd neu ddiffyg cynnydd (fel y bo'n berthnasol).

1.2 Datblygwyd y system hon o adrodd yn chwarterol ar y cerdyn sgorio ochr yn ochr â'r ffrwd waith sy'n nodi ac yn rhoi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n dangos yn benodol weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad.

1.3 Cafodd y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni (yr un modd â blynyddoedd blaenorol) eu penderfynu mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2018 gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad gan Benaethiaid Gwasanaeth mewn perthynas â'r dangosyddion a oedd, yn eu barn nhw, yn bwysig.


1.4 Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch1 a bydd (ynghyd â'r adroddiad) yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

**2.1** Hon yw'r chweched flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA /y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar ddarpariaeth weithredol.

**2.2** Ceir tystiolaeth o'r effaith honno'n chwarterol a chan ein perfformiad diwedd blwyddyn yn erbyn y MAC.

**2.2.1** Mae'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC), sef cyfres o ddangosyddion sy'n mesur perfformiad yn genedlaethol wedi cael eu cyhoeddi gan Data Cymru am 2018/19. O'r dangosyddion a gyhoeddwyd (ni fydd y dangosyddion ar gyfer Rheoli Gwastraff, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu rhyddhau tan ddiwedd mis Hydref) mae perfformiad blwyddyn ar flwyddyn y Cyngor wedi gwella mewn perthynas â 50% o'r dangosyddion sydd ar gael ac wedi dirywio mewn perthynas â 35.7% ohonynt. Roedd y 14.3% a oedd yn weddill yn ddangosyddion newydd ac o'r herwydd, ni fedrir eu cymharu. (Siart 1)




Siart 1

**2.2.2** O'r data a gyhoeddwyd, mae gan y Cyngor 5 dangosydd yn y Chwartel Uchaf (ymhlith y 6 Cyngor gorau yng Nghymru), 5 yn y Chwartel Canolrifol Uwch (rhwng y 7fed a'r 11eg safle), 5 yn y Chwartel Canolrifol Is (rhwng y 12fed a'r 16eg safle), a 3 yn y Chwartel Is (rhwng yr 17eg a'r 22ain safle). Yn achos y dangosyddion MAC sy'n cael eu tracio yn y Cerdyn Sgorio, gellir gweld eu safleoedd yn chwarteli 2017/18 yn y golofn ddiwethaf.

**2.2.3** Ceir dadansoddiad pellach o'r perfformiad cyffredinol drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gaiff ei fabwysiadu gan y Cyngor yn yr hydref.

**2.2.4** Mae'r targedau ar gyfer y dangosyddion MAC sy'n cael eu tracio'n chwarterol eisoes wedi cael eu haddasu ble yr oedd angen gwneud hynny. Bydd y targedau ar gyfer y dangosyddion MAC nad ydynt wedi eu cyhoeddi hyn yma yn cael eu hadolygu yn ystod Ch2 a Ch3 unwaith y bydd y canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi a byddant ar gael ar ddiwedd mis Hydref.

**2.3** Mae'n bwysig nodi y cafwyd cais i gynnwys yr isod wrth lunio'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni –

**2.3.1** Ychwanegu'r dangosyddion perfformiad cenedlaethol MAC (Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) newydd;

**2.3.2** Bod y rhan o'r adroddiad ar Wasanaethau Cwsmer sy'n ymwneud ag ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen yn cael ei rhannu'n ddwy –

- Cwynion Corfforaethol a
- Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol

**2.3.3** Yn ychwanegol at hyn, mae nifer y taliadau a wnaed dros y we a'r ffôn hefyd wedi cael eu rhannu'n ddwy er mwyn monitro dulliau talu yn ofalus gyda'r nod o sefydlu a yw nifer y taliadau dros y ffôn yn gostwng a'r nifer a wneir dros y we yn cynyddu o ganlyniad i'r symudiad tuag at ddewis ehangach o sianelau digidol.

## 2.4 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.4.1** Ar ddiwedd Ch1, mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Mae hyn yn beth da ac

yn cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa yr oeddem ynddi yn ystod Ch1 2017/18. Wedi dweud hynny, rydym yn nodi bod 2 ddangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targed blynyddol am y flwyddyn ac mae'r rhain wedi ei hamlygu'n Goch neu'n Ambr.

**2.4.2** Mae un o'r dangosyddion hyn yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac roedd yn Goch ar ddiwedd Ch1 –

(i) 04) PM28 – Y targed ar gyfer Ch1 o ran yr amser ar gyfartaledd yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a ddad-gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn (dyddiau) oedd 320 o ddyddiau ac mae'r perfformiad ar gyfer Ch1 yn 350 o ddyddiau ar gyfartaledd. Roedd hyn yn cymharu hefyd â pherfformiad o 326.5 o ddyddiau ar ddiwedd Ch1 yn 17/18.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â nifer fach o blant. Bydd adegau pan fydd angen i blant aros ar y gofrestr amddiffyn plant ac mae'n bwysig nodi, er bod hyn yn cael ei ystyried yn goch yn erbyn ei tharged, nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchiad ar ymarfer gwaith cymdeithasol o fewn yr adran gan ei fod hefyd yn cynnwys ffactorau cysylltiedig eraill e.e. gorchmynion llys a.y.y.b.

Er hyn, yn ystod Ch1, bu gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac er mwyn gwella ymhellach ar y safonau hyn yn ystod Ch2, awgrymir y dylid cymryd y mesurau lliniaru a ganlyn -

- Bydd achosion yr holl blant sydd wedi bod ar y gofrestr am 10 mis neu fwy yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rhagwelir y bydd y weithdrefn fewnol newydd hon yn arwain at ostyngiad yn y nifer yn y dyfodol ac yn dangos yn glir bod y risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli'n ddigonol fel y gellir eu tynnu oddi ar y gofrestr neu eu rhoddi arni pan fydd angen.

**2.4.3** Yr unig ddangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion a oedd wedi tanberfformio yn ystod Ch1 ac a oedd yn Goch yn erbyn ei darged oedd –

(i) 11) PM20a – Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi ac o oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach. Roedd perfformiad yn yr achos hwn yn 0% ar ddiwedd Ch1 yn erbyn targed o 50%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio gyda nifer fechan o achosion (3) ac o'r herwydd, gall perfformiad amrywio'n sylweddol o chwarter i chwarter. Yn Ch1, o ganlyniad i'r ymyrraeth ail-alluogi a ddarparwyd gan y gwasanaeth, darparwyd mwy yn hytrach na llai o ofal ar gyfer yr unigolion hynny. Mae hyn yn adlewyrchiad o natur y salwch sydd ganddynt.

Oherwydd y nifer fechan o achosion, nid oes arwyddocâd ystadegol i'r data hwn ar hyn o bryd a pharheir i'w fonitro dros Chwarter 2 a 3.

**2.4.4** Mae'r dangosyddion gweddilliol yr adroddwyd arnynt yn yr adran rheoli perfformiad ar gyfer Ch1 oll yn **WYRDD** neu'n **FELYN** ac yn gwneud yn dda o gymharu â'u targedau.

**2.4.5** O'r holl ddangosyddion a amlygwyd fel rhai Coch neu Ambr ar ddiwedd of 2017/18 (8), mae'n galonogol gweld bod 5 o'r 6 y gellir eu tracio yn ystod Ch1

y flwyddyn gyfredol, wedi gwella o ran perfformiad a dim ond un dangosydd sydd ar hyn o bryd yn tanberfformio. Mae'r 5 dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Yr unig ddangosydd sy'n parhau i danberfformio yw PM28 ac mae hwnnw wedi cael ei drafod uchod ym mhwynt 2.4.2.

**2.4.5.1** Ar nodyn cadarnhaol, gellir adrodd bod dangosydd SCC/025, a oedd yn Goch ac yn tanberfformio drwy gydol 17/18 wedi gwella ac yn ymddangos yn Felyn ar y cerdyn sgorio ar hyn o bryd gyda pherfformiad o 78% yn erbyn targed o 83%. Mae hyn yn welliant ar y perfformiad yn ystod Ch1 llynedd (17/18), sef 59.93%. Er nad yw'r DP yn cyrraedd y targed a osodwyd gan y gwasanaeth, mae'n ddangosydd cadarnhaol ac yn dangos bod newidiadau a wnaed yn y gwasanaeth ac a gefnogwyd gan yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith yn dechrau cael effaith ar berfformiad.

**2.4.5.2** Mae tystiolaeth bellach o welliant ym mherfformiad y Gwasanaethau Plant yn erbyn dangosyddion perthnasol i'w gweld yn yr 'Adroddiad Gwaith ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd' a gyflwynir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod Medi, 2018.

**2.4.6** *Er mwyn cynnal a gwella ein perfformiad a'n statws cenedlaethol fel cyngor sy'n cyflawni, **mae'r UDA yn argymell –***

**2.4.6.1** Bod targedau'n cael eu hail-asesu yn ystod Ch2 a Ch3 yn dilyn cyhoeddi'r data cymharol cenedlaethol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.


**2.4.7** Mae Atodiad B yn dangos yr holl raglen waith y mae'r ddau Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Er bod rhai o'r rhaglenni / prosiectau yn GOCH mae'n bwysig nodi bod y materion hyn yn cael eu rheoli a'u tracio drwy'r Byrddau sy'n cyfarfod yn chwarterol.

## 2.5 RHEOLI POBL

**2.5.1** Mae rheoli ein pobl yn agwedd hollbwysig o reolaeth gorfforaethol y Cyngor sydd (os caiff ei rheoli'n ddigonol) yn ein galluogi ni i barhau gyda'r nod o wella ein gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn. Mae gweithlu da ac iach yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaethau da sy'n gwella.

**2.5.2** Un maes ble gellir tracio rheolaeth yw salwch. Ar ddiwedd Chwarter 1, nodir bod cyfraddau salwch y Cyngor (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan reoli pobl)* sef 2.69 o ddyddiau fesul ALlC yn ystod y misoedd rhwng Ebrill a Mehefin yn dangos dirywiad o gymharu â'r un cyfnod yn 2017/18, sef 2.23. Fodd bynnag, mae cystal â chanlyniadau 2016/17 ble yr oedd perfformiad yn 9.78 o ddyddiau fesul ALlC ar ddiwedd y flwyddyn.

**2.5.3** Caiff y canlyniad rhagamcanedig hwn ei ddangos gyda'r llinell goch doredig yn Nhabl 1 isod:




Tabl 1

**2.5.4** Er mwyn gwella'r rhagamcan hwn erbyn diwedd y flwyddyn ac er mwyn cwrs â'n targed corfforaethol blynyddol o 9.75, mae targedau'r gwasanaethau wedi cael eu haddasu ar gyfer y flwyddyn nesaf a hynny'n seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol.

Gellir gweld y rhain yn Nhabl 2 isod:

| Gwasanaeth | Targed 2018/19 |
|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | 13.75 |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 10.75 |
| Busnes y Cyngor | 7 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff | 8 |
| Tai | 9.25 |
| Dysgu | 9.5 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 8.75 |
| Adnoddau | 7 |
| Trawsnewid | 7 |


Tabl 2

**2.5.5** **Pwynt i'w nodi** – Os bydd yr holl wasanaethau'n cwrdd â'r targedau uchod, yna bydd y Cyngor yn cwrdd â'i darged ar gyfer absenoldeb salwch, sef 9.75 o ddyddiau fesul ALIC. Yn seiliedig ar ffigyrau 17/18, byddai hyn yn golygu y

byddai perfformiad y Cyngor yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cynghorau Cymru, sef 10.41 o ddyddiau o salwch fesul ALIC.


**2.5.6** Dengys dadansoddiad manylach o berfformiad y gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn yn Ch1 fod 2 o wasanaethau yn tanberfformio o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter, sef:

**2.5.6.1** Gwasanaethau Oedolion – lle gwelir perfformiad o 3.39 o ddyddiau o salwch fesul ALIC yn erbyn targed o 2.78 o ddyddiau fesul ALIC yn ystod Ch1. Y prif reswm am y tanberfformiad yn Ch1 yw nifer fawr o achosion o salwch tymor hir yn yr Uned Ddarparu. Mae'r achosion hyn yn cyfateb i 634 o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch yn Ch1. Mae hyn yn cyfateb i 49% o gyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd i salwch yn y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.




Tabl 3

**2.5.6.2** Dysgu – COCH – 2.99 o ddyddiau o salwch fesul ALIC (Targed 2.45). Y prif reswm am y tanberfformiad hwn oedd lefelau salwch yn yr Ysgolion Cynradd (dangosydd 04 ar y cerdyn sgorio). Yr un modd â'r Gwasanaethau Oedolion, gellir priodoli hyn yn bennaf i salwch tymor hir, gyda 1255.5 o ddyddiau wedi eu colli fesul ALIC. Gellir priodoli 69% o'r lefelau salwch yn y gwasanaeth Dysgu yn ystod Ch1 i'r ysgolion cynradd.





Tabl 4

**2.5.7** Ar ddiwedd Chwarter 1, ymddengys fod patrwm o salwch tymor hir ar draws Gwasanaethau'r Cyngor gyda chyfanswm o 56% o ddyddiau wedi eu colli oherwydd salwch tymor hir. Mae'r rhesymau am hyn yn niferus ac gallent amrywio o lawdriniaethau i straen a chancr.

**2.5.8** Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae cysylltiad rhwng cyfraddau salwch yn y Cyngor a gwaith 'rheoli' salwch. Rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor yw cydymffurfiaeth staff â pholisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb *(dangosyddion 7 ac 8 ar y cerdyn sgorio)*.

**2.5.9** Mae'r Cyngor yn parhau i graffu'r arferion hyn yn rheolaidd ar draws ei wasanaethau ac erbyn diwedd Ch1, roedd perfformiad yn gadarnhaol, sy'n welliant o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Gweler tabl 5.




Tabl 5

***2.5.10 O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –***

***2.5.10.1*** *Y dylid defnyddio data salwch yn barhaus i flaenoriaethu a thargedu adnoddau i gynnal panelau herio salwch yn y gwasanaethau yn ystod 2018/19, sy'n parhau i fod yn elfen bwysig o ran rheoli salwch.*

## 2.6 GWASANAETH CWSMER

**2.6.1** Yn ystod Ch1, defnyddiwyd technoleg AppMôn i gyflwyno 905 o adroddiadau (ar faterion yn cynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni cronfeydd data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Daeth 85% o'r adroddiadau hyn drwy'r wefan.

**2.6.2** Dangosydd newydd ar gyfer eleni yw nifer y defnyddwyr cofrestredig sydd gennym ar AppMôn a Gwefan y Cyngor ac roedd y ffigwr yn 4290 ar ddiwedd Ch1. Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei gweddnewid yn ystod y flwyddyn ac am y rheswm hwn, disgwylir y bydd nifer y defnyddwyr cofrestredig yn cynyddu wrth i fwy a fwy o ffurflenni ddod ar gael ar lein a chyda dyluniad sy'n

canolbwyntio mwy ar y cwsmer. Gyda'r dyluniad newydd hefyd, rydym yn rhagweld cynnydd yn nifer y taliadau a wneir ar y we.

**2.6.3** Mae'r dangosyddion sy'n weddill o fewn yr Adain Gwasanaethau Digidol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe gynyddodd nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol unwaith eto yn ystod Ch1 i 27k. Mae hyn wedi ei rannu rhwng Facebook (12k o ddilynwyr) a Twitter (14k o ddilynwyr) ac Instagram (1k). Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a rhagdybir y bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r sianelau hyn yn cynyddu gan olygu newid felly yn y modd y mae trigolion ac eraill yn cyfathrebu gyda ni fel Cyngor. Mae'n cael effaith hefyd ar faich gwaith tîm corfforaethol bychan sy'n monitro ac yn ymateb i'r presenoldeb hwn ar y cyfryngau cymdeithasol.

**2.6.4** O ran rheoli cwynion gan gwsmeriaid, roedd 13 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch1 o gymharu â 20 yn Ch1 17/18. Mae'r gwasanaeth wedi gwella yn enwedig o nodi fod y cyfan o'r cwynion a oedd angen ymateb erbyn diwedd Ch1 (12) wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen ofynnol. O'r cwynion hyn, ni chadarnhawyd 8 ohonynt, cadarnhawyd 3 yn llawn, (Adnoddau [1], Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff [1], a Thai [1]) ac fe gadarnhawyd 1 yn rhannol (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff [1]. Mae hyn yn arwydd unwaith eto ein bod yn flaengar yn ein hymagwedd tuag at ddelio gyda chwynion a'n bod yn eu defnyddio mewn modd rhagweithiol i wella pethau.

**2.6.5** O ran y gwasanaethau cymdeithasol, cafwyd 1 Gŵyn Cam 2 (Gwasanaethau Oedolion) a 9 o Gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant [5], Gwasanaethau Oedolion [4]) yn ystod Ch1. O'r cwynion hyn, ymatebwyd i 56% ohonynt (Coch ar y cerdyn sgorio) o fewn yr amserlen gyda 4 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Plant [3] a Gwasanaethau Oedolion [1]). Er nad oedd y Gwasanaethau Plant wedi anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen yn achos 3 o'r 5 Cwyn Cam 1, roedd trafodaeth wedi cael ei chynnal gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen yn achos 4 o'r 5 (80%).

**2.6.6** Roedd canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt yn 80.5% ar ddiwedd Ch1 o gymharu â 78% ar ddiwedd 2017/18 sy'n welliant yn y gyfradd ymateb. Cafwyd cyfanswm o 287 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (cyfanswn o 2042 cwestiwn) yn Ch1 a 56 o ymatebion hwyr. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion hwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cyfateb i 32% o'r ymatebion hwyr (43% o'r 42 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth), Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyda 29% (32% o'r 50 a dderbyniwyd gan y gwasanaethau ac Adnoddau gyda 12.5% (13% o'r 55 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth). Mae ein hymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn bwysig ac yn gwella ac mae'r UDA a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn parhau i fonitro perfformiad yn rheolaidd.

***2.6.7 O'r herwydd mae'r UDA yn argymell –***

***2.6.7.1*** *Fod y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion a gofyn i'r Gwasanaethau Plant ail-asesu eu system rheoli cwynion er mwyn gwella nifer yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni gofynnol.*

## 2.7 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.7.1** Ar ddiwedd Chwarter 1, rhagwelir gorwariant o £1.744m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn debyg iawn i'r gorwariant yn 2017/18. Mae £2.454m o hyn ar gyllidebau gwasanaethau sy'n cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllidebau yn debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

**2.7.2** Disgwylir tanwariant o £0.412m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a rhagwelir y bydd y Dreth Gyngor, sy'n cynnwys y Premiwm Dreth Gyngor, yn casglu gwarged o £0.298m. O'r herwydd, bydd cyfanswm y tanwariant yn gostwng i £1.744m. Mae lefel ragamcanedig y gorwariant yn 1.33% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch yr effaith a gaiff y lefel hon o orwariant ar y balansau cyffredinol os bydd yn digwydd.

**2.7.3** Er y gellir cyllido'r lefel hon o orwariant o'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn 2018/19, bydd yn gostwng lefel y gronfa honno i ffigwr sydd ymhell islaw'r swm a dderbynnir yn gyffredinol fel y lleiafswm derbyniol. Yn ystod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2018/19, bydd angen cyllido'r gorwariant a chychwyn ar broses o roi arian yn ôl i mewn i'r balansau cyffredinol. Mae'r ymagwedd hon yn un ddarbodus ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor yn y tymor hir.

**2.7.4** Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd craffu rheolaidd gan yr UDA a chamau lliniaru gan Benaethiaid Gwasanaeth o gymorth i'r gwasanaethau reoli'r cyllidebau y mae ganddynt reolaeth drostynt.

**2.7.5** O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –

**2.7.6** Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**3.1.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant yn ystod Ch2.

**3.1.2** Bod targedau perfformiad yn cael eu hail-werthuso yn ystod Ch2 ac Ch3 yn dilyn cyhoeddi data cenedlaethol cymharol gyda phwyslais ar wella'r dangosyddion hynny sydd yn y chwarteli is a'r chwarteli canolrifol is.

**3.1.3** Parhau gyda'r panelau rheolaidd i herio salwch, gyda chynllun gwaith cysylltiedig i gadw ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli salwch.

**3.1.4** Y Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer yn parhau i fonitro'r dangosyddion a gofyn i'r Gwasanaethau Plant ail-asesu eu system ar gyfer rheoli cwynion yn ystod y chwe mis nesaf er mwyn gwella'r ganran o ymatebion ysgrifenedig i gwynion sy'n cael eu darparu o fewn yr amserlen.

**3.1.5** Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2018/19

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 13 | 18 | 71 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau | - | ↑ | 1 | | 9 | 5 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↑ | 4 | | 28 | 25 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 100% | 80% | 92% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 56% | 80% | - | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 9 | | 51 | 54 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 22 | | 112 | 191 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | | 135 | | 753 | 566 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | | 81% | 80% | 78% | 77% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | | 287 | | 919 | 1037 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | - | 4290 | | - | - |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 905 | | 2k | 1k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 3.5k | | 11k | |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 1.8k | | 5k | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 27k | 25k | 25k | 21k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 209k | - | 820k | 715k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2266 | - | 2252 | 2258 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1263.00 | - | 1244 | 1250 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↑ | 2.69 | 2.4 | 9.96 | 9.78 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.17 | - | 4.63 | 4.72 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.52 | - | 5.32 | 5.06 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↓ | 3.78 | 2.45 | 10.39 | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.7 | - | 4.85 | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.08 | - | 5.55 | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.18 | 2.45 | 9.67 | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.13 | - | 5.32 | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.06 | - | 4.35 | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | ↑ | 78% | 80% | 73% | 78% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | ↑ | 86% | 95% | 85% | 91% |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 86% | 80% | 69% | 57% |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | - | 11% | 10% |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | - | - | - | 80% | 90.50% | 80% |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | 91.40% | - |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↓ | 13 | - | 12 | 15 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | | £34,868,218 | £35,762,826 | 2.57% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | | £130,899,873 | | | £132,646,393 | 1.33% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | | £44,539,000 | | | £22,071,000 | -50.45% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | | £2,521,500 | | | £2,386,500 | -5.35% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | | -£5,268,266 | -£5,351,667 | 1.58% | | |
| 06) Swm a fenthycwyd | | | £9,317,000 | | | £5,847,000 | |
| 07) Chost benthyca | | | £4,491,593 | | | £4,168,876 | -7.18% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Gwyrdd / Green | | | 92.20% | | | |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | | | 98.60% | | | |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | | | 98.60% | | | |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 97.50% | | | |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | | | 99.77% | | | |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | | | 99.54% | | | |

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result | Chwartel 17/18 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) PAM/029 (PM33) - Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.65% | 2.75% | 11% | 9% | 5% | TBC Hydref / October |
| 02) PAM/028 (PM24) - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.39% | 90% | 90% | 67.57% | 89.17% | TBC Hydref / October |
| 03) SCC/025 - Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 78% | 83% | 83% | 63.32% | 79.35% | TBC Hydref / October |
| 04) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Coch / Red | ↓ | 350 | 320 | 320 | 326.5 | 266 | TBC Hydref / October |
| 05) SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Gwyrdd / Green | | 11.87% | 15% | 15% | - | - | TBC Hydref / October |
| 06) SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | | 96% | 94% | 94% | - | - | TBC Hydref / October |
| 07) PAM/25 (PM19) - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.29 | 3 | 3 | 6.58 | 6.05 | TBC Hydref / October |
| 08) SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 93% | 93% | 93% | 96% | 94.40% | TBC Hydref / October |
| 09) SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↑ | 16.51 | 19 | 19 | 17.44% | 20.51% | TBC Hydref / October |
| 10) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 90% | 90% | 90% | 93.25% | 90.48% | TBC Hydref / October |
| 11) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Coch / Red | ↓ | 0% | 50% | 50% | 59.26% | 62.60% | TBC Hydref / October |
| 12) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Melyn / Yellow | ↓ | 60.34% | 62% | 62% | 62.65% | 33.30% | TBC Hydref / October |
| 13) PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (17/18) | Melyn / Yellow | ↓ | 94.42% | 94.80% | 94.80% | 94.80% | | TBC Rhagfyr / December |
| 14) PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (17/18) | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.40% | 94.60% | 94.60% | 94.60% | | Uchaf / Upper |
| 16) PAM/030 (WMT/009b) - Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↑ | 75.07% | 74% | 72% | 72.2% | 65.8% | TBC Hydref / October |
| 17) PAM/035 - Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | | 0.13 | 1 | 1 | - | - | - |
| 18) PAM/043 - Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | | | 61kg | | 210kg | - | - | - |
| 19) PAM/017 (LCS/002b) - Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 y boblogaeth | Gwyrdd / Green | | 131k | 111k | 515k | 508k | 464k | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 20) PAM/023 (PPN/009) - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | ↓ | 97% | 95% | 95% | 98% | 98% | Uchaf / Upper |
| 21) PAM/018 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 90% | 90% | 90% | 86% | - | Isaf / Lower |
| 22) PAM/019 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 80% | 65% | 65% | 47% | - | Isaf / Lower |
| 23) PAM/041 - Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 78% | 50% | 50% | - | - | - |
| 24) PAM/042 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 88% | 80% | 80% | - | - | - |
| 25) PAM/012 - Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | | 56.75% | 55% | 55% | - | - | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 24 | 16 | 75 | 75 | - | Uchaf / Upper |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 2 | 1 | 4 | 4 | - | - |
| 28) PAM/015 (PSR/002) - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 156.4 | 175 | 175 | 177 | 238.8 | Uchaf / Upper |
| 29) PAM/037 - Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | | 11.96 | 12 | 12 | - | - | - |
| 30) PAM/038 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | | 100% | 100% | 100% | - | - | - |
| 31) PAM/009 - Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | Isaf / Lower |
| 32) PAM/032 - Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 | - | | - | - | - | - | - | - |
| 33) PAM/033 - Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | - |
| 34) PAM/034 - Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | - |
| 35) PAM/040 - Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | - |
| 36) PAM/024 (PM13a) - Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 37) PAM/026 (PM15) - Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 38) PAM/027 (PM13c) - Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 39) PAM/020 (THS/012a) - Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | | - | - | 3% | 3.20% | 2.30% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 40) PAM/021 (THS/012b) - Canran y prif ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | | - | - | 5% | 4.40% | 3.20% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 41) PAM/020 (THS/012c) - Canran y prif ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | | - | - | 10% | 8.90% | 10.10% | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 42) PAM/039 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag [Blynyddol] | - | | - | - | - | - | - | - |

Atodiad B

Mae'r ddogfen yma wedi'i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i'r -

- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau, a'r**
- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes**

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi ei gwblhau | Prosiect wedi ei gwblhau |
| Ar y trywydd iawn | Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn |
| Ar ei hôl hi | Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thŷ ôl i'r amserlen ddisgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi dechrau |

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau | | |
|---|---|---|
| **Rhaglenni** | **Prosiectau Unigol** | **RAYG a Diweddariad** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | Mae'r amserlen ar gyfer adeiladu **Ysgol Santes Dwynwen** yn Niwbwrch wedi llithro i Mawrth 2019<br><br>Mae gwaith adnewyddu **Ysgol Brynsiencyn** yn digwydd dros gyfnod yr haf |
| | **Llangefni** | **Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir a Ysgol Henblas**<br>Penderfynwyd y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus.<br><br>**Ysgol y Graig a Ysgol Talwrn**<br>Penderfynwyd cynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. |
| | **Seiriol De Ddwyrain** | Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith oedd i gymeradwyo Opsiwn 1, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed. |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Mae cynnydd da yn cael ei wneud efo'r gwaith adeiladu. Mae'r trosglwyddo wedi llithro hyd at ddiwedd mis Medi gyda thenantiaid yn gallu symud i mewn ddechrau mis Hydref. |
| | **Gofal Ychwanegol Amlwch** | Mae darn o waith yn cael ei wneud gan yr Adran Dai i edrych ar anghenion tai yn fwy eang o fewn yr ardal sydd yn cynnwys ystyried TGY. |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Penderfynwyd y Pwyllgor Gwaith bod Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.<br><br>Nawr bod penderfyniad wedi'i gytuno mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, bydd datblygiad y safle yn cael ei adolygu. |
| | **Tai a chefnogaeth mewnol** | Bwriad newydd y prosiect ydi i gadw'r gwasanaeth yn fewnol i'r Cyngor ond i ailfodelu er mwyn sicrhau arbedion ariannol. |
| | **Tai a Chefnogaeth Allanol** | Bwriad y prosiect fydd i ailfodelu ac ail ddylunio'r gwasanaethau mewn ymgynghoriad agos gyda gofynion y Rhaglen Cefnogi Pobl |
| | **Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref** | Mae'r gwaith tendr wedi cwblhau. Contractau newydd mewn lle erbyn diwedd Ch1 2018/19 gyda chyfnod pontio wedi hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd, diwylliant a Market Hall** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Melin Llynnon a'r Tai Crynion– Hysbysebiad yn y cylchgrawn arbenigol yn Mehefin 2018 i geisio denu diddordeb masnachol.<br><br>Carchar a Llys Biwmares – Gweithio mewn partneriaeth gyda Cyngor tref Biwmares ar amserlen i drosglwyddo'r asedau i Cyngor Tref Biwmares erbyn Hydref 2018 |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Gweithio ar y broses ail strwythuro staff i fod mewn lle erbyn Ch2<br><br>Gweithio ar y broses o drosglwyddo'r llyfrgelloedd cymunedol yn Biwmares a Rhosneigr<br><br>Mae llyfrgelloedd Moelfre ac Niwbwrch nawr wedi cau.<br><br>Bydd Cemaes yn parhau ar agor am y flwyddyn ar ôl i'r gymuned leol gytuno ar gyllid i barhau â'r ddarpariaeth llyfrgell dros y tymor byr |
| | **Market Hall** | Mae'r prosiect ar ei hol hi a mae'r dyddiad cwblhau nawr yn Rhagfyr 2018. Mae materion Cyllidol yn gysylltiedig gyda arian ERDF wedi gohirio'r prosiect. |
| **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | | Mae'r bwrdd Sipsiwn a Theithwyr yn adolygu'r amserlen ar gyfer y prosiect yn Ch1 18/19. Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer y safle Star ond mae'r penderfyniad wedi'i ohirio gan y Pwyllgor Cynllunio tan ddyddiad ddiweddarach. |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | Gweler y Dangosyddion Perfformiad 16 + 17 ar y Cerdyn Sgorio i weld cyrhaeddiad |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | Mae cynllun ar y gweill i ddarparu gwaith lliniaru llifogydd ym Mhentraeth, Biwmares a Bodffordd yn ystod 2018/19. |

| **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen / Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **RAYG a Diweddariad byr** |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | Slipiau Cyflog - yn symud ymlaen yn dda, gan drosglwyddo slipiau cyflog yn electronig yn ystod Ch2<br><br>Recriwtio trwy'r wefan - Ychydig o broblem dechnegol wedi codi yn y fersiwn Cymraeg yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | golygu y caiff yr ymgyrch ei ohirio. Sesiynau peilot a sesiynau briffio i reolwyr yn llwyddiannus.<br><br>Costau teithio – ar y trywydd iawn ac yn gwneud cynnydd da. |
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb Yn Wyneb** | Cytundeb ar ddau gynllun peilot. Roedd oedi yn yr ail-strwythuriad o fewn y gwasanaeth llyfrgell yn golygu oediad i gychwyn y peilot.<br><br>Oherwydd yr oedi yn agor Neuadd y Farchnad tan y gaeaf (Rhagfyr 2018), mae hyn yn galluogi ni i ymgymryd a peilot mwy cynhwysfawr yn Amlwch dros gyfnod yr haf. |
| | **Cyswllt Dros Y Ffôn + Newid Sianel** | Mae pob canolfan cyswllt wedi llwyddo mynd yn fyw heb unrhyw anhawster i'r cyhoedd<br><br>Mae yna welliant o'r niferoedd o alwadau sydd yn cael ei methu yn cael ei dystiolaethu yn y gwasanaethau hynny sydd wedi mynd yn fyw (hyd at 80% llai o alwadau yn cael ei methu). |
| | **CRM** | Gweithredwyd y Modiwl Gwastraff ac Ailgylchu. Mae oedi gyda sicrhau'r cyswllt AD ac integreiddio Teleffoni'n yn golygu bod y prosiect yn Goch - mae cynlluniau wedi cael eu sefydlu i fynd i'r afael â'r oedi hwn. |
| | **Gwella Prosesau Busnes** | Penderfyniad i ganolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o edrych ar VOIDS. Mae'r broses wedi sgopio a mae ymdrechion diwygiedig yn parhau. Cytundeb i ail edrych ar hwn yn dilyn ymgorffori yr arfer diwygiedig. |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Cyflwynwyd cynllyn 2018/19 i'r Bwrdd Trawsnewid a mae'r cynllun yn gweithredu.<br><br>Gwaith datblygu adfer pellach yn mynd rhagddo i nodi cyfleoedd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. |
| **Strategaeth TGCh** | | Strategaeth TG Digidol – 'Ynys Ddigidol' wedi cael ei chymeradwyo ac yn berthnasol i 2016-2020.<br><br>Strategaeth yn cael ei ddiwygio i'w ail-fabwysiadu yn ystod Chwarter 2. |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Ar y trywydd iawn |
| **Strategaeth Cyfathrebu** | | Strategaeth Cyfathrebu dywededig wedi ohirio tan Rhagfyr 2018 |

This page is intentionally left blank

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL: 2017/2018 → 2018/19

Cadeirydd: Cynghorydd Aled Morris Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Dylan Wyn Rees

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752578

E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Mai, 2017** | | |
| **31 Mai 2017**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 3.30yp | Ethol Cadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol |
| **Mehefin, 2017** | | |
| **26 Mehefin 2017**<br>**[CH4: 2016/17]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2016/17<br>Adroddiad SAC ar salwch fel atodiad | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2016/17 | Monitro perfformiad |
| | Strategaeth Tai Gwag 2017/2022 | Datblygu Polisi |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodau |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Gorffennaf, 2017** | | |
| **11 Gorffennaf 2017**<br>**[Cyfarfod arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Statudol ardal Llangefni | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Amlinellol Strategol – Band B (2019/24) | Trawsnewid |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau – enwebiad i'r Panel Gwella Ysgolion | Enwebu Aelodau |
| **Medi, 2017** | | |
| **4 Medi 2017**<br>**[CH1: 2017/18]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Sgorffwrdd Corfforaethol [CH1 ] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Cynllun y Cyngor 2017/2022 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2016/17) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad |
| **Hydref, 2017** | | |
| **2 Hydref 2017** **[Cyfarfod arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (AGGCC) | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17 | Monitro perfformiad |
| | Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| **31 Hydref 2017** **[Cyllideb]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Tachwedd, 2017** | | |
| **13 Tachwedd 2017** **[CH2: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Trawsnewid |
| | Strategaeth Rheoli Asedau -Tai Cyngor | Datblygu Polisi |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | | |

Tudalen 93

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Rhagfyr, 2017** | | |
| **14 Rhagfyr 2017**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 | Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Carchar a Llys Biwmaris | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 27/11/17 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen a Peter Rogers) |
| **Ionawr, 2018** | | |
| **31 Ionawr, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Tai Gofal Ychwanegol – ardal Seiriol (crynodeb o adborth yn sgîl y broses ymgysylltu) | Trawsnewid |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Cludiant ysgol | Cyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant / Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Wella Mân-ddaliadau | Rhybudd o gynnig o'r Cyngor Llawn |
| | Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (2016/17) | Monitro perfformiad – er gwybodaeth |
| **Chwefror, 2018** | | |
| **5 Chwefror 2018**<br>**[Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Cyllideb Ddrafft 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (Panel Sgriwtini Cyllid) | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| **Mawrth, 2018** | | |
| **12 Mawrth 2018**<br>**[CH3: 2017/18]** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Seiriol | Trawsnewid |







Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
| --- | --- | --- |
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid |
| | Asesiad Digonolrwydd Chwarae | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Ebrill, 2018** | |
| **23 Ebrill 2018**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir, Bodffordd a Henblas) | Trawsnewid |
| | Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth | Monitro perfformiad<br>[Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17] |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Trawsnewid |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Mehefin, 2018** | |
| **4 Mehefin, 2018**<br>**[CH4: 2017/18]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Trafnidaeth Ysgol – diweddariad ar wireddu'r cynllun gweithredu (er gwybodaeth) | Monitro perfformiad<br>[Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/01/18] |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Gorffennaf, 2018** | |
| **5 Gorffennaf, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Monitro perfformiad |
| **13 Gorffennaf, 2018** | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Trawsnewid |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | | |
| **Awst, 2018** | | |
| **2 Awst, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Llangefni (Y Talwrn a'r Graig) | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 16/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Lewis Davies, Bryan Owen a Peter Rogers) |
| **6 Awst, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Seiriol | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 18/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, John Arwel Roberts, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen a Peter Rogers) |
| **Medi, 2018** | | |
| **12 Medi, 2018**<br>**[CH1: 2017/18]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2017/18) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Hydref, 2018** | | |
| **Hydref, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>**Dyddiad i'w gadarnhau** | Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn – diweddariad | Trawsnewid |
| **24 Hydref, 2018**<br>**[Cyllideb]**<br>**(neu 5 Tachwedd, 2018)**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18 | Monitro perfformiad |

Tudalen 96

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Tachwedd, 2018** | |
| **12 Tachwedd, 2018 [Ch2: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| | Strategaeth Ddigartref | Datblygu Polisi |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **10 Rhagfyr, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | **Chwefror, 2019** | |
| **4 Chwefror, 2019 [Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cyllideb Ddrafft 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Mawrth, 2019** | |
| **11 Mawrth, 2019 [CH3: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Ebrill, 2019** | |
| **8 Ebrill, 2019** | | |

Tudalen 97

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | |
| I'w gadarnhau | Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden anstatudol (cyfnod 3 blynedd) | Trawsnewid |
| I'w gadarnhau (Mehefin, 2019) | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| I'w gadarnhau | Rheoli Ynni | Monitro perfformiad (Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/10/17) |
| I'w gadarnhau | Tlodi Tanwydd – cynlluniau i gefnogi cartrefi | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 13/11/17] |
| I'w gadarnhau | Effeithiau Diwygio Lles | Monitro perfformiad |
| I'w gadarnhau | Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Datblygu polisi [Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Scrutiny, 18/06/18] |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **12 Medi, 2018** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol – 'Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt'** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Mae ymrwymiad i lunio Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yn yr Awdurdod Lleol er mwyn craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cng Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd: Fôn Roberts**<br>**Gwasanaethau Oedolion: Alwyn Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Sophie Shanahan**<br>**01248 752717**<br>**slsss@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau** |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| A1 – Nodi'r sylwadau a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2017/18 ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>A2 – Nodi perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ac yn delio â chwynion.<br><br>A3 – Nodi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau i ddelio'n effeithiol gyda'r sylwadau a chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. |

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae gan y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol rôl mewn sicrhau'r ddarpariaeth o Wasanaethau Cymdeithasol o safon uchel. Mae'r weithdrefn felly yn berthnasol i'r blaenoriaethau canlynol o Gynllun y Cyngor:

- Creu'r amodau fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial tymor hir
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion statudol yng Nghymru yn unol â'r Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014. Mae ymrwymiad i lunio Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol yn yr Awdurdod Lleol er mwyn craffu a monitro'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

Mae'n bwysig bod cofnod yn cael ei gadw o sylwadau a chwynion er mwyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol allu dysgu gwersi oddi wrthynt, a hynny fel rhan o'r broses o wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'n arfer dda i rannu'r adroddiad cwynion blynyddol ag aelodau'r Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder. Mae ystadegau cwynion hefyd yn cael eu rhannu'n chwarterol yn y Sgorfwrdd Corfforaethol. Yn ystod 2017-18, mae dehongliad mwy manwl wedi cael ei hychwanegu at y Scorfwrdd Corfforaethol, efo ystadegau ar gyfer cwynion o dan y Weithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hadrodd ar wahân i'r rhai ar gyfer cwynion a dderbyniwyd ymateb o dan bolisi Pryderon a Chwynion corfforaethol y Cyngor. Mae hwn yn galluogi craffu rheolaidd gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gwaith.

## 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Ddim yn berthnasol.

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| ATODIAD 1 – Adroddiad Blynyddol: ‘Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt’<br><br>ATODIAD 2 – Cynllun Gweithredu 2018/19 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Cofnodion cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant ac Oedolion

# ‘Gwrando ar Gwynion a Dysgu oddi wrthynt’

# GWEITHDREFN SYLWADAU A CHWYNION Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL – 2017/18

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y modd y gweithredwyd Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2017 hyd ddiwedd Mawrth 2018.

1.2 Mae'r Swyddog Datblygu Gofal Cwsmer a Swyddog Cwynion Dynodedig yn gweithio yn y Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd yn gyfrifol am weinyddu'r Drefn Sylwadau a Chwynion yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r Swyddog Cwynion yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Prif Weithredwr Cynorthwyol) ac yn cael ei rheoli ar ei rhan gan y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu a Sicrhau Ansawdd.

1.3 Mae'r Swyddog Cwynion yn gyfrifol am:

- Gydlynu trefniadau'r gwasanaeth er mwyn cydymffurfio gyda'r Drefn Sylwadau a Chwynion
- Cofnodi cwynion a sylwadau cadarnhaol a negyddol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr;
- Monitro'r ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni a bennir yn rheoliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â chwynion dan Gam 1;
- Cyd-gysylltu ymchwiliadau gan Swyddogion Ymchwilio Annibynnol i gwynion ffurfiol dan Gam 2 y weithdrefn;
- Sicrhau yr anfonir ymateb ffurfiol, ysgrifenedig a chopi o'r adroddiad ymchwilio annibynnol at yr achwynydd o fewn 25 diwrnod gwaith dan Gam 2 y weithdrefn, gan roi gwybod iddo os rhagwelir y bydd oedi yn yr amserlen;
- Cydgysylltu ymatebion yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion ynghylch materion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Monitro Cynlluniau Gweithredu i sicrhau y dysgir gwersi o'r broses o ymchwilio i gwynion er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a roddir,
- Datblygu'r Weithdrefn Fewnol ar gyfer Sylwadau a Chwynion;
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael er mwyn hwyluso mynediad i ddefnyddwyr y Gwasanaeth a'u cynrychiolwyr at y Drefn Sylwadau a Chwynion;
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth i hyrwyddo gwell dealltwriaeth ymysg staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch swyddogaeth y Drefn Sylwadau a Chwynion.

1.4 Prif amcan y trefniadau hyn yw:

- Cofnodi unrhyw sylwadau, boed yn rhai negyddol neu gadarnhaol am y gwasanaethau a roddir;
- Ceisio ymdrin â sylwadau a phryderon mor agos â phosib at bwynt darparu'r gwasanaethau er mwyn osgoi gorfod eu huwch-gyfeirio;
- Rhoi cyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth a phobl gymwys eraill gyflwyno cwynion ffurfiol dan Gam 2 y weithdrefn.

## 2. Sylwadau – Cadarnhaol a Negyddol

### 2.1 Sylwadau Cadarnhaol

2.1.1 Cofnodwyd cyfanswm o 232 o sylwadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn (96 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a 136 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion) – cynnydd o gymharu â chyfanswm y llynedd o 202, efo sylwadau cadarnhaol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn fwy na dyblu (o gymharu efo 46 y flwyddyn gynt). O'r 96 o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn 2017/18, roedd 32 gan swyddogion proffesiynol eraill a 64 gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu cynrychiolwyr neu aelodau o'u teuluoedd neu ofalwyr maeth.

2.1.2 O'r 136 o sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion, roedd 12 gan swyddogion proffesiynol eraill ac roedd 124 gan ddefnyddwyr gwasanaethau neu aelodau o'u teuluoedd. Caiff y sylwadau cadarnhaol eu categoreiddio yn y tabl isod.

2.1.3 Cafodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd eu hailstrwythuro yn 2017, felly mae ystadegau rhai o'r timau wedi cael eu grwpio hefo'i gilydd.

**<u>Tabl 1</u>**

| SYLWADAU CADARNHAOL | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal / Tîm Ymyrraeth Deuluol / Môn 3 / Môn 4 / Môn 5 / Môn 6 | 38 | Gofal Preswyl | 102 |
| Tîm Dyletswydd / Môn 1 / Môn 2 | 7 | Gofal Môn | 11 |
| Gwasanaethau Arbenigol Plant | 5 | Tîm Oedolion – Y Gogledd | 4 |
| Tîm Lleoli Plant | 6 | Tîm Oedolion – Y De | 7 |
| Gwasanaethau Cymorth | 10 | Tîm Anableddau Corfforol a Synhwyraidd | 6 |
| Tîm o amgylch y Teulu | 13 | Tîm Anableddau Dysgu | 2 |
| Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd | 5 | Tîm Contractau | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teuluoedd Gwydn | 2 | Sylwadau cadarnhaol am fwy nag un tîm | 3 |
| Tîm Gwella Ansawdd a Diogelu | 4 | | |
| Sylwadau cadarnhaol am fwy nag un tîm | 4 | | |
| **Cyfanswm** | **96** | **Cyfanswm** | **136** |

2.1.4 Mae engreifftiau o'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd fel a ganlyn:

*"Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddweud pa mor broffesiynol fu'r tîm maethu drwy gydol ein profiad maethu ac ni fedrwn ganmol digon ar y modd y bu i'r gweithwyr cymdeithasol wneud yr holl brofiad gymaint yn haws. Mae'n sensitif, yn gefnogol iawn, yn hynod effeithlon a threfnus a bob amser yn delio ar unwaith gydag unrhyw broblemau a oedd gennym. Mae'n llysgennad ardderchog ar gyfer maethu."* **– Tîm Lleoli Plant, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

*"Roedd y profiad hwn yn ddefnyddiol iawn i mi. Mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi fy helpu ar gyfer y dyfodol ynghyd â'r presennol. Byddwn yn hapus iawn i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn eto. Diolch yn fawr iawn i chi."* **– Ymyrraeth Gynnar ac Atal, Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

*"Rydych wedi helpu cymaint arnom ac wedi dangos i ni y gallwn ymddiried yn rhywun eto. Ni fyddwn wedi cael y cyfle hwn heb eich cymorth a'ch cefnogaeth gyson. Da chi yn anghygoel."* – **Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

*"Mae eich cefnogaeth wedi bod o gymorth mawr. Rydym wedi elwa o'ch cyngor a'ch dealltwriaeth. Da chi wedi bod yn ardderchog. Da chi wedi gwneud gwahaniaeth anferthol. Rydym yn teimlo ein bod wedi bod yn lwcus iawn i gael eich help. Diolch i chi."* **– Tîm o Amgylch y Teulu, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

*"Roeddech chi i gyd mor garedig. Doedd dim byd yn ormod i chi – rydych yn staff gofalgar a thosturiol. Yn wir, rydych yn dîm gwych, gallaf dystio i hynny. Mae bod yn Brwynog fel bod gartref. Diolch o galon i chi gyd."* **– Brwynog, Gwasanaethau Oedolion**

*"Dim ond eisiau diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth dros y misoedd diwethaf ac am yr holl newidiadau yr ydych wedi eu gweithredu sydd wedi gwella'n sylfaenol y gofal yr wyf yn ei dderbyn. Ni fedraf bwysleisio digon pa mor ddiolchgar ydw i i chi am wella ansawdd fy mywyd."* **– Tîm Oedolion – Y Gogledd, Gwasanaethau Oedolion**

*“Yn syml – y lle gorau. Tîm ffantastig. Awyrgylch hyfryd, cyfeillgar, digynnwrf. Wedi mwynhau pob eiliad ym Mhlas Crigyll. Fedrai ddim diolch digon i chi.”* **– Plas Crigyll, Gwasanaethau Oedolion**

*“Mae’n dawelwch meddwl bod yna unigolion creadigol, gweithgar a chlinigol abl a fedr eirioli ar ran ein grŵp cleient a symud gwasanaethau ymlaen i’r dyfodol. Maent yn ymroddgar iawn ac yn gwarando ar y cyngor a’r cymorth a roddir ac yn cwestiynu ymarfer ble mae hynny’n briodol.”* **– Tîm Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Oedolion**

## 2.2 Sylwadau Negyddol

2.2.1 Derbyniodd y Swyddog Cwynion gyfanswm o 43 o sylwadau negyddol / pryderon yn ystod y flwyddyn. Roedd 32 o’r rhain yn ymwneud â’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac 11 â’r Gwasanaethau Oedolion.

2.2.2 Yn aml, mae cwynion ynghylch Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i wneud efo penderfyniadau gan y Gwasanaeth, ac efallai i wneud efo penderfyniadau nad oedd o blaid yr achwynydd. Mi fydd y Gwasanaeth yn edrych i mewn i gwynion o’r fath, ond dylid bod yn ofalus wrth gymharu ystadegau cwynion timau a gwasanaethau, oherwydd y gwaith gwahanol iawn y maent yn ei wneud. Mae'n debyg y bydd rhai timau yn agored i lefel uwch o gwynion nac eraill, oherwydd natur statudol eu gwaith.

2.2.3 Weithiau, mae modd datrys pryderon o fewn 24 awr, ac yn yr achosion hynny, nid oes angen eu cofnodi dan Gam 1 y Weithdrefn. Yn ogystal, efallai y bydd y defnyddwyr gwasanaeth yn dweud nad ydynt yn dymuno gwneud cwyn swyddogol dan Gam 1 neu Gam 2 Gweithdrefn Gwynion a Sylwadau’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.2.4 Ar adegau eraill, mae’r pryderon a dderbynnir yn ymwneud â materion hanesyddol ac o’r herwydd nid ydynt yn gymwys ar gyfer ymchwiliad dan y weithdrefn gwynion, er y bydd rhyw fath o ymateb yn cael ei roi os yw hynny’n briodol.

2.2.5 Caiff y 42 o sylwadau negyddol eu categoreiddio yn Nhabl 2 isod.

**<u>Tabl 2</u>**

| SYLWADAU NEGYDDOL | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Tîm Dyletswydd / Môn 1 / Môn 2 | 6 | Tîm Anableddau Corfforol a Synhwyraidd | 1 |
| Tîm Lleoli Plant | 2 | Tîm Anableddau Dysgu | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tîm Plant Sy'n Derbyn Gofal / Tîm Ymyrraeth Deuluol / Môn 3 / Môn 4 / Môn 5 / Môn 6 | 13 | Gofal Preswyl | 1 |
| Tîm Gwella Ansawdd a Diogelu | 2 | Tîm Trawsnewid | 1 |
| Gwasanaethau Cymorth | 2 | Oedolion – Tîm Y De | 1 |
| Rheolaeth | 1 | Tim Iechyd Meddwl Cymunedol | 2 |
| Sylwadau negyddol am fwy nag un tîm / dim tîm wedi ei enwi gan gynnwys pryderon hanesyddol | 6 | Tîm Cyllid Cleientiaid | 2 |
| | | Tîm Gwella Ansawdd a Diogelu | 1 |
| | | Sylwadau negyddol am fwy nag un tîm | 1 |
| **Cyfanswm** | **32** | **Cyfanswm** | **11** |

2.2.6 Mae cymhariaeth gyda'r ffigyrau yn Nhabl 1 yn dangos bod mwy o sylwadau cadarnhaol na negyddol wedi dod i law.

## 3. Cwynion Cam 1 – Datrysiad Lleol

3.1 Mae Tabl 3 isod yn crynhoi nifer y cwynion a ddaeth i law dros y ddeng mwyth mlynedd diwethaf am y Gwasanaethau Oedolion a Phlant dan Gam 1 a Cham 2 y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion.

**<u>Tabl 3</u>**

| Blwyddyn | Cam 1 Gwasanaethau Oedolion | Cam 1 Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Cyfanswm Cam 1 | Cam 2 Gwasanaethau Oedolion | Cam 2 Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Cyfanswm Cam 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 45 | 13 | **58** | 2 | 0 | **2** |
| 2009/10 | 29 | 23 | **52** | 4 | 1 | **5** |
| 2010/11 | 37 | 20 | **57** | 1 | 2 | **3** |
| 2011/12 | 25 | 40 | **65** | 3 | 4 | **7** |
| 2012/13 | 32 | 24 | **56** | 2 | 4 | **6** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | 24 | 26 | **50** | 5 | 6 | **11** |
| 2014/15 | 17 | 20 | **37** | 2 | 5 | **7** |
| 2015/16 | 24 | 29 | **53** | 4 | 1 | **5** |
| 2016/17 | 8 | 46 | **54** | 2 | 3 | **5** |
| 2017/18 | 13 | 38* | **51** | 4 | 5 | **9** |

* O'r rhain, derbyniwyd 25 ohonynt yn ystod Chwarter 1-2 o'r flwyddyn, cyn i Wasanaethau Plant a Theuluoedd cael ei ailstrwythuro.

3.2 Mae Tabl 3 yn dangos bod nifer y cwynion a gofnodwyd o dan Gam 1 y weithdrefn wedi gostwng rhywfaint o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ond yn parhau i fod yn uchel o gymharu â nifer y cwynion Cam 1 a gafwyd ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod 2008/09-2017/18.

3.3 Bu cynnydd bychan yn nifer y cwynion a gofnodwyd dan Gam 1 ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion er bod nifer y cwynion am y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i fod yn isel ac yn is o gymharu â nifer y cwynion Cam 1 a gafwyd ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod 2008/09-2017/18.

3.4 Bu cynnydd yn nifer y cwynion Cam 2 yr ymchwiliwyd iddynt o gymharu â'r flwyddyn flaenorol er bod yr ystadegau'n dangos bod y mwyafrif o'r cwynion yn parhau i gael eu datrys yn ystod Cam 1. Mae ystadegau Cam 2 dros y 10 mlynedd ddiwethaf wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn, heb unrhyw batrwm penodol.

3.5 O'r 51 o gwynion a dderbyniwyd dan Gam 1, cafodd 49 ohonynt eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod gwaith (sef yr amserlen a nodir yn y rheoliadau ar gyfer cydnabod cwynion).

3.6 Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y gwasanaethau o ran ymateb i gwynion Cam 1 o fewn yr amserlenni statudol. Disgwylir bod achwynwyr yn cael cynnig cyfarfodydd / trafodaethau dros y ffôn o fewn 10 niwrnod gwaith o gydnabod y gŵyn, gyda llythyr ymateb yn dilyn i gadarnhau telerau datrys eu cwyn o fewn 5 niwrnod gwaith i'r drafodaeth.

**<u>Tabl 4</u>**

| | **Gwasanaethau Plant** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Trafodaeth** | **Ymateb Ysgrifenedig** | **Trafodaeth** | **Ymateb Ysgrifenedig** |
| **Canran o fewn yr Amserlen** | 82%<br><br>(31 allan o 38) | 55%<br><br>(21 allan o 38) | 62%<br><br>(8 out of 13) | 31%<br><br>(4 out of 13) |

3.7 Dengys y canrannau uchod gynnydd o ran cyfran y cwynion y cynhaliwyd trafodaeth yn eu cylch o fewn yr amserlen ar gyfer y Gwasanaethau Plant (o

gymharu â 74% yn y flwyddyn flaenorol), ond maent yn dangos gostyngiad o ran y gyfran sy’n derbyn ymateb ysgrifenedig o fewn yr amserlen (o gymharu â 65% yn y flwyddyn flaenorol). Ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion, roedd cyfran y cwynion y cynhaliwyd trafodaeth yn eu cylch o fewn yr amserlen wedi gostwng (o 75% y flwyddyn flaenorol) , ac yr un modd roedd cyfran yr ymatebion ysgrifenedig a anfonwyd o fewn yr amserlen wedi gostwng (o 38% yn y flwyddyn flaenorol). Gall fod yn heriol cwblhau ymateb ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith i’r drafodaeth gyda’r achwynydd, yn arbennig felly os yw’r gŵyn yn gymhleth iawn, neu os yw’r achwynydd wedi codi materion newydd yn ystod y drafodaeth neu bod angen cael gwybodaeth gan asiantaethau eraill ar gyfer ymchwiliad llawn. Fodd bynnag, mae cyfran yr ymatebion a ddarperir o fewn yr amserlen yn faes y mae angen ei wella, yn arbennig o safbwynt ymatebion ysgrifenedig. Os ceir oedi gyda’r ymateb llawn oherwydd bod angen ymatebion gan asiantaethau eraill, dylid anfon ymateb ysgrifenedig dros dro.

3.8 Mae Tabl 5 yn rhoi dadansoddiad o’r meysydd gwasanaeth y derbyniwyd cwynion yn eu cylch o dan Gam 1 Gweithdrefn Gwynion a Sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a’r Gwasanaethau Oedolion. Mae’r tabl yn dangos bod rhai timau heb dderbyn unrhyw gwynion.

**Tabl 5**

| **CWYNION CAM 1** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | | **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Tîm Dyletswydd / Môn 1 / Môn 2 | 7 | Tîm Anableddau Corfforol | 2 |
| Gwasanaethau Cymorth | 1 | Tîm Anableddau Dysgu | 1 |
| Tîm Plant sy’n Derbyn Gofal / Tîm Ymyrraeth Deuluol / Môn 3 / Môn 4 / Môn 5 / Môn 6 | 20 | Tîm Oedolion – De’r Ynys | 2 |
| Tîm Lleoli Plant | 5 | Cyllid Cleientiaid | 1 |
| Tîm Diogelu a Gwella Ansawss | 1 | Gofal Môn | 2 |
| Cwynion sy’n ymwneud â mwy nag un tîm | 4 | Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Arbenigol Plant | 0 | Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn y Gymuned | 1 |
| Tîm o amgylch y Teulu | 0 | Cwynion sy'n ymwneud â mwy nag un tîm | 2 |
| Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd | 0 | Tîm Oedolion – Gogledd yr Ynys | 0 |
| | | Gofal Preswyl | 0 |
| | | Tîm Trawsffurfio | 0 |
| **Cyfanswm** | **38** | **Cyfanswm** | **13** |

3.9 Mae dadansoddiad o natur y cwynion i'r Gwasanaethau Plant yn dangos mai'r prif themâu a welwyd yn y cwynion Cam 1 oedd:

- Pryderon nad oedd y camau y cytunwyd arnynt wedi cael eu gweithredu
- Pryderon ynghylch materion cyfrinachedd / gwybodaeth yn cael ei rhannu'n amhriodol
- Pryderon ynghylch cyfathrebu annigonol gyda theuluoedd / diffyg gwybodaeth
- Pryderon nad oedd staff gwaith cymdeithasol yn gwrando ar deuluoedd
- Pryderon ynghylch staff gwaith cymdeithasol yn ymddwyn mewn modd a oedd yn cael ei ystyried yn negyddol neu'n ymosodol
- Pryderon bod gweithwyr cymdeithasol a neilltuwyd i achosion penodol yn newid yn aml

3.10 Yn y Gwasanaethau Oedolion, rhai themâu a welwyd yn y cwynion Cam 1 oedd:

- Pryderon fod staff yn cyfathrebu mewn modd negyddol neu amhriodol
- Pryderon bod eisiau i'r gwasanaeth fod yn fwy gweithredol neu ddarparu gwasanaethau'n gynt
- Pryderon ynghylch cefnogaeth ar gyfer gwaith addasu

3.11 Mae angen edrych ar y rhain fel themâu sy'n codi o nifer fechan o gwynion ac o'r herwydd dylid gwarchod rhag neidio i'r canlyniad eu bod yn broblemau arwyddocaol. Fodd bynnag, mae'n bwysig dadansoddi unrhyw bwyntiau dysgu perthnasol o'r holl gwynion a dderbynnir. Caiff rheolwyr eu hannog i ystyried pwyntiau dysgu ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i roi sylw i'r rhain fel rhan o'r broses o ddatrys cwynion dan Gam 1. Caiff adroddiadau chwarterol sy'n nodi pwyntiau dysgu ar gyfer gwasanaethau eu rhannu yng nghyfarfodydd rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn Adroddiad Chwarterol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar Ansawdd Ymarfer Gwaith Cymdeithasol.

# 4. Cwynion Cam 2

## 4.1 Trosolwg o Gwynion Cam 2

4.1.1 Mae’n rhaid i Swyddog Ymchwilio Annibynnol ymchwilio i gwynion dan Gam 2 y Weithdrefn. Er y gwneir pob ymdrech i ddatrys cwynion yng Ngham 1, ceir adegau lle nad oes modd gwneud hyn, yn enwedig felly gydag achosion mwy cymhleth neu pan fo’r achwynwyr wedi gofyn am fynd yn syth i Gam 2. Mae gan achwynwyr yr hawl i osgoi Cam 1 a gofyn am ystyriaeth ffurfiol dan Gam 2 os ydynt yn dymuno.

4.1.2 Yn ystod 2017/18, cofrestrwyd cyfanswm o 9 o gwynion dan Gam 2, cynnydd o gymharu â’r flwyddyn flaenorol pryd derbyniwyd 5 o gwynion. O’r 5 o gwynion Cam 2 ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, roedd 3 eisoes wedi derbyn ymateb dan Gam 2 ac roedd 2 o’r cwynion wedi cael eu cyfeirio’n syth i Gam 2. O’r 4 o gwynion Cam 2 a dderbyniwyd ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion, nid oedd yr un ohonynt wedi derbyn ymateb gan y Gwasanaethau Oedolion dan Gam 1 y broses.

4.1.3 Roedd y rhesymau a roddwyd dros uwchgyfeirio i Gam 2 yn cynnwys:

- Pryder na fyddai ymchwiliad gan swyddog mewnol yn ddiduedd
- Anfodlonrwydd gyda chanlyniad yr ymchwiliad Cam 1
- Anfodlonrwydd o ran y cynnydd a wnaed ers yr ymchwiliad Cam 1

4.1.4 Cafodd 4 o’r 5 ymchwiliad Cam 2 mewn perthynas â’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd eu cwblhau o fewn yr amserlen statudol sef 25 diwrnod ond ni chafodd yr un o’r ymchwiliadau Cam 2 mewn perthynas â’r Gwasanaethau Oedolion eu cwblhau o fewn yr amserlen hon. Roedd y rhesymau am yr oedi yn cynnwys argaeledd yr achwynydd, staff a’r Ymchwilydd Annibynnol, cymhlethdod a’r amser a gymerodd i lunio ymateb ffurfiol y Gwasanaeth. Mewn achosion lle bu oedi, cafodd yr achwynwyr eu diweddaru ynghylch pa bryd y gellid disgwyl i’r gwasanaeth anfon ymateb.

4.1.5 Caiff Cynlluniau Gweithredu eu creu yn dilyn ymchwiliadau dan Gam 2 os oes argymhellion yn adroddiadau’r Ymchwilwyr Annibynnol er mwyn sicrhau bod gwersi’n cael eu dysgu ac ymarfer yn gwella. Mae ymchwiliadau Cam 2 i gwynion sy’n ymwneud â’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cynnwys trafodaeth gyda’r Person Annibynnol ynghylch cynnwys y Cynlluniau Gweithredu mewn achosion lle mae Person Annibynnol wedi cael ei benodi, fodd bynnag, nid oes rhaid dwyn Person Annibynnol i mewn i gwynion ynghylch gwasanaethau a ddarperir ar gyfer oedolion. Caiff Cynlluniau Gweithredu Cam 2 eu cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth ac yna eu monitro bob mis hyd oni fydd y camau gweithredu i gyd wedi’u cwblhau.

## 4.2 Cwynion Cam 2 i’r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

4.2.1 Yn ystod 2017/18, cofrestrwyd tair cwyn mewn perthynas â’r Gwasanaethau Plant o dan Gam 2 y Weithdrefn. Mae Tabl 6 yn edrych ar y cwynion hyn yn

fanylach, ac yn dangos bod pwyntiau wedi cael eu cadarnhau ar gyfer 3 allan o'r 5 gŵyn, bod pwynt wedi cael ei gadarnhau'n rhannol ar gyfer 1 gŵyn, ac nad oedd unrhyw bwyntiau wedi cael eu cadarnhau ar gyfer 1 gŵyn.

**Tabl 6**

| NATUR Y GŴYN | CANLYNIADAU A CHAMAU A GYMERWYD I WEITHREDU PWYNTIAU DYSGU OS YN BERTHNASOL |
|---|---|
| Pryderon ynghylch cyfathrebu annigonol ac amhriodol, ymateb amhriodol i bryderon diogelu, cofnodi annigonol a gweithredu'n ultra vires | Cadarnhawyd 5 pwynt o'r gŵyn, cadarnhawyd 4 pwynt yn rhannol, ni chadarnhawyd 2 bwynt ac ni ddaethpwyd i benderfyniad ynghylch 2 bwynt o'r gŵyn<br>• Cafodd staff cymorth busnes eu hailstrwythuro er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol gydag aelodau staff<br>• Atgoffwyd rheolwyr o'r angen i ymateb yn ffurfiol i geisiadau am gael newid gweithiwr cymdeithasol |
| Pryderon nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiduedd ac wedi cyfathrebu barn mewn modd amhriodol ac nad oedd cymorth priodol wedi cael ei ddarparu | Cadarnhawyd yn rhannol 1 pwynt o'r gŵyn ac ni chadarnhawyd 3 bwynt. |
| Pryder ynghylch oedi o ran darparu sicrwydd bod plant yn ddiogel | Cadarnhawyd 1 pwynt o'r gŵyn.<br>• Mae'r llif gwaith yn y system WCCIS (cofnodiadau achos) wrthi'n cael ei ailfapio fel bod rheolwyr perthnasol yn cael eu hatgoffa ynghylch cynlluniau ac asesiadau gofal nad ydynt wedi eu cwblhau<br>• Taflen ganllawiau i staff ynghylch cwynion wedi cael ei diweddaru |
| Pryderon ynghylch oedi gydag asesiad, defnydd o iaith a chymorth annigonol | 2 bwynt o'r gŵyn wedi cael eu cadarnhau a 2 bwynt wedi eu cadarnhau'n rhannol<br>• Staff wedi eu hatgoffa o'r angen i ddwyn y ddau riant gyda chyfrifoldeb rhiant i mewn i'r broses o asesu anghenion gofal a chymorth plentyn<br>• Safonau ymarfer mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth wrthi'n |

| | |
|---|---|
| | cael ei mabwysiadu gan y gwasanaeth |
| Pryderon ynghylch ymddygiad y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn achosion llys, diffyg cefnogaeth o ran teulu'r plentyn ac ymwneud y plentyn â nhw a diffyg ystyriaeth o anghenion ieithyddol y plentyn | Ni chadarnwyd 5 pwynt o'r gŵyn, dim pwyntiau wedi cael eu cadarnhau |

### 4.3 Cwynion Cam 2 i'r Gwasanaethau Oedolion

4.3.1 Yn ystod 2017/18, daeth pedair cwyn i law dan Gam 2 y Weithdrefn. Mae Tabl 7 yn edrych ar y pedair gŵyn yn fanylach, ac yn dangos bod pwyntiau wedi cael eu cadarnhau ar gyfer 1 gŵyn ynghylch asiantaeth ddarparu annibynnol, ac nad oedd unrhyw bwyntiau wedi cael eu cadarnhau ar gyfer 3 gŵyn.

**Tabl 7**

| NATUR Y GŴYN | CANLYNIADAU A CHAMAU A GYMERWYD I WEITHREDU PWYNTIAU DYSGU OS YN BERTHNASOL |
|---|---|
| Pryderon am y modd y cyfathrebodd asiantaeth ddarparu annibynnol gyda ac ynghylch defnyddiwr gwasanaeth | Cadarnhawyd 3 phwynt o'r gŵyn, cadarnhawyd 1 pwynt yn rhannol ac ni chadarnhawyd 2 bwynt<br>• Y darparwyr wedi llunio gweithdrefn fewnol newydd ar gyfer cwynion<br>• Atgoffwyd y darparwr i ymgynghori gyda gweithwyr cymdeithasol ynghylch cymorth ychwanegol a strategaethau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, lle mae hynny'n berthnasol |
| Pryderon y cafodd asesiad OT ei gynnal mewn modd amhriodol a rhagfarnllyd | Ni chadarnhawyd 6 pwynt o'r gŵyn, dim pwyntiau wedi eu cadarnhau |
| Pryderon nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu cymorth ynghylch newid cartref gofal a ddim wedi dilyn y canllawiau o ran ffioedd ychwanegol ('top up') | Ni chadarnhawyd 2 bwynt o'r gŵyn, dim pwyntiau wedi eu cadarnhau |
| Pryderon nad oedd asesiadau'n cael eu cynnal yn y modd priodol, cyfathrebu amhriodol, cymorth annigonol mewn perthynas â gwaith addasu a gwahaniaethu. | Ni chadarnhawyd 29 pwynt o'r gŵyn, dim pwyntiau wedi eu cadarnhau. |

## 5. Rhestr Ymchwilwyr Annibynnol

5.1 Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y 6 sir yng Ngogledd Cymru restr o Ymchwilwyr Annibynnol i ymchwilio i gwynion Cam 2. Gwneir ymdrechion parhaus i adnabod a recriwtio staff cymwys a phrofiadol ar gyfer y panel hwn.

5.2 Mae'n rhaid penodi Personau Annibynnol i oruchwylio ymchwiliadau i gwynion Cam 2 o ran y modd y cyflawnir rhai swyddogaethau dan ddarpariaethau Deddf Plant 1989 a'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Penodwyd Person Annibynnol ar gyfer 4 o'r ymchwiliadau Cam 2 i gwynion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant yn ystod 2017/18.

## 6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

6.1 Cysylltodd yr Ombwdsom gyda'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â 6 o bryderon ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2017/18, ond penderfynodd ymchwilio i 2 ohonynt yn unig. Roedd ymchwiliad eisoes wedi cael ei gynnal i'r ddwy gŵyn dan Gam 2 y Weithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Ceir manylion yn Nhabl 8 isod am y 2 gŵyn.

**Tabl 8**

| NATUR Y GŴYN | CANLYNIADAU A CHAMAU A GYMERWYD I WEITHREDU PWYNTIAU DYSGU OS YN BERTHNASOL |
|---|---|
| Pryderon ynghylch y modd y dilynodd y Cyngor ganllawiau gan Lywodraeth Cymru wrth gynnal proses adolygu yn dilyn herio asesiad ariannol ac o ran cynnig lleoliad arall addas yn yr ardal nad oedd angen talu ffioedd ychwanegol amdano | 2 o bwyntiau'r gŵyn wedi eu cadarnhau.<br>• Lluniwyd taflen wybodaeth i'w hanfon i unigolion gyda'r asesiad ariannol sy'n egluro'r broses a'r amserlen ar gyfer adolygu cais<br>• Y polisi codi tâl ac asesiad wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu pan fo preswylydd sy'n hunan-ariannu ac sydd eisoes yn byw mewn cartref gofal, yn cael ei asesu fel unigolyn sy'n gymwys i dderbyn cyfraniad gan y Cyngor tuag at eu ffioedd cartref gofal, bod y Cyngor yn sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r preswylydd a'r teulu am y dewis i symud i gartref gofal arall sy'n cwrdd â'u hanghenon ond sydd ddim yn codi ffioedd ychwanegol. |
| Pryderon nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi cymorth mewn perthynas â threfniadau a oedd yn ymwneud â newid cartref gofal ac nad | *Nid oedd adroddiad yr Ombwdsmon wedi dod i law ar adeg ysgrifennu'r adroddiad blynyddol hwn* |

| | |
|---|---|
| oeddynt wedi dilyn y canllawiau mewn perthynas â ffioedd ychwanegol. | |

## 7. Gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol

7.1 Mae Tros Gynnal yn darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant fel rhan o wasanaeth eiriolaeth rhanbarthol. Gofynnir i bob plentyn sy'n gwneud cwyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai'n dymuno cael eiriolwr i'w gefnogi i wneud ei gŵyn, ac fe wneir cyfeiriad i'r gwasanaeth eiriolaeth os yw'r plentyn yn cytuno i hyn.

7.2 Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth. Gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol neu eilaidd dderbyn cymorth eiriolaeth trwy Wasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Gwynedd a Môn, sy'n cael ei ariannu trwy BIPBC ond sydd ar gael i bob un defnyddiwr gwasanaeth iechyd meddwl, gan gynnwys pobl hŷn sydd â dementia. Gall pobl sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r rheini sy'n derbyn gofal a thriniaeth yn yr ysbyty fel cleifion mewnol gael mynediad at y gwasanaeth IMHA (Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol), a gall pobl sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd gael cynrychiolaeth gyfreithiol yn rhad ac am ddim. Efallai y bydd oedolion eraill yn cael eu cyfeirio at sefydliadau trydydd sector megis Cyngor Ar Bopeth neu Age Cymru.

## 8. Cwynion yng nghyswllt gwasanaethau a ddarperir ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd

8.1 Mae protocol cwynion ar y cyd, sef 'Protocol Amlasiantaethol Gogledd Cymru ar Ddelio gyda Chwynion rhwng Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol', yn bodoli ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Dan y protocol hwn, cyfrannodd Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn at ymateb i 2 gŵyn a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2017/18. Yn ogystal, cysylltodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r Bwrdd Iechyd i ofyn am eu mewnbwn hwythau i 2 gŵyn a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 9. Strategaeth Wybodaeth

9.1 Dylid rhoi taflen wybodaeth i blant am y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion i bob plentyn sy'n gallu darllen ac sy'n derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a rhoddi taflen ar gyfer oedolion i'w teulu hefyd. Yn ogystal, rhoddir taflen gwynion i blant pan ddeuant yn Blant Mewn Gofal.

9.2 Yn 2017/18, ymgynghorodd y Swyddog Cwynion Dynodedig gyda'r Cyngor Ieuenctid mewn perthynas â drafft newydd o daflen ar gyfer plant a phobl

ifanc am y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion. Caiff hon ei chwblhau yn 2018/19.

9.3 Yn 2017/18, adolygodd y Gwasanaethau Oedolion y wybodaeth ysgrifenedig y mae'n ei darparu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar gychwyn y broses o gynnal asesiadau gofal a chymorth. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys taflen am y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion. Atgoffir Defnyddwyr Gwasanaeth y Gwasanaeth Oedolion o'u hawl i wneud cwyn yn ystod eu Hadolygiadau Blynyddol. Cânt hefyd gopi o'r dafle gwynion pan fyddant yn mynd i gartref preswyl neu gartref nyrsio.

9.4. Cafodd taflen hawdd i'w darllen ar gyfer oedolion sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth am y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ei chwblhau ac fe'i rhannwyd gyda gweithwyr ar gyfer ei chylchredeg yn 2017/18.

9.5 Caiff defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'u teuluoedd gopi o'r daflen gwynion pan dderbynnir gwyn ganddynt ynghyd â chydnabyddiaeth ysgrifenedig o'u cwyn a hynny o fewn dau ddiwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn..

9.6 Mae gwybodaeth ynglŷn â'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

## 10. Gwariant 2017-18

10.1 Wrth gynnal a gweithredu Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol o dan y canllawiau statudol, dyma'r prif gostau i'r Adran (ar wahân i gostau staffio):

- Costau gwaith a wneir gan Ymchwilwyr Annibynnol ar ymchwiliadau Cam 2;
- Costau gwaith a wneir gan Bersonau Annibynnol ar ymchwiliadau Cam 2;
- Costau'n ymwneud â chyhoeddi taflenni gwybodaeth.

10.2 Mae Tabl 9 isod yn dangos y gwariant ar gyfer gwaith a wnaed gan Ymchwilwyr Annibynnol a Phersonau Annibynnol yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018 (ac eithrio costau ar gyfer ymchwiliadau na chawsant eu hanfonebu tan 2018/19 ond yn cynnwys costau ar gyfer ymchwiliadau ar gyfer 2016/17 a anfonebwyd yn 2017/18). Mae'r costau hyn yn uwch nag yr oeddynt yn y flwyddyn flaenorol, yn rhannol oherwydd y nifer uwch o ymchwiliadau Cam 2 a gynhaliwyd yn 2017/18.

**<u>Tabl 9</u>**

| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | |
|---|---|
| **Natur y Gwariant** | **Cost (£)** |
| Ymchwilydd Annibynnol x 6 | 6,669.34 |

| | |
|---|---|
| Person Annibynnol x 5 | 4,011.70 |
| **Cyfanswm** | **10,681.04** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | |
| **Natur y Gwariant** | **Cost (£)** |
| Ymchwilydd Annibynnol x 5 | 9,786.30 |
| **Total** | **9,786.30** |

**11. Monitro a gwerthuso Gweithrediad Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**

11.1 Cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol i Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Oedolion a Grŵp Rheoli'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sy'n gwerthuso nifer y cwynion a chanmoliaethau a ddaeth i law yn erbyn pob gwasanaeth o dan bob cam o'r weithdrefn a'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion. Rydym hefyd yn monitro pa mor effeithiol yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ddelio â chwynion o fewn yr amser gofynnol.

11.2 Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu Grŵp Swyddogion Cwynion Gogledd Cymru yn chwarterol i drafod y trefniadau ar gyfer gweithredu'r Weithdrefn Gwynion a Sylwadau.

**12. Hyfforddiant**

12.1 Yn 2017/18, mae'r Swyddog Cwynion Dynodedig wedi darparu hyfforddiant cwynion sylfaenol i staff newydd fel rhan o'r broses gynefino; mae hyn bellach yn rhan ofynnol o broses gynefino staff yn y ddau wasanaeth. Mae'r Swyddog Cwynion Dynodedig hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Safonau Iaith Gymraeg a'r Safonau Gofal Cwsmer fel rhan o'r sesiynau cynefino.

12.2 Mae'r Swyddog Cwynion Dynodedig yn darparu canllawiau ysgrifenedig i reolwyr ynghylch llythyrau ymateb a chyfarfodydd ar gyfer cwynion Cam 1. Mae'r Swyddog Cwynion Dynodedig yn cylchredeg protocolau mewnol at reolwyr newydd, fel bo'r angen.

**Sophie Shanahan,**
**Swyddog Datblygu Gofal Cwsmer a Swyddog Cwynion Dynodedig**
**Dyddiad: Mehefin 2018**

**ATODIAD 2**

**Cynllun Gweithredu 2018/19**

| Maes | Gweithredu | Camau gan Bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. Cryfhau gweithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion | Sicrhau'n barhaus bod holl staff y Gwasanaeth yn dilyn y Canllawiau ac yn cofnodi sylwadau adarnhaol a negyddol a chwynion fel bod modd i'r Swyddog Cwynion gadw ystadegau cywir | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / Rheolwyr Tîm | Parhaus |
| 2. Ymdrin â chwynion yn effeithiol ac yn amserol o dan Gam 1 a Cham 2 y Weithdrefn | i) Cynnal ymchwiliad trylwyr i gwynion yng Ngham 1 y weithdrefn i sicrhau ymateb cynhwysfawr mewn ymgais i leddfu anfodlonrwydd ac osgoi uwch-gyfeirio i Gam 2<br><br>ii) Sicrhau ymatebion amserol i gwynion o fewn yr amser penodol o ddeng niwrnod gwaith i gynnal trafodaeth gyda'r achwynydd a 5 niwrnod o'r drafodaeth i anfon yr ymateb ysgrifenedig.<br><br>iii) Atgoffa rheolwyr o'r amserlenni ar gyfer ymateb i Gwynion Cam 1 a'r opsiwn i anfon ymateb rhannol dros dro os oes angen mwy o amser i ymchwilio'n drylwyr i'r holl faterion a godwyd | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / Rheolwyr Tîm<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / Rheolwyr Tîm<br><br>Swyddog Cwynion Dynodedig | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Medi 2018<br><br>Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (iv) Sicrhau ymatebion amserol i gwynion o fewn yr amser penodol o 25 diwrnod gwaith o dan Gam 2 y Weithdrefn. | Swyddog Cwynion Dynodedig | |
| 3. Dysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion | i)Llunio cynlluniau gweithredu mewn ymateb i argymhellion mewn adroddiadau ymchwilio Cam 2 i gwynion | Penaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth / | O fewn 20 diwrnod gwaith o roi ymateb ysgrifenedig ffurfiol a chopi o adroddiad yr ymchwiliad i'r achwynydd |
| | ii)Cofnodi'n glir yn yr ymatebion i gwynion Cam 1, unrhyw gamau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r pwyntiau dysgu a nodwyd | Rheolwyr Gwasanaeth / Rheolwyr Tîm | Parhaus |
| | iii)Adrodd yn chwarterol i'r grwpiau rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pwyntiau dysgu sy'n codi o gwynion | Swyddog Cwynion Dynodedig | Parhaus |
| 4. Cyflwyno gwybodaeth am weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion | i) Sicrhau bod gwybodaeth am y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yn cael ei chylchredeg i bob plentyn sy'n derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Plant | Arweinwyr Ymarfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Parhaus |
| | ii)Cydlynu cwblhau'r fersiwn newydd o'r daflen ar y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer plant a phobl ifanc | Swyddog Cwynion Dynodedig | Awst 2018 |
| | iii) Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr y Gwasanaethau Oedolion am y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gychwyn y broses o baratoi asesiadau | Rheolwyr Tîm y Gwasanaethau Oedolion | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gofal a chymorth ac ar yr adeg pan fyddant yn mynd i gartref nyrsio neu gartref gofal; atgoffa defnyddwyr gwasanaeth o'r weithdrefn gwynion mewn Adolygiadau Blynyddol. | | |
| 5. Codi ymwybyddiaeth o'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion | i)Codi ymwybyddiaeth o'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion fel rhan o'r broses o gynefino staff.<br><br>ii)Cylchredeg nodiadau yn atgoffa staff o'r angen i anfon cwynion, sylwadau negyddol a chanmoliaethau i'r Swyddog Cwynion Dynodedig | Swyddog Cwynion Dynodedig<br><br>Swyddog Cwynion Dynodedig | Parhaus<br><br>Bob 6 mis |